# RHYBUDD O GYFARFOD


***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***

***Emyr Williams***
***Prif Weithredwr***
***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***
***Penrhyndeudraeth***
***Gwynedd LL48 6LF***
***Ffôn: (01766) 770274***
***E.bost: parc@eryri.llyw.cymru***


| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 30 Tachwedd 2022 |
| **Amser:** | 10.00 y.b. |
| **Man Cyfarfod:** | Ystafell yr Oakeley, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog a thrwy Zoom |

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig***

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd***
*Y Cynghorydd: Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones, Kim Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy***
*Y Cynghorydd: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Llywodraeth Cymru***
*Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Ms. Naomi Luhde-Thompson, Ms. Delyth Lloyd.*

# R H A G L E N

**Rhifau Tudalen**


1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**

2. **Datgan diddordeb**
Derbyn datganiadau diddordeb gan yr Aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem.

3. **Cofnodion** **3 - 8**
Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2022 yn cael eu harwyddo fel cofnod cywir (Copi yma) a derbyn y materion sy'n codi, er gwybodaeth.

4. **Taflen Gweithredu** **9 - 10**
Cyflwyno'r Daflen Gweithredu er gwybodaeth a phenderfyniad. (Copi yma)

5. **Adroddiad Diweddaru ar Grant Ariannu Allanol** **11 - 23**
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr. (Copi yma)

6. **Craffu Strategol 2023-24** **24 - 25**
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr. (Copi yma)

7. **Rhaglen Waith Corfforaethol 2022-23** **26 - 67**
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)

8. **Cynllun Strategaeth Cydraddoldeb – Adroddiad Blynyddol** **68 - 95**
Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer. (Copi yma)

9. **Adroddiad Bioamrywiaeth A6** **96 - 114**
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth. (Copi yma)

10. **Adroddiad Monitro Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2021/22** **115 - 116**
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol. (Copi yma)

11. **Adroddiad Blynyddol y Canolfannau Gwybodaeth** **117 - 124**
Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Twrisitiaeth Gynaladwy. (Copi yma)

12. **Cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch** **125 - 127**
Cyflwyno cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 13eg Gorffennaf 2022. (Copi yma)

**EITEM RHIF 3**

**PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU**
**DYDD MERCHER 13 GORFFENNAF 2022**

***YN BRESENNOL*** :

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**
Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones, Kim Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Y Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Mr. Owain Wyn;

**Swyddogion**
Mr. G.I. Jones, Mr. J. Cawley, Mr. D. Edwards, Ms S. Owen, Ms. Nia Murray, Ms. B. Hughes, Mrs.S. Roberts;

**Yn bresennol**
Luned Fôn Jones - Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol :-
- nid oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
- roedd y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cynorthwyo i wirio'r cofnodion ond efallai y bydd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Cadeirydd**
   **PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Elfed P. Roberts fel Cadeirydd ar y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.**
   Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

2. **Is-Gadeirydd**
   Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wrth yr Aelodau ei fod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn enwebiadau yn cynnig dau Aelod dros yr Is-Gadeirydd, y Cynghorydd John Pughe Roberts a'r Cynghorydd June Jones. Gwahoddwyd yr Aelodau i annerch y cyfarfod a derbyniodd y Cynghorwyr John Pughe Roberts a June Jones y gwahoddiad.

   **PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd June Jones fel Is-Gadeirydd ar y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.**
   Diolchodd yr Is-Gadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

3. **Ymddiheuriadau**
   Mr. E. Williams, Ms. Naomi Luhde-Thompson

4. **Datgan Budd**
   Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

5. **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 23ain Mawrth, 2022 fel rhai cywir.

6. **Log Gweithredu**

Cyflwynwyd – Log o gamau gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, er gwybodaeth a chamau i'w gweithredu.

**PENDERFYNWYD nodi'r Log Gweithredu fel y'i cyflwynwyd.**

7. **Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2021/22**

Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn amlinellu barn y Gwasanaethau Archwilio Mewnol ar reolaethau mewnol o fewn yr Awdurdod. Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol yr adroddiad a chadarnhaodd ei bod yn fodlon bod gan yr Awdurdod fframwaith rheoli cadarn ar waith i reoli risgiau yn y meysydd yr ymchwiliwyd iddynt yng Nghynllun Archwilio 2021/22.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a thrafodwyd y materion a ganlyn:-

- Nododd aelod fod yna ddau faes sy'n gyfyngedig o ran dim dirywiad na gwella dros y blynyddoedd nesaf a gofynnodd pa drefniadau sydd yn eu lle ar gyfer ailymweld â'r meysydd hynny yn y dyfodol. Dywedodd y Pennaeth Archwilio Mewnol fod darpariaeth yn ei lle yn y cynllun eleni ar gyfer ailymweld â'r meysydd hynny i sicrhau bod y risgiau'n cael eu lliniaru i lefel dderbyniol ac y byddent yn cael eu hadrodd mewn Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn y dyfodol.
- Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y Rheolau Sefydlog ar gyfer Contractau yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd ac y byddent yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau maes o law. Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd dyddiad penodol pryd y byddai'r gwaith ar dendro yn cael ei drin ond cadarnhaodd y byddai'r Tîm Rheoli yn trafod y mater ym mis Medi, byddai'r Penaethiaid Gwasanaeth hefyd yn cael y cyfle i roi mewnbwn a byddai'n cael ei gyflwyno i'r Aelodau maes o law ac ar ôl mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog diwygiedig ar Gontractau byddai'r holl staff perthnasol yn cael yr hyfforddiant priodol.
- Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid y byddai'r pwynt gweithredu ar Drefniadau Tendro yn parhau fel yr oedd, gan fod pethau'n datblygu drwy'r amser ond y byddai'n cael ei ddiweddaru lle bo modd. Manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i'r Pennaeth Archwilio Mewnol am ei hadroddiad a'i phroffesiynoldeb wrth arwain y gwaith archwilio, gan fod ei gyfnod fel Prif Swyddog Cyllid Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i fod i ddod i ben ym mis Mehefin 2023, felly ni fydd yn cael cyfle arall i ddangos gwerthfawrogiad am ei gwaith mewn cyfarfod o Awdurdod y Parc.

**PENDERFYNWYD**

1. **derbyn yr adroddiad fel "Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol" yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus am y flwyddyn ariannol 202 1/22.**
2. **derbyn y Cynllun Archwilio Gweithredol ar gyfer cyfnod cyfrifyddu 202 2/23, yn ddarostyngedig i gael ei newid mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Archwilio Mewnol, y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Cyllid, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a/neu'r Pennaeth Cyllid.**

8. **Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2021/22**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid yn cymharu, ar lefel maes gwasanaeth, y cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf a gyllidebwyd gan yr Awdurdod ar gyfer 202 1/2022 a'r gwariant alldro gwirioneddol am y flwyddyn.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid yr adroddiad yn manylu ar y symudiadau a'r trosglwyddiadau o gyllidebau refeniw a chyfalaf, i'w cymeradwyo'n ffurfiol.
Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid nad oedd y bwriad i wario unrhyw warged ar Asedau'r Awdurdod wedi digwydd a chynghorodd yr Aelodau newydd ar y cylchoedd adrodd arferol ar gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod.

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad yn fanwl a gwneud y sylwadau a ganlyn:-

- Trafododd yr Aelodau'r incwm ychwanegol o Feysydd Parcio'r Awdurdod. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid fod 80% o'r arian wrth gefn eisoes wedi'i ddyrannu. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod arian wedi'i ddyrannu'n flaenorol i wella'r llwybrau troed ym Mhen y Pass ond dywedodd mai sefyllfa unwaith ac am byth oedd yr incwm ychwanegol o barcio yn hytrach nag un parhaol ac y byddai swm sylweddol o'r arian ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i wella diogelwch ym Mhen y Pass.
- Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Prif Swyddog Cyllid nad oedd unrhyw swm na chanran penodol wedi'u hargymell ar gyfer cronfeydd wrth gefn ar gyfer blwyddyn arferol. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi mynegi y byddai'r Awdurdod yn derbyn y prif grant heb chwyddiant a bod swyddogion yn trafod y mater gyda nhw i sefydlu pam fod yr Awdurdod yn y sefyllfa hon. Cadarnhaodd hefyd ei bod yn debygol y byddai'r Awdurdod, fel y rhan fwyaf o sefydliadau, angen y cronfeydd wrth gefn ychwanegol yn 2022/23, oherwydd y cynnydd mewn costau tanwydd, ac ati, a dywedodd y gallai effaith hyn fod yn sylweddol.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r Awdurdod yn parhau i godi'r materion ynghylch mynediad i'r maes parcio ym Mhen y Pass gyda Stad Baron Hill a'i fod yn gobeithio y byddai'n cael ei ddatrys maes o law, ond os na fyddai, yna byddai angen ystyried datrysiad amgen.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, er bod meysydd parcio wedi bod yn dawelach ar y cyfan eleni, roedd y Pennaeth Eiddo yn awyddus i gyrraedd y targedau incwm, ond ar y sail y bydd llai o ddefnyddwyr.

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi cynnwys yr adroddiad alldro a chymeradwyo'r trosglwyddiadau yn y cyllidebau refeniw a chyfalaf a amlinellwyd yn rhan 4 (fel y manylir yn Atodiad 1).**
2. **cymeradwyo’r trosglwyddiadau i ac o’r cronfeydd a glustnodwyd fel yr amlinellir yn y tabl o dan baragraff 4.2 ac Atodiad 3.**
3. **nodi sefyllfa derfynol cyfadrannau a gwasanaethau o ran rheolaeth gyllidebol (paragraffau 4.3 i 4.7 ac Atodiad 2).**
4. **cymeradwyo dyraniad llithriad ac ymrwymiadau (£274,833) yn Atodiad 4.**
5. **cymeradwyo trosglwyddo'r incwm maes parcio ychwanegol o £480,000 i'r Gronfa Rheoli Asedau.**

6. **nodi bod y gwarged ar gyfer blwyddyn ariannol 202 1/22 yn cynyddu Balansau Cyffredinol yr Awdurdod (paragraff 6.3).**
7. **cymeradwyo'r Datganiad Ariannu Cyfalaf (rhan 5 ac Atodiad 5).**

9. **Proffil Risg yr Awdurdod**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i roi diweddariad i'r Aelodau ar Broffil Risg yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r gofrestr risg yn fanwl.

Trafododd yr Aelodau y canlynol:-

- roedd Aelod yn hapus i nodi bod y risg o ymosodiad seiber bellach wedi'i gynnwys ar y Gofrestr Risg gan ei fod yn ymwybodol o'r difrod y gall ei achosi. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod yr Awdurdod yn ymwybodol o'r Risgiau a achosir gan Seiber Ymosodiad posibl a dywedodd ei fod wedi'i uwchraddio fel bod yr Aelodau'n ymwybodol o'r camau a gymerwyd gan yr Awdurdod.
- Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y risg wedi cynyddu'n bennaf oherwydd Covid gan fod y rhan fwyaf o waith yr Awdurdod bellach yn cael ei gwblhau ar-lein a dywedodd nad oedd y rhyfel rhwng Rwsia a'r Wcráin wedi helpu'r proffil risg hwn gan ei fod wedi cynyddu'r siawns o ymosodiadau seiber ar Gyrff Cyhoeddus.
- Trafododd yr aelodau'r ymosodiad seibr diweddar ar Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a gofyn a oedd gwersi i'w dysgu o'r digwyddiad. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y Pennaeth Systemau Gwybodaeth a Chyfathrebu wedi trafod y mater gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a bod yr Awdurdod wedi cymryd camau ychwanegol ers hynny ond dywedodd fod cyfyngiad ar yr hyn y gellid ei wneud a dywedodd ei fod yn bwysig bod pawb wedi chwarae eu rhan gan gynnwys Swyddogion ac Aelodau i osgoi unrhyw risgiau posibl.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chymeradwyo Proffil Risg yr Awdurdod fel y'i cyflwynwyd.**

10 **Rhaglen Waith Gorfforaethol 2021/22**
**Diweddariad ar yr Amcanion Llesiant**

Cyflwynwyd – Y pedwerydd a chwarter olaf o'r adroddiadau cynnydd ar gyfer 2021/22 gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad ar ddiweddariadau'r pedwerydd a'r chwarter olaf a dywedodd y byddai'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad yn cael ei defnyddio i baratoi'r adroddiad blynyddol a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Aelodau ym mis Medi.

Trafododd yr aelodau a'r swyddogion yr adroddiad a gwneud y sylwadau a ganlyn:-

- <u>Gwella Rheolaeth a Dealltwriaeth o Dreftadaeth Ddiwylliannol</u> - gofynnodd Aelod am y cynnydd ynghylch 'taith gerdded y mis'. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd yn siŵr am y cynnydd hyd yma
- <u>Mynd i'r afael â Heriau a Chyfleoedd Senarios Rheoli Tir ar ôl Brexit</u> – gofynnodd Aelod sut oedd pethau'n dod yn eu blaenau yn dilyn datganiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru yr wythnos flaenorol. Dywedodd y Cyfarwyddwr

Cynllunio a Rheoli Tir mai ychydig o gynnydd a wnaed hyd yn hyn ond bod y Prif Weithredwr yn cynnal trafodaethau rheolaidd â Llywodraeth Cymru a dywedodd fod cyfarfod i'w gynnal yn Sioe Frenhinol Cymru ac y byddai unrhyw ddatblygiadau yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau maes o law.

- Mynd i'r Afael â'r Dirywiad mewn Natur - gofynnodd Aelod a ellid gwneud unrhyw waith yn y cyfamser ar CCA ar fioamrywiaeth. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod y Canllawiau Cynllunio Cenedlaethol yn cael eu diwygio ar hyn o bryd a'i fod yn cysylltu'n rheolaidd â Swyddogion Llywodraeth Cymru a dywedodd fod y canllawiau newydd i'w cyhoeddi'n fuan iawn ac unwaith y byddent ar gael y byddai modd symud pethau ymlaen.
- Cefnogi Pobl Ifanc – mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r gwaith yn cael blaenoriaeth gan y Swyddog Ieuenctid newydd ei benodi.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

11. **Adroddiad Monitro Cwynion**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ar gwynion ysgrifenedig a dderbyniwyd gan yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad ac amlinellodd y prif bwyntiau.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

12. **Cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch**

Cyflwynwyd - Cofnodion cyfarfodydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar y 9 Chwefror a 18 Mai 2022, er gwybodaeth.

Cyflwynodd Cadeirydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch y cofnodion.
Yn codi wedi hynny,

Cofnodion 18 Mai 2022
Eitem Rhif 5 – Adroddiad Arolwg Cyflwr

- Croesawodd yr aelodau'r penderfyniad ar ddatblygu partneriaeth gyda sefydliad arall yn y tymor hir. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y syrfëwr wedi darparu'r ffigwr o £30,000 i £40,000 fel y swm oedd angen ei wario ar yr adeilad yn flynyddol i gynnal a chadw'r adeilad. Dywedodd fod angen blaenoriaethu peth gwaith oherwydd pryderon Iechyd a Diogelwch a dywedodd y byddai unrhyw benderfyniadau ar wariant sylweddol yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau.
- roedd Aelod yn bryderus ynghylch y broblem o ddŵr yn mynd i mewn i'r adeilad a rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol eglurhad pellach ar y mater. Dywedodd fod adroddiad cynhwysfawr wedi'i ddosbarthu i aelodau'r bwrdd ar gyflwr yr adeilad. Cytunodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i anfon copi o'r adroddiad at yr aelod.
- Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y busnes o ddydd i ddydd yn newid yn gyson ac nad oedd yr Awdurdod wedi edrych yn fanwl ar yr opsiwn o osod paneli solar gan fod rhai o'r tiroedd o fewn y Plas yn sensitif iawn.

**PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion.**

Diolchodd y Cadeirydd ar ran yr Aelodau i Mr. Owain Wyn a oedd yn mynychu ei gyfarfod olaf am ei gyfraniad gwerthfawr i'r Awdurdod. Diolchodd Mr. Owain Wyn i Staff ac Aelodau'r Awdurdod a dymunodd yn dda iddynt.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.40 yb**

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 14.07.2021

| EITEM RHIF. A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 9. Panel Craffu – Cyfrif Carbon Eryri | **PENDERFYNWYD ailgyflwyno drafft cynnar o Strategaeth Carbon Isel Eryri i'r Panel Craffu yn ddiweddarach yn 2021 / dechrau 2022.** | Y Cyfarwyddwr Rheoli Tir i goladu'r materion a drafodwyd i mewn i un Strategaeth Carbon Isel Eryri. | JC | Mae'r dyddiad targed ar gyfer Strategaeth Carbon Isel wedi'i wthio'n ôl. Mae hyn er mwyn caniatáu i 2 ddarn o waith gael eu hasesu gan y Panel Craffu Carbon. Ar y sail bod 3 cyfarfod o'r Panel Craffu, bydd hyn yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn yr Hydref 2023 (gallai hyn fod yn hwyrach os bydd angen mwy na 3 cyfarfod o'r Panel Craffu). | **NA** |

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 24.11.2021

| EITEM RHIF. A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 9. Strategaeth ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg 2016-21: Asesu'r Canlyniad | **PENDERFYNWYD aros am ganlyniad y cyfrifiad, cyn nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer yr Awdurdod am y 5 mlynedd nesaf** | Cyflwyno adroddiad pellach a nodi meysydd blaenoriaeth yr Awdurdod ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. | GIJ/BH | Grŵp Llywio wedi datblygu a chytuno ar strategaeth ddrafft, a fydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer sylwadau cychwynnol ac adborth yng Ngweithgor yr Aelodau ar 07/12/22. Yn dilyn hynny bydd y strategaeth yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. | **NA** |

**EITEM RHIF 5**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD:** | 30 Tachwedd, 2022 |
| **TEITL:** | **ADRODDIAD DIWEDDARU AR GRANT ARIANNU ALLANOL** |
| **AWDUR:** | Prif Weithredwr |
| **PWRPAS:** | Darparu diweddariad ar y prosiectau a gefnogir gan yr Awdurdod a chadarnhau blaenoriaethau ar gyfer cymorth gra allanol yn y dyfodol |

## 1. CEFNDIR:

1.1 Yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Tachwedd 2020 cyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr yn amlinellu sut mae'r Awdurdod wedi defnyddio cyllid grant allanol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae diweddariad wedi'i ddarparu bob 6 mis ac mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar y prosiectau a gefnogir gan yr Awdurdod.

1.2 Yn dilyn gohebiaeth â Swyddfa’r Gweinidog ar gymhlethdodau darparu grantiau tymor byr a’r angen i sicrhau bod aelodau’n cymryd rhan yn y broses o gymeradwyo prosiectau/rhaglenni, bu’r Aelodau’n trafod ac yn mabwysiadu’r broses fel y’i hatodwyd yn Atodiad 3. (Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Mawrth 2022).

1.3 Amlygodd Archwilio Cymru y pwysau y mae cefnogi darpariaeth trwy ffynonellau grant yn ei roi ar sefydliad. Mae mesurau wedi’u rhoi ar waith i fynd i’r afael â rhai o’r materion a nodwyd. Mae'r pecyn cymorth prosiect mabwysiedig (a gymeradwywyd gan Weithgor aelodau 22.05.19 ac a ddiwygiwyd ers 28.01.22 i gynnwys y Polisi Iaith Gymraeg ar Ddyfarnu Grantiau) yn cael ei ddefnyddio gan swyddogion i asesu effaith unrhyw brosiect ar yr Awdurdod.

1.3 Ers yr adroddiad diwethaf mae rhai o'r prosiectau a restrwyd wedi'u cwblhau ac fe ystyriwyd prosiectau newydd. (Gweler Atodiad 1 am ddiweddariad)

## 2. **TIRWEDDAU CYNALIADWY LLEOEDD CYNALIADWY (TCLIC) CYLLID CYFALAF LLYWODRAETH CYMRU**:

2.1 Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru raglen cyllid cyfalaf tair blynedd ar gyfer y cyfnod 01 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2025 - £800,000 yn 2022-23, £850,000 yn 2023-24 a 2024-25, sef cyfanswm y cyllid o hyd at £2,5000, 000 dros y cyfnod o dair blynedd.

2.2 Y themâu strategol a'r dyraniad grant ar gyfer cyllid TCLIC 2022-25 yw:
- Twristiaeth Gynaliadwy £897,000
- Cefnogi Cymunedau £480,000
- Datgarboneiddio £553,000
- Adfer Natur £570,000

## 2.3 Prosiectau a Gymeradwywyd gan TCLIC Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-25:

| Swyddog Arweiniol APCE Pennaeth: | Thema a Phrosiect Strategol | Ariannu 2022/23 £ |
|---|---|---|
| Cadwraeth, Coedydd ac Amaethyddiaeth (RhO) | **ADFER NATUR:**<br>Arolygon coed a choetiroedd hynafol<br>Argymhellion yr arolwg cyflawni a chynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt<br>Gwaith rhywogaethau a dargedir<br>Rheoli Llifogydd yn Naturiol | **210k** |
| Eiddo<br>(ETJ) | **CYFLYMU DATGARBONEIDDIO:**<br>Llyn Tegid – paneli solar<br>Effeithlonrwydd ynni'r ystâd<br>Pwyntiau gwefru trydan | **205k** |
| Ymgysylltu (HP)<br>Treftadaeth Ddiwylliannol (NJ) | **CEFNOGI CYMUNEDAU CADARN A GWYRDD:**<br>Cronfa Gymunedol Eryri<br><br>Ardaloedd Cadwraeth – Effeithlonrwydd Ynni | **125k** |
| Wardeiniaid a Mynediad<br>(AD)<br><br>Treftadaeth Ddiwylliannol (NJ)<br>Ymgysylltu (HP) | **DARPARU TWRISTIAETH GYNALIADWY:**<br>Twristiaeth Gynaliadwy: Cynlluniau Lleol<br>Llwybr Cynwch<br>Astudiaeth Dichonoldeb: Porthmadog – Rhyd Ddu<br>Cylchdaith Cylchdaith Yr Wyddfa : Cwm Dyli<br>Taith Gerdded Gylchol Cylchdaith yr Wyddfa: Nant Peris<br>Llwybr y Mwynwyr<br>System Rheoli Mynediad/Llwybrau<br>Llyn Tegid/Cwm Rhwyddfor<br><br>Prosiect Treftadaeth Ddiwylliannol Ardudwy<br>Mentrau Twristiaeth a Thrafnidiaeth Gynaliadwy | **260k** |
| | **CYFANSWM** | **800k** |

## 3. CRYNODEB O BROSIECTAU/ RHAGLENNI GWEITHREDOL PRESENNOL:

3.1 Er budd aelodau newydd i'r Awdurdod mae'r tabl isod yn rhestru'r prosiectau/ rhaglenni gweithredol cyfredol, mae rhagor o fanylion i'w gweld yn Atodiad 1.

| PROSIECT | AMCAN O'R DYDDIAD DARFOD | AMCAN WERTH (£) |
|---|---|---|
| Carneddau (CTLC) | Rhagfyr 2025 | 4,170,776 |
| Coedwigoedd Glaw Celtaidd (LIFE) | Gorffennaf 2025 | 7,604,648 |
| Treftadaeth Treflun Dolgellau (CTLC) | Rhagfyr 2023 | 1,498,718 |
| Partneriaeth Awyr Dywyll Gogledd Cymru. | Mawrth 2024 | 227,000 |

| PROSIECT | AMCAN O'R DYDDIAD DARFOD | AMCAN WERTH (£) |
|---|---|---|
| * Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles (GANLl) LlC, (prosiect 3 blynedd) Blynyddoedd 1+2<br>*Partneriaeth Natur Leol Eryri (PNLlE) (prosiect 3 blynedd) £21k + £2 x £30k o grantiau ym Mlwyddyn 2<br>* **Mae'r prosiectau wedi'u cyfuno a'u hariannu hyd at ddiwedd mis Mawrth 2023**<br>**Sicrhawyd £50k pellach o gyllid cyfalaf** **Cyfanswm Newydd 124,000** | | |
| CRhC Dinas Mawddwy | Mawrth 2023 | 550,000 |
| National Grid MGT Cysylltedd y Carneddau (prosiect newydd yn rhan o raglen dreigl) | 2025 | 200,000 |
| **CYFANSWM** | | **14,375,142** |

Mae'r Prosiectau wedi'u hail-broffilio a chytunwyd ar ddyddiadau gorffen newydd gyda'r partneriaid ariannu er mwyn ystyried llithriad yn ystod pandemig.

3.2 **Partneriaeth y Parc Cenedlaethol a Sefydliad y Parc Cenedlaethol:**
Mae cyfleoedd ariannu pellach ar raddfa lai yn cael eu darparu trwy ymdrechion naill ai Partneriaeth y Parc Cenedlaethol neu Sefydliad y Parc Cenedlaethol. Bydd y rhain yn cael eu hadrodd i'r aelodau wrth iddynt gael eu cynnig i'r Awdurdod. Yn y flwyddyn newydd byddwn yn gallu cyhoeddi manylion partneriaeth ariannu gan PPC a BMW.

## 4. PROSIECTAU'R DYFODOL:

4.1 Mae aelodau ym mhwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Tachwedd 2020 a Gweithgorau dilynol wedi darparu cyfeiriad strategol o ran pa themâu/prosiectau y dylid eu datblygu os cyfyd cyfleoedd ariannu. Adolygwyd y rhain hefyd fel rhan o argymhellion archwilio Archwilio Cymru ar gydnerthedd yr Awdurdod wrth gyflawni. Mae rhestr o feysydd blaenoriaeth a nodir yn *Atodiad 2,* yn cyfuno blaenoriaethau blaenorol a nodwyd ar gyfer prosiectau cyfalaf ynghyd â blaenoriaethau ar gyfer profi gwasanaethau cydnerth (Awdurdod Rhagfyr 2021).

4.2 Oherwydd natur y ceisiadau grant a'r amserlenni dan sylw, dylid gofyn i aelodau adolygu eu blaenoriaethau strategol ar gyfer grantiau allanol o leiaf unwaith y flwyddyn . Ni welaf unrhyw achos busnes i newid y sefyllfa bresennol lle mae swyddogion yn parhau i ddatblygu a chyflwyno bidiau os yw'r rheini o fewn y meysydd strategol y cytunwyd arnynt gan yr aelodau. Fel y nodir yn y diagram llif mae yna wiriadau a balansau yn y strwythur presennol hy egwyddorion pecyn cymorth y Prosiect, ystyriaeth gan y Tîm Rheoli a thrafodaeth o fewn Cadeirydd a Phrif Weithredwr yr Awdurdod. Ar unrhyw adeg gellir diwygio, cefnogi neu beidio â datblygu'r rhain ymhellach, hefyd os oes gan y Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr amheuon mewn perthynas ag unrhyw gynigion gellir eu cyfeirio at aelodau i'w hystyried.

4.3 Hefyd, yn ystod Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau mis Mawrth cytunwyd byddai angen cael cymeradwyaeth yr aelodau ar gyfer:

- Unrhyw brosiect aml-flwyddyn,
- Unrhyw gynnig nad yw'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol y cytunwyd arnynt,
- Unrhyw gynnig a gyfeirir at aelodau gan y Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr,
- Unrhyw gynnig yn ystod y flwyddyn uwchlaw terfyn ariannol y cytunwyd arno,

Cynigion y dylid eu nodi yw:

- Rhandaliadau blynyddol mewn rhaglen aml-flwyddyn gymeradwy,
- Unrhyw brosiect yn ystod y flwyddyn islaw trothwy y cytunwyd arno.

O brofiad y blynyddoedd diwethaf, dylai trothwy ystyrlon fod â gwerth ariannol o tua £100,000 i £150,000. Dylai aelodau ystyried yr uchod yn ogystal â'r siart llif yn At. 3.

**5. ARGYMHELLION:**

**5.1 Nodi'r prosiectau arian cyfalaf 2022-2025**

**5.2 Nodi cynnydd ar brosiectau byw (Atodiad 1).**

**5.3 Cadarnhau meysydd blaenoriaeth ar gyfer bidiau yn y dyfodol (Atodiad 2).**

**5.4 Nodi'r Siart Llif Cymeradwyo Aelodau (Atodiad 3).**

.JO/APCE-APCE. PaA
Prosiectau Tachwedd 2022

## TROSOLWG O BROSIECTAU APCE Ebrill – Medi 2022 — ATODIAD 1.

## 1. PROSIECTAU CYFREDOL

| PROSIECT A Manylion | Dyddiad Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLBYNNAU CYNNYDD EBRILL – MEDI 2022 |
|---|---|---|---|---|
| **PARTNERIAETH TIRWEDD Y CARNEDDAU**<br><br>Helpu i warchod treftadaeth o dan fygythiad y Carneddau | Ionawr 2020<br>⇩<br>~~30.09.2024~~<br>31.12.2025<br>⇩<br>Mae cyfnod estyngedig 15 mis wedi ei ganiatau gan Gronfa Treftadaeth hyd at Rhagfyr 2025<br><br>**£4,170,776**<br><br>APCE yn arwain gyda phartneriaid | **Amserlen:** Mae'r Gronfa Dreftadaeth wedi cymeradwyo yn ffurfiol ein cynnig ar gyfer estyniad digost i'n dyddiad cwblhau ymarferol rhwng 30/09/2024 a 31/12/2025. Mae'r estyniad hefyd yn cynnwys lwfans ar gyfer gweithgaredd cau prosiect 3 mis (e.e. gweithgaredd etifeddiaeth, cais am daliad terfynol ac adroddiad gwerthuso) gan y Rheolwr Cynllun a'r Swyddog Cymorth Cynllun tan 31/03/2026. Mae cynnydd da wedi ei wneud er gwaethaf Cofid-19. Mae ymarfer ail-broffilio o holl amserlenni gweithgaredd a phroffiliau gwariant prosiectau ar y gweill, a fydd yn ein galluogi i fonitro cynnydd yn erbyn targedau realistig a chynlluniau cyfoes.<br><br>**Tynnu arian cyfatebol yn ôl â'r bwlch cyllido o ganlyniad i hynny** Bydd y Pennaeth Gwasanaeth a'r Rheolwr Prosiect yn parhau i weithio'n agos gyda chyllidwyr i sicrhau bod yr holl ofynion cyllido a dibenion cymeradwy yn cael eu bodloni.<br><br>**Diwddariad:** Mae'r risg o gyllid cyfatebol heb ei sicrhau bellach wedi'i leihau'n sylweddol, yn dilyn dau gais grant llwyddiannus i'r Fenter Gwella Tirwedd y Grid Cenedlaethol gwerth £400k, gyda chytundebau sy'n rhwymo'r gyfraith ar waith gyda phartneriaid craidd i sicrhau bod mwyafrif y cyfraniadau partner yn cael eu cynnal. Mae hawliadau grant y Gronfa Dreftadaeth Chwarterol yn barhaus a derbynnir taliadau yn ddi-oed. | **Cylchdaith y Carneddau:** Creu llwybr cerdded lefel isel 63km + arwyddion, gatiau ac ati<br><br>**Rhaglen Weithgaredd Ysgolion / Gwirfoddolwyr. Eiriolaeth dros yr Ucheldiroedd: Ymgysylltu:**<br><br>**Treftadaeth Ddiwylliannol â'r Amgylchedd Hanesyddol**<br><br>**Cadwraeth Adnoddau Naturiol:**<br><br>**Lleisiau'r Carneddau:** | **Mae'r rhaglen a'r gyllideb yn dal i gael eu hadolygu'n barhaus ac mae gwaith y prosiect wedi cynyddu a chyflymu eleni.**<br><br>➢ **Gwaith ymgysylltu a chymunedau yn parhau drwy Sioe Deithiol y Carneddau a gynhaliwyd mewn nifer o gymunedau yn nalgylch y cynllun. Cafwyd presenoldeb hefyd mewn nifer o sioeau amaethyddol a digwyddiadau cymunedol.**<br><br>➢ **Mae gwaith ymgysylltu manwl yn digwydd gyda Chyngor Cymuned Llanllechid er mwyn gwella'r dreftadaeth naturiol. Mae Partneriaeth y Carneddau yn hwyluso'r berthynas rhwng y Cyngor Cymuned a chyrff statudol er mwyn datblygu cytundebau a fframweithiau ar gyfer rheoli'r mynydd.**<br><br>➢ **Mae lansiad y wefan wedi'i ohirio ond mae'r gwaith yn parhau.**<br><br>➢ **Prosiect Bwyeill Neolithig hynod lwyddiannus wedi'i gynnal eto eleni ar ddau safle yn ardal Llanfairfechan. Rydym yn obeithiol bydd Cadw yn cytuno i ariannu o leiaf blwyddyn arall o'r gwaith hwn, y tu hwnt i'r hyn a gytunwyd yn wreiddiol. Mae'r prosiect yn enghraifft gwych o waith tretadaeth gymunedol gydag amrywiaeth eang o wirfoddolwyr a chyfranogwyr yn cymryd rhan.**<br><br>➢ **Mae prosiect wedi'i lunio gydag Ysgol Dyffryn Conwy i greu cwricwlwm Teithio gyda disgyblion daearyddiaeth Blwyddyn 8, yn ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd hwn yn waith blaengar gyda'r disgyblion yn arwain a bydd yn rhan allweddol o waddol y Cynllun.**<br><br>➢ **Mae'r rhaglen clirio eithin gyda gwirfoddolwyr yn parhau, drwy glirio safleoedd er lles henebion archaeolegol a natur (gan gynnwys cynefin y frân goesgoch), gyda Chymdeithas Eryri, Ymddiriedolaeth Genedlaethol, APCE ac RSPB Cymru.**<br><br>➢ **Mae prosiect celf Lleisiau'r Carneddau ar y gweill a bydd cynnyrch gwaith ysgolion ac artistiaid yn cael ei arddangos yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy o fis Rhagfyr 2022 ymlaen** |

| PROSIECT A Manylion | Dyddiad Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU CYNNYDD EBRILL – MEDI 2022 |
|---|---|---|---|---|
| **PROSIECT COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU LIFE**<br>Cynnyrch degawd o ymdrech i gaffael cyllid trwy raglen Natur a Bioamrywiaeth LIFE y Comisiwn Ewropeaidd i fynd i'r afael â bygythiad *Rhododendron ponticum* (Rp) ar goetiroedd derw brodorol ffin môr yr Iwerydd yng Nghymru. | Awst 2018<br>⇩<br>Gorffennaf 2025<br><br>**£7,604,648**<br>Gwariant hyd yma: £1.6m<br><br>APCE yn arwain gyda phartneriaid | ❖ Methu â llofnodi cytundebau 20 mlynedd<br>❖ Lefelau staffio a throsiant<br>❖ Y targedau yn fwy uchelgeisiol a heriol na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Targedau ddim yn cael eu cyflawni<br><br>Mae'r prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn i gyflawni'r targedau a'r cerrig milltir a nodwyd ac eithrio 100% yn arwyddo confensiynau 20 mlynedd (ac effeithiau canlyniadol ar gyflawni gwarediad o 100%), fel y trafodwyd yn adran 5 o'r adroddiad diweddaru llawn. | 1. Gwaredu *Rhododendron ponticum* o 5 ACA a'r ardal glustogi DPA = **7,961ha**<br><br>2. Ymgymryd â rheolaeth coetirol arall gan gynnwys **adfer 180ha** o goetir PAWS a chyflwyno pori cadwraeth ar safleoedd coetirol.<br><br>3. Creu Pecyn Cymorth Rheoli Rp sy'n cymeradwyo'r dull 3 cham o ddileu Rp, ac yn cynnal lleiafswm o 20 o ddigwyddiadau arddangos a rhwydweithio a 12 astudiaeth achos sy'n gysylltiedig ag amcanion y prosiect.<br><br>4. Ymgysylltu ag o leiaf 2,000 aelod o'r cyhoedd wedi'u lleoli mewn cymunedau targed yng Nghymru, gan gynnwys o leiaf 800 o ddisgyblion ysgol. (80 sesiwn ysgol) | **Ers diweddariad mis Mawrth eleni mae mae 1,269ha pellach o dir o dan gytundebau rheoli yn dod a chyfanswm o dros 8,302 ha o dir o dan gytundebau rheoli ar gyfer dileu Rp ar ddiwedd mis Medi 2022**<br><br>**159.37 ha o goetir PAWS wedi eu cytuno a/neu cwblhau cyfanswm o cyfanswm o 118 ha wedi'i gwblhau, neu ar y gweill.**<br>**Wedi cyflwyno pori cadwraethol i 202.8ha o goetir (yn erbyn DPA o 227 ha). 161 ha o waith rheoli coetir "arall" wedi'i gwblhau (yn erbyn targed DPA o 130ha)**<br><br>➢ **Pecyn cymorth Rp wedi ei gyhoeddi**<br>➢ **13 x achlysur arddangos wedi'u cynnal**<br>➢ **3 x astudiaeth achos wedi'u cynhyrchu**<br><br>**Mae'r nifer o bobl wedi'u ymgysylltu â hwy wedi rhagori ar y targed o 2,000**<br><br>➢ **32 sesiwn ysgol wedi'u cwblhau yn cyrraedd 644 disgybl a 70 athro.**<br>➢ **3 sesiwn "hyfforddi'r hyfforddwyr" wedi eu cynnal gyda 16 unigolyn** |

| PROSIECT A Manylion | Dyddiad Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU CYNNYDD EBRILL – MEDI 2022 |
|---|---|---|---|---|
| **PROSIECT CTLC TREFTADAETH TREFWEDD DOLGELLAU**<br><br>Yn cyfuno amddiffyn a gwella trefwedd unigryw'r dref â gwneud defnydd llawn ohoni i ailgysylltu trigolion ac ymwelwyr heddiw â hanes y gymuned | 2016<br>⇩<br>~~31.12.2022~~<br><br>31.12.2023<br><br>**£1,498,718**<br><br>Tynnu cyllid CTL i lawr bob chwarter. Sichrhawyd yr holl arian allanol<br><br>APCE yn arwain gyda phartneriaid | ❖ Effaith Covid-19<br>❖ Colli Rheolwr Prosiect neu staff cymorth cyn diwedd y prosiect<br>❖ Cost prosiectau yn uwch na'r disgwyl | Gwella cyflwr adeiladau hanesyddol yn ardal fasnachol ganolog Ardal Gadwraeth Dolgellau, trwy atgyweirio adeiladau hanesyddol, adfer nodweddion pensaernïol, ailddefnyddio arwynebedd llawr diangen a gwaith tir cyhoeddus yn ardal fasnachol ganolog Ardal Gadwraeth Dolgellau gan roi blaenoriaeth i adeiladau masnachol rhestredig. Mae'r prosiect yn dilyn yr egwyddorion a'r arfer gorau wrth warchod adeiladau hanesyddol a gwella eu heffeithlonrwydd ynni. | ➢ **Mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi cymeradwyo estyniad amser pellach oherwydd problemau hefo symud ymlaen hefo prosiect Ty Newyddion (Yr Hen Wilkins), Heol y Bont.**<br>➢ **Dyddiad cwblhau'r prosiect newydd yw 31 Rhagfyr 2023.**<br>➢ **Darllenfa Rhydd - Mae gwaith mewnol i wneud y llawr cyntaf yn hygyrch i bawb ynghyd a gwelliannau i'r cyfleusterau toiledau wedi cwblhau a'r adeilad bellach mewn defnydd llawn.**<br>➢ **Dychwelwyd un tendr yn nol mewn cysylltiad a gwaith i Ty Newyddion (yr hen Siop Bapur Wilkins), ond fe dynnodd y contractwr yn nol ar y munud olaf. Mae'r pensaer bellach wedi mynd allan i dendr eto hefo'r gobaith bod 3 tendr yn cael ei ddychwelyd yn mis Hydref.**<br>➢ **Mae gwaith adfer allanol i Adeiladau Victoria, Heol Meurig wedi ei gwblhau ac wedi gwneud cyfraniad bositif iawn i'r strydlun.**<br>➢ **4 Eldon Row – arian grant Llywodraeth Cymru.  Mae cynnig grant wedi eu wneud ers mis Chwefror, ond does dim modd symud ymlaen oherwydd oedi sylweddol gyda phrosesu'r cais cynllunio. Mae swyddogion yn adrodd yn ôl i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn rheolaidd ar y mater.**<br><br>➢ **Mae nifer o brosiectau treftadaeth cymunedol arweiniol yn mynd rhagddynt gyda Grŵp yr Aran. Mae'r rhain yn cynnwys:**<br>❖ **Llyfr ar ddiwydiannau gwlân a thrin lledr Dolgellau wrthi'n cael ei baratoi gan Merfyn Tomos.**<br>❖ **Mae astudiaeth ac adroddiad archeolegol o Ffatri Wenallt wedi ei gwblhau. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant archwiliadau archaeolegol i aelodau Grŵp yr Aran. Mae astudiaeth arall ar y gweill i ddehongli Melin Aberneint.**<br>❖ **Crogfur ffelt yn dehongli tirwedd, adeiladau, pobl a diwydiannau Dolgellau yn cael ei wneud gan yr artist, Nicole Le Maire, trigolion y dref a disgyblion yr ysgol.**<br>❖ **4 gwaith celf tecstilau yn dehongli siopwyr Dolgellau o'r gorffennol wedi'u cwblhau gan yr artist tecstilau, Josie Russell. Roedd hyn yn cynnwys diwrnod gweithdy i ddisgyblion Ysgol Bro Idris ar gelf tecstiliau gan Josie.**<br>❖ **Cyfres o deithiau tywys gan Grwp yr Aran wedi ei gwblhau yn ystod wythnos gwlan ynghyd a sesiwn gan Charlotte Hammond o Brifysgol Gaerdydd ar y cysylltiad rhwng y diwydiant gwlan a chaethwasiaeth.**<br>❖ **Mae bwrdd dehongli wedi cael ei ddylunio yn barod i gael ei greu a'i osod yn Y Marian.**<br>❖ **Fe fydd phamffled o deithiau tywys i lefydd pwysig i'r diwydiant gwlan yn cael ei argraffu.**<br>➢ |

| PROSIECT A Manylion | Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU CYNNYDD EBRILL – MEDI 2022 |
|---|---|---|---|---|
| **PROSIECT NOS PARTNERIAETH NOS AWYR DYWYLL GOGLEDD CYMRU**<br><br>**Yn dilyn llwyddiant APCE wrth gael statws achrededig Cronfa Awyr Dywyll ddiwedd 2015 rhaglen 3 blynedd arall i amddiffyn, gwella a hyrwyddo'r warchodfa**<br>Nod y prosiect yw lleihau effeithiau niweidiol llygredd golau ar iechyd pobl, bioamrywiaeth a'r noswedd trwy addysg, allgymorth cymunedol a thrwy weithredu ôl-ffitiadau goleuo.<br><br>Cwblhau 3 chais am Statws awyr dywyll ar gyfer 3 AOHNE yng Nghog. Cymru | Ionawr 2019<br>⇩<br>~~2022~~<br>2024<br><br>Partneriaid:<br>3 x AoDdGA : Pen Llŷn, Ynys Môn, Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy<br><br>**£227,000+**<br><br>APCE: £40mil<br>Partneriaid: £87mil<br>Cyllid ychwanegol gan LIC: £100mil | ➢ Swyddog yn gadael y swydd: mae angen rhaglen fonitro flynyddol i gynnal statws yr Awyr Dywyll.<br><br>➢ Mae angen monitro llygredd golau yn barhaus gyda thystiolaeth am ddigwyddiadau ac adroddiadau blynyddol yn cael eu cyflwyno i'r IDA. Gellir diddymu'r dynodiad os na chyflawnir hyn.<br><br>➢ Wrth i'r prosiect barhau i dyfu fe allai fynd yn rhy fawr i un swyddog prosiect ei reoli.<br>➢ Gallai'r SP fynd i ffwrdd yn sâl dros y tymor hir<br><br>➢ Ni fydd y cyllid ychwanegol sydd wedi'i neilltuo ar gyfer ôl-ffitio, fan a gwaith llwybr yn cael ei gwblhau mewn modd amserol oherwydd bod Covid wedi tarfu ar linellau cynhyrchu a'r gallu i waith fynd yn ei flaen o fewn canllawiau'r llywodraeth.<br><br>➢ Wedi addasu swydd ddsigrifiad Swyddog Prosiect Nos gan olygu fod costau wedi codi ar gyfer y rol. Costau staffio uwch ar y swyddog craidd a arianir gan pertneriaeth 4 tirwedd dynodedig a pryderon am chwyddiant ar effeithiau ar y pertneriaid. | Hyfforddi grŵp craidd o wirfoddolwyr i fonitro'r awyr dywyll o amgylch y Parc.<br><br>Cynnal ôl-ffitio ar safleoedd allweddol y Parc Cenedlaethol fel CC Betws Y Coed.<br><br>Cwblhau 3 cais awyd dywyll ar gyfer AOHNE<br><br>Cynnal 1 digwyddiad y mis ar-lein | **Sicrhawyd cyllid i gadw swydd Swyddog Prosiect tan fis Mawrth 2024. 25% wedi'i ariannu gan bartneriaid y prosiect.**<br><br>Mae'r Parc wedi'i fonitro'n llwyddiannus, gyda thros 80 o safleoedd wedi'u cofnodi. Mae **46** o wirfoddolwyr wedi cael eu recriwtio hyd yma a byddant yn cael eu hyfforddi i barhau a chefnogi gwaith monitro golau parhaus.<br><br>Mae gwaith yn mynd rhagddo ar safleoedd amrywiol sy'n eiddo i APCE i leihau eu llygredd golau a'u hallyriadau carbon drwy ôl-osod goleuadau. Bydd hyn yn helpu'r Awdurdod i gyrraedd ei nodau carbon. Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud ar brosiectau ar raddfa lai o fewn cymunedau i helpu i ddiogelu iechyd trigolion a chynyddu eu llesiant. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn y dyfodol.<br>Mae nifer o bartneriaethau cadarnhaol wedi'u sefydlu e.e. gyda **Thai Adra** (darparwr tai cymdeithasol mwyaf y GO) a **Phlas Y Brenin, y Ganolfan Awyr Agored Genedlaethol. (gweler isod).**<br><br>Mae Astudiaethau Achos wedi'u gyflwyno: Llwyddodd tîm AHNE Ynys Môn i sicrhau £50,000 o Grant Lleoedd Cynaliadwy Tirweddau Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn 2020 i'w ddefnyddio ar gyfer prosiectau ôl-ffitio Awyr Dywyll. Mae Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (BCDD) : Yn ddiweddar, mae BCDD wedi gwario £30,000 o arian grant a ddyrannwyd iddynt i ôl-osod y goleuadau yn eu Parc Gwledig, swyddfeydd a maes parcio Loggerheads.<br><br>**Lluniwyd rhaglen a chynhelir digwyddiadau misol.**<br>➢ **Sicrhawyd cyllid i greu swydd newydd i weithio gyda'r 8 tirwedd ddynodedig yng Nghymru. Mae'r prosiect wedi ennill £522,500 i wario ar brosiect cyfalaf ail osod golau dros 22-25.**<br>➢ **Mae'r dyddiad cau am swyddog newydd y ar 21/11/22, gobeithio cael yr Aelod o staff newydd mewn lle erbyn Ionawr 2023. Bydd yr Aelod yn cael ei westeio gan Gyngor Ddinbych yn ei Swyddfa yn Loggerheads, ond yn gweithredu dros yr 8 ardal. Bydd y swydd yma yn cael ei reoli gan Swyddog Awyr Dywyll Eryri.**<br>➢ **Mae yna alw uchel am ddigwyddiadau awyr dywyll, a diddordeb yn y prosiect yn tyfu. Mae 34 digwyddiad (mewn person neu ar lein) ers Ionawr 2022, efo presenoldeb gan 1,680 pobl (9,976 dros oes y prosiect).**<br>➢ **Mae'r prosiect yn hanner ford drwy waith ail osod golau yn Eryri, drwy brosiectau yn Bala, Ogwen, Ysbyty Ifan a Penrhyndeudraeth. Mae oedi gyda chyflenwad o oleuadau oherwydd amgylchiadau allanol amrywiol.**<br>➢ **Mae gan y prosiect dau 'Pop up' planetarium, sydd yn gallu cael ei defnyddio gan brosiectau arall yn y Parc.**<br><br>**Mae'r prosiect wedi derbyn nifer o wobrau yn ddiweddar gan y sector dylunio a thechnoleg a'r swyddog wedi derbyn llwyddiant statws Llysgenad Ewropeaidd.**<br>**Mae Tirweddau Dynodedig Cymru dan arweiniad y Grwp Gogleddol wedi derbyn grant TCLIC (SLSP) gan LLywodraeth Cymru i wneud arolygon manwl o ansawdd tywyllwch, problemau llygredd goleuni (Dearyddol) ac i greu rhaglen o ail osod goleuadau i liniaru'r effeith. Bydd swyddog yn cael ei recriwtio gan AHNE Bryniau Clwyd i arwain ar hyn. Mae'r broses recriwtio wedi dechrau** |

| PROSIECT A Manylion | Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU CYNNYDD EBRILL – MEDI 2022 |
|---|---|---|---|---|
| **GALLUOGI ADNODDAU NATURIOL A LLES LLYWODRAETH CYMRU (GANLl / ENRaW)**<br><br>**PARTNERIAETH NATUR LEOL ERYRI (PNLE)**<br><br>**Diweddariad:**<br>**Mae'r ddau brosiect wedi'u cyfuno a'u cyllido i orffen Mawrth 2023**<br><br>**Mae £50k arian cyfalaf ychwanegol wedi' sicrhau Cyfanswm Newydd £124,000** | Ebrill 2019<br>⇩<br>Mawrth 2023<br><br>Cydweithrediad rhwng APCE ac amryw o gyrff anllywodraethol amgylcheddol | ❖ Newid staff: Mae cydlynydd y prosiect wedi gadael y swydd yn ddiweddar. Yn y broses o recriwtio ar hyn o bryd<br>❖ Capasiti partneriaid cyflawni<br><br>**Daeth nifer o risgiau i'r amlwg o achos argyfwng Covid-19:**<br>❖ Cyllid ddim yn cael ei wario<br>❖ Prosiectau y tu ôl i'r proffil<br>❖ Methu â chynhyrchu incwm o 20% erbyn diwedd y tair blynedd. Mae PNC Cymru yn bwriadu adolygu'r targed hwn gan mai'r consensws yn ei gyfanrwydd ar draws y rhwydwaith yw bod hyn yn amhosibl i'w gyflawni ac na all y prosiect barhau heb gyllid Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae'r prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn i gyflawni'r targedau cronnus unigol a ddynodwyd erbyn diwedd y tair blynedd.<br><br>Roedd targedau ar gyfer yr ail flwyddyn yn brin, yn enwedig targedau fel gweithgareddau allgymorth cymunedol oherwydd y cyfyngiadau a gyflwynir gan Covid-19. Y gobaith yw y bydd y targedau hyn yn cael eu cyflawni erbyn diwedd y prosiect trwy gynyddu nifer y gweithgareddau a'r digwyddiadau allgymorth a gynhelir yn y drydedd flwyddyn. | Mae'r PNLE wedi'i sefydlu fel rhan o brosiect ledled Cymru i greu dull cydweithredol o ddiogelu, gwella ac adfer bioamrywiaeth yn sgil yr argyfwng bioamrywiaeth. | **Mae PNLl Eryri eisoes wedi cydweithredu ar sawl prosiect hyd yma:**<br><br>➢ **Gwella mynediad i Goed Felin-rhyd a Llennyrch gyda Coed Cadw;**<br>➢ **Prosiect gwella bioamrywiaeth canolfan hamdden Harlech gyda grŵp cymunedol Harlech ac Ardudwy;**<br>➢ **Prosiect mynwentydd Byw Eryri gyda YBGGC;**<br>➢ **Gwelliannau i gynefinoedd ystlumod gwarchodfa natur Gwaith Powdwr hefyd gyda YBGGC.**<br><br>**Mae prosiect newydd Lleoedd Lleol ar Gyfer Natur sydd wedi olynnu cyllid GANLl / ENRaW yn brosiect blwyddyn werth £50k sydd yn canolbwyntio ar adfer a gwella asedau cyfalaf naturiol drwy greu natur ar garreg ein drws.**<br><br>**Mae PNLL Eryri yn gweithredu prosiect Tŷ Natur, gyda'r nod o wella bioamrywiaeth mewn lleoliadau ble mae pobl yn byw, gan weithio gyda darparwyr tai cymdeithasol (Adra, Grŵp Cynefin a Cartrefi Conwy) a landlordiaid allweddol (Ymddiriedolaeth Genedlaethol) eraill ym Mharc Cenedlaethol Eryri**<br><br>**Mae'r gwelliannau aml-fuddiol yn cynnwys creu dolydd blodau gwyllt, plannu coed/perllannau, gosod blychau nythu Gwenoliaid a gwneud newidiadau i oleuadau amhriodol.**<br><br>**Mae'r prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn i gyflawni'r targedau ar ôl 6 mis prysur o gydweithio gyda'r cymdeithasau tai ac ymgysylltu gyda'u tenantiaid i greu cynlluniau ar gyfer ardaloedd gwyrdd eu stadau. Byddwn rwan yn paratoi a threfnu ar gyfer cyflawni'r gwaith dros y gaeaf.** |

| PROSIECT | DYDDIAD DECHRAU / DIWEDD CYFANSWM CYLLID | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CYFLAWNI'R PRIF DARGEDAU STRATEGOL Gweler yr adroddiadau llawn | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ ALLLBYNNAU CYNNYDD EBRILL – MEDI 2022 |
|---|---|---|---|---|
| **Cynefinoedd Cynaliadwy Amaethwyr Mawddwy**<br><br>Bydd grŵp o ffermwyr o amgylch Dinas Mawddwy yn gweithio gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, i wneud y mwyaf o adnoddau naturiol, gwella profiadau ymwelwyr a buddion cymunedol .<br><br>Nod y prosiect yw adfer ucheldiroedd a'u rheoli ar gyfer bioamrywiaeth, gwytnwch newid hinsawdd, rheoleiddio dŵr a buddion hamdden. | **01 Ebrill 2021**<br>⇩<br>31 Mawrth 2023<br><br>100% wedi'i ariannu trwy Rhaglen Datblygu Gwledig LlC fel y Cynllun Rheoli Cynaliadwy<br><br>**£499,641.00** | Mae Cyfyngiadau Covid bellach wedi'u llacio, ac mae ymgysylltu â'r cyhoedd wedi ailddechrau. Mae digwyddiadau wedi eu cynnal mewn lleoliadau lleol. Mae llacio'r rheolau wedi galluogi'r prosiect i weithio ochr yn ochr â Chymdeithas Eryri i gael pobl frwdfrydig i ymuno â'r prosiect.<br><br>**Gall effeithiau Brexit rwystro cadwyni cyflenwi deunyddiau:** gan gynnwys pyst ffensio a phibellau cylfat. Gallai materion cyflenwi arafu adeiladu'r nodweddion hyn neu achosi costau ychwanegol.<br>**Diweddariad: Ni ddaethpwyd ar draws unrhyw broblemau cyflenwad eto, ond mae prisiau wedi codi. Mae deunydd fel pyst ffensio, pibellau cwlfert, agregau a chludiant wedi cynyddu'n sylweddol.**<br><br>**Dim cael caniatâd cynllunio ar gyfer llwybrau mynediad i gwblhau gwaith mawndir.**<br>**Diweddariad: Caniatad wedi ei dderbyn i greu mynediad i wneud y gwaith adfer mawn. Yn anffodus yn y cyfamser, mae'r broses tendro wedi bod yn anodd iawn ac mae'r unig wasanaeth hofrenydd a geisiod wedi cael problemau oherwydd gwaeledd y peilot. Mae yn aneglur beth yn union ellir ei wneud ar y sefyllfa ar hyn o bryd.**<br><br>**Staffio:** Swyddog Prosiect yn gadael y swydd cyn cwblhau'r prosiect. Pe bai hyn yn digwydd, yr opsiwn mwyaf ymarferol fyddai bod y sefydliadau sy'n eistedd ar Fwrdd Llywio'r Prosiect yn defnyddio staffio mewnol, arbenigedd ac amser er mwyn cwblhau'r prosiect a'i Allbynnau arfaethedig.<br>**Diweddariad: Mae'r swyddog prosiect wedi symud i swydd arall ac rydym y y broses o ail drefnu gwaith adrannol i gael rhywun i gymeryd y cyfrifoldebau ymlaen. Oherwydd rhewi mewn recriwtio mae hyn yn broblemus ar hyn o bryd**<br><br>**Tanwariant –** Yn dilyn y broses dendro ar gyfer gwaith adfer mawndir ar Fynydd Hengwm, Esgair Adda a Mynydd Bwlch, roedd y dyfynbrisiau yn is na'r disgwyl. Yn dilyn dyfynbrisiau eleni disgwylir y bydd y flwyddyn nesaf yn is hefyd. I wrthweithio unrhyw danwariant, bydd rhagor o waith cyfalaf fferm yn cael ei gytuno.<br>**Diweddariad: Mae potensial cryf o danwariant os na fydd y gwaith llwybrau yn gallu cael ei gwblhau a potensial symud gwariant yn gyfyng iawn mor hwr yn y cynllun.**<br>**Mae estyniad amser cwblhau'r gwaith wedi ei wneud ond dim sicrwydd ar hyn o bryd y gellir cyflawni.** | Nifer y swyddi a grëwyd:<br>Targed terfynol = 1<br>**Cyflawnwyd.**<br><br>Nifer y diwrnodau hyfforddi:<br>Targed terfynol = 2<br><br>Nifer y rhanddeiliaid a gyflogwyd:<br>Targed terfynol = 10<br>**Cyflawnwyd.**<br><br>Mynediad wedi'i reoli i gefn gwlad neu'r arfordir:<br>Targed terfynol = 1000m<br>**Cyflawnwyd.**<br><br>Nifer y camau i ddefnyddio adnoddau naturiol er budd iechyd:<br>Targed terfynol = 4<br>**Cyflawnwyd.**<br><br>Ardal o gynefin mawndir wedi'i ail-wlychu: Targed terfynol = 69ha<br>**Cyflawnwyd.**<br><br>0.17 Nifer y gweithrediadau cydweithredu a gefnogwyd:<br>Targed terfynol = 1<br>**Cyflawnwyd.** | **Cyflawnwyd.**<br><br>**Dim sesiynau hyfforddiant wedi'u trefnu hyd yn hyn. Yn trafod gyda Cymdeithas Eryri ar gyfer sesiwn gosod gwrychoedd.**<br><br>**Mae'r targed hwn wedi'i gwblhau. Cydweithio gyda'r ffermwyr, gweithio gyda Cwmni Nod Glas, Coleg Meirion Dwyfor, Tilhill, Cymdeithas Eryri a'r cyngor cymuned.**<br><br>**Cyflawnwyd y targed hwn trwy greu llwybr troed caniataol Bryn Uchaf.**<br><br>**Mae'r targed hwn wedi'i gwblhau. Trefnwyd amserlen o ddiwrnodau gwirfoddol trwy gydol y tymor plannu hwn. Roedd diwrnodau gwirfoddolwyr yn cynnwys plannu coetir a gwrychoedd. Yn ogystal, mae digwyddiadau wedi'u cynnal gyda'r Awyr Dywyll.**<br><br>**Cyflawnwyd y targed hwn. Mae Mynydd Hengwm (58.9ha), Esgair Adda (57ha) a Mynydd Bwlch (70ha) wedi'u hadfer.**<br><br>**Cyflawnwyd y targed hwn. Mae'r prosiect yn gweithio'n agos gyda Cwmni Nod Glas i wella llwybrau troed yn yr ardal a gwella eu hyrwyddiad trwy ddatblygu gwefan gymunedol** |

| PROSIECT | DYDDIAD DECHRAU / DIWEDD CYFANSWM CYLLID | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CYFLAWNI'R PRIF DARGEDAU STRATEGOL | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLBYNNAU<br><br>CYNNYDD EBRILL – MEDI 2022 |
|---|---|---|---|---|
| **(Rhan o Raglen dreigl) Menter Gwella Tirwedd y Grid Genedlaethol Prosiect Rhif 4**<br><br>**CYSYLLTEDD Y CARNEDDAU** | 2021 – 2025<br><br>£200k | **Risg:** Coed Gorddinog, Llanfairfechan – Tirfeiddianwr wedi datgan fod dim diddordeb ganddo i reoli'r Rhododendron sydd ganddo yn Gorddinog hall. Hwn yn rhan pwysig iawn i gyrraedd y targed yma felly risg o ddim llwyddo – trafodaethau yn parhau gyda'r tirfeiddianwr ac archwilion i ddarganfod safleoedd newydd i gymeryd lle.<br><br>**Risg:** Y gwaith yn costio mwy na chafodd i rhagweld yn y cais felly potensial o or-wario yma. | Adferiad Gwrychoedd 9,000m<br><br>5,927 Plannu Coed (Coridorau Ffridd a Glan y Môr)<br><br>Creu Coetir 2ha<br><br>Tynnu Rhododendron 26ha<br><br>Creu Dolydd 3.5ha | **49% or targed wedi cytundebu neu wedi'w ymrwymo.**<br><br>**2000 wedi plannu llynedd yn drwy ddull 'sabre planting' yn anafon.**<br>**2000 arall i fynd i fewn i anafon flwyddyn yma.**<br><br>**1885 o goed ar wasgar ychwanegol wedi cytundebu neu ymrwymo at flwyddyn yma.**<br><br>**2.5ha o goedlan wedi gytuno gyda tirfeiddianwr ond yn disgwyl ymgynghoriad archeolegol cyn cytundebu.**<br><br>**3.4ha o waith Rhododendron wedi cwblhau yn Llys y Gwynt.**<br><br>**1.67ha o ddolydd newydd wedi gytundebu ac wedi cwblhau / ar ganol.**<br>**Gweddill y safleoedd i'w cwblhau flwyddyn nesa.** |

## 2. PROSIECTAU NEWYDD: (Ddim yn cynnwys prosiectau Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy/SLSP LIC)

| PROSIECT | DYDDIAD DECHRAU / DIWEDD CYFANSWM CYLLID | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CYFLAWNI'R PRIF DARGEDAU STRATEGOL | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ ALLLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLBYNNAU |
|---|---|---|---|---|---|
| **Menter Gwella Tirwedd y Grid Cenedlaethol**<br><br>**MIND THE GAP** | 2022 – 2025<br><br>**£200k** o gyfraniad gan MGT y Grid Cenedlaethol, mae'r holl gostau eraill (lleiafswm 25%) mewn nwyddau neu arian parod gan bartneriaid. | **Dyddiad cychwyn wedi ei oedi:**<br><br>**Covid 19** – gweler prosiectau MGT uchod<br><br>**Colli Swyddog Prosiect:** gwaith wedi'i wasgaru ymhlith partneriaid. Hyblygrwydd o fewn yr Adran CCA i gwmpasu SP<br><br>**Oedi gyda chymeradwyaeth OFGEM sy'n golygu y gall rhanddeiliaid eraill geisio ffynonellau ariannu eraill**<br>– cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda rhanddeiliaid i gadw'r rhai sydd â diddordeb yn frwdfrydig | 19.62 ha o reoli Rhododendron<br><br>310m o adfer llwyni<br><br>1,068m² o waith adfer waliau sych<br><br>1 adfer / ail adeilad<br><br>2,090 m o waith ffensio i reoli cynefinoedd<br><br>6,800 o goed llydanddail wedi'u plannu<br>160 o goed o fath parcdir wedi'u plannu | **Gohiriwyd dechrau'r prosiect – yn aros am Gymeradwyaeth OFGEM**<br><br>Hyblygrwydd wedi'i gynnwys yn y prosiect i liniaru rhag oedi<br><br>- | |

## BLAENORIAETHAU APCE AR GYFER CYNIGION CYFALAF A REFENIW:

Mae aelodau wedi ystyried blaenoriaethau at ddibenion bidio o bryd i'w gilydd dros y blynyddoedd diwethaf ac yn benodol yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau (Tachwedd 2020 a Gorffennaf 2021) a'r Gweithgorau (Mawrth 2021 a Mehefin 2021) a hefyd fel rhan o'r adroddiad ar Gydnerthedd yr Awdurdod wrth ddarparu ei wasanaethau (a ystyriwyd gan yr Awdurdod ar 08 Rhagfyr 2021) . Mae'r canlynol yn cyfuno ystyriaethau, sydd hefyd yn cynnwys blaenoriaethau fel y'u nodwyd gan Swyddogion, mae'r Aelodau wedi nodi a chadarnhau'r rhain yn flaenorol sef y blaenoriaethau a'r meysydd cyflawni sydd angen cefnogaeth bellach neu eu datblygu os bydd adnoddau ar gael:

1. strategaeth rheoli ymwelwyr
2. effaith twristiaeth
3. maniffesto ieuenctid
4. seilwaith beicio a datblygiad posibl hen draciau rheilffordd
5. gweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill
6. Ystyried sut y gall gwahanol brosiectau gysylltu â'i gilydd a gwneud gwahaniaeth am gost gymharol isel e.e. pwyntiau ail-lenwi dŵr, gan leihau meintiau gwastraff plastig o bosibl
7. Camau i liniaru pwysau yng ngogledd y Parc Cenedlaethol
8. Estyn gwahoddiad i Gynghorau Ieuenctid Gwynedd a Chonwy i awgrymu meysydd ariannu posib fel y gall yr Awdurdod elwa o farn ein pobl ifanc.
9. Dewis elfennau y gellir eu darparu'n hawdd o'r Cynllun Rheoli Traffig diweddar
10. Gwasanaeth cynllunio
11. Economi – dealltwriaeth o economïau gwledig, seiliedig ar y tir ac amgylcheddol
12. Rheoli grantiau
13. Twristiaeth gynaliadwy
14. Datgarboneiddio
15. Adfer natur a newid hinsawdd
16. Gweithio gyda phobl ifanc
17. Etifeddiaeth / gwaddol.

**ATODIAD 3.**

## CYLLID ALLANOL : DATBLYGU A CHYMERADWYO RHAGLENNI / PROSIECTAU



**EITEM RHIF 6**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD:** | Tachwedd 30, 2022 |
| **TEITL:** | **CRAFFU STRATEGOL AR GYFER 2023-24** |
| **AWDUR:** | Prif Weithredwr |
| **PWRPAS:** | Nodi'r adroddiad ac ystyried meysydd craffu pellach ar gyfer 2023-24 yn y flwyddyn ariannol nesaf |

## 1. CEFNDIR

1.1 Ym mis Gorffennaf 2019 derbyniodd yr aelodau adroddiad a chymeradwyo cyfres o faterion a oedd yn ymwneud â llywodraethu’r Awdurdod. Cymeradwywyd y canlynol yn benodol i graffu:

- I symud ymlaen gyda rhaglen o graffu strategol, y rhaglen i'w chytuno'n flynyddol gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.
- Craffu rhwng un a thri maes pwnc y flwyddyn.
- Cadw'r strwythur cyfarfodydd presennol ar gyfer craffu.
- Diddymu’r rôl Pencampwr Aelodau.
- Bod pob thema strategol o graffu yn cael Aelod arweinyddol.
- Oherwydd y cynnydd yn y galw am graffu gan y Gweithgor Aelodau, i Gadeirydd y grŵp hwnnw gael ei benodi o blith Aelodau â rolau â thâl cydnabyddiaeth.
- Cyflwyno Log Gweithredu Strategol.

1.2 Nododd yr aelodau hefyd fod y gallu i graffu yn dibynnu ar argaeledd data priodol ac amser staff. Nodwyd hefyd eu bod yn credu bod ganddynt y gallu i graffu ymhellach o fewn yr amser a ganiateir a chytunwyd i ymestyn y gweithgor unwaith y chwarter i gynnwys prynhawn.

## 2. CRAFFU A GYNHALIWYD HYD YN HYN:

2.1 Ers 2020 mae aelodau a swyddogion wedi craffu ar y pynciau canlynol:
- Cynllun Corfforaethol (y Cynllun Llesiant bellach)
- Cyfrif carbon
- Rheoli Traffig
- Enwau lleoedd
- Llywodraethu.

2.2 Ar ôl cynnal y craffu cyntaf yn 2020 mae'n amlwg bod angen strwythur clir i gynnal plymio dwfn o'r fath. Mae angen i bob pwnc osod amserlen realistig ar ei waith, beth sydd i'w archwilio, pa dystiolaeth sydd ei hangen, pa ganlyniadau a geisir a nodi adnoddau staff i ddarparu cymorth.

2.3 Ers derbyn Adroddiadau ymgynghorol Aquatera a Small World Consultancy ar Garbon o fewn Eryri mae gwaith y grŵp Carbon wedi ei ymestyn i ystyried goblygiadau'r ddau adroddiad. Mae'r grŵp yn teimlo bod y llwyth gwaith dan sylw yn sylweddol.

## 3. LLWYTH GWAITH AR GYFER 2023-24 :

3.1 Fel y nodwyd, mae craffu Carbon yn debygol o fod yn llafurus am y flwyddyn nesaf o ran amser swyddogion, gan fod hwn yn fater ar draws yr Awdurdod cyfan. Mae'r Uwch Dîm Rheoli wedi ystyried gallu'r staff ar gyfer y flwyddyn i ddod i gefnogi'r Aelodau i gynnal craffu strategol pellach. Mae pwysau gwahanol ar staff ac mae lefelau staffio dan bwysau. Ynghyd â goblygiadau posibl o ymateb i bwysau chwyddiant ar yr Awdurdod, teimla'r Uwch Dîm Rheoli na ddylai'r Awdurdod ymrwymo ar hyn o bryd i raglen bellach o graffu strategol. Gellir adolygu hyn yn y flwyddyn ariannol newydd.

## 4. ARGYMHELLION:

**4.1 Nodi'r rôl graffu barhaus mewn perthynas â Charbon.**

**4.2 Ystyried meysydd craffu pellach yn y flwyddyn ariannol nesaf.**

JO/P&R 30.11.22. Craffu 2022-23

**EITEM RHIF 7**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 30 Tachwedd, 2022 |
| **TEITL** | **RHAGLEN WAITH CORFFORAETHOL 2022-23** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | Adroddiad cynnydd Chwarter Cyntaf a'r Ail (Ebrill – Medi) 2022 |

## 1. CEFNDIR

1.1 Ynghlwm adroddiad ar y Rhaglen Waith Corfforaethol sy'n cynnwys manylion y cynnydd a wnaed yn y Chwarter Cyntaf a'r Ail o 2022 (Ebrill - Medi) i gyflawni'r wahanol brosiectau a'r mentrau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflawni Amcanion Gwelliant yr Awdurdod.

1.2 Bydd Swyddogion yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno gwybodaeth bellach os bydd angen.

## 2. ARGYMHELLIAD

**2.1 Archwilio a thrafod y Rhaglen Waith Corfforaethol ynghlwm.**

## 3. PAPURAU CEFNDIROL

3.1 Rhaglen Waith Corfforaethol 2022-23: Adroddiad Cynnydd ar y Chwarter Cyntaf a'r Ail yn 2022.

# AMCANION LLESIANT 2022-23 : RHAGLEN WAITH GORFFORAETHOL

**Yr Amcanion Llesiant, Prosiectau a Mentrau Cyfatebol a Chanlyniadau Llwyddiant**

**Diweddariad Chwarter Cyntaf a'r Ail : Ebrill - Medi, 2022**

**Mae'r Amcanion Llesiant wedi'u croesgyfeirio â thargedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gwaith cyfredol Llywodraeth Cymru - wedi'u dynodi (Atodiad 1 : Targedau'r Llythyr Cylch Gwaith)**

## 1. AMGYLCHEDDAU CYDNERTH

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 1 | GWELLA RHEOLAETH HAMDDEN AC UNRHYW EFFEITHIAU NEGYDDOL HAMDDEN |
|---|---|---|

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 1.1** | Diweddariad Ch. 1+2 | **Monitro nifer yr ymwelwyr trwy gyfrifwyr pobl i sefydlu effaith defnyddwyr ar draws y Parc Cenedlaethol**<br>➢ Rhaglen fawr o atgyweirio, adnewyddu ac uwchraddio cownteri ar draws y Parc Cenedlaethol ar fin cael ei chwblhau.<br>➢ Adroddiad 2021:<br>❖ Cyhoeddir adroddiad unwaith y bydd data gan Ogwen wedi'i ychwanegu (materion gyda chownter Ogwen)<br>❖ Adroddiad drafft yn dangos nifer tebyg i 2019 ond gyda chrynodiadau o ffigurau ym mis Awst o gymharu â cyn-covid, yn ogystal â chynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn ne'r Parc Cenedlaethol.<br>Carneddau – trafodaethau ar y gweill gyda thîm y Carneddau a bydd gwaith yn dechrau ar osod yn gynnar y flwyddyn nesaf. | Mawrth 2023 | Pen. Ymgysylltu<br>Rheolwr Mynediad a Llesiant |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

● Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

● Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

● Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 1.2** | | **Ymgyrch Negeseuon Tymor 2022 i godi ymwybyddiaeth o Rinweddau Arbennig, dylanwadu ar ymddygiad cadarnhaol a mynd i'r afael â gwersylla anghyfreithlon - ei weithredu ac adrodd ar y canlyniadau/ cyrhaeddiad.** | Rhagfyr 2022 + Parhaus | Pen. Ymg.<br><br>Swyddog Twristiaeth Cynaliadwy |
| 1.2.1 | | Mae tri Pharc Cenedlaethol Cymru wedi cynnal ymgyrch ymwelwyr ar y cyd i fynd i'r afael â heriau rheoli ymwelwyr | | |
| | **Diweddariad Ch. 1 + 2** | **Cyllid wedi ei dderbyn gan Croeso Cymru i redeg yr ymgyrch ar y cyd.**<br>**Ymgyrch yn dirwyn i ben erbyn hyn. Bydd metrigau'r ymgyrch yn cael eu rhannu yn Ch.3.** | | |
| | **Ch. 3** | | | |
| | **Ch. 4** | | | |
| 1.2.2 | | Rydym yn gweithio'n agos gyda Chyngor Gwynedd i fynd i'r afael â materion gwersylla anghyfreithlon a chartrefi modur. | " | " |
| | **Diweddariad Ch. 1 + 2** | **Cynhaliwyd trafodaeth strategol gydag Aelodau yn y Gweithgor. Fel canlyniad:+**<br>➢ **Mae cynllun 12 mis wedi ei ddatblygu.**<br>➢ **Anfonwyd diweddariad i gynghorau cymuned.**<br>➢ **Datblygwyd taflen fan wersylla (a thudalen we) i annog defnydd cyfrifol o'r Parc Cenedlaethol. Gan gynnwys arfer gorau ac anogaeth i ddefnyddio meysydd gwersylla lleol. Adborth da ar y daflen.**<br>➢ **Gosod peiriant dosbarthu taflenni yn Llyn Tegid.**<br>➢ **Mesurau penodol yn cael eu trafod i fynd i'r afael ymhellach â materion yn Llyn Tegid.**<br>➢ **Parhau i gysylltu â Gwynedd a Chonwy am eu gwaith.**<br>➢ **Bydd adolygiad o'r CDLl yn cynnwys adolygu'r data sydd ar gael ar faterion galw/cyflenwad yn y Parc Cenedlaethol o ran cartrefi modur.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| 1.2.3 | Diweddariad Ch. 1 + 2 | Archwiliwyd cyfleoedd i ddatblygu Profiadau Parc Cenedlaethol Cymru sy'n canolbwyntio ar Rinweddau Arbennig a thwristiaeth gynaliadwy<br>➢ **Mae trafodaethau wedi eu cynnal gyda grŵp y PC ar brofiadau'r PC ac mae'r canlyniadau hyd yma wedi bod yn weddol gyfyngedig o ran canlyniadau. Trafodaethau cychwynnol felly i'w cynnal gyda Dolan – cynllun a arweinir gan y gymuned yn lleol – i weld sut y gallwn gefnogi eu gwaith, gyda phwyslais arbennig ar Gynllun Llysgenhadon y PC.**<br>➢ **Bydd Swyddog cynllun di-blastig Yr Wyddfa hefyd yn gweithio ar gynllun achredu peilot ar leihau defnydd plastig gan fusnesau.** | " | " |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **AC 1.3** | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Gwell darpariaeth ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghanolfan Gwybodaeth Betws y Coed trwy uwchraddio'r cyfleusterau i ymwelwyr**<br>➢ **Mae Profiad Rhithwir o'r Wyddfa bellach ar agor.**<br>➢ **Paneli ar gyfer 'blwch tywod' yn cael eu datblygu.**<br>➢ **Bydd Technegydd mewnol yn adeiladu meinciau a phlanwyr dros y gaeaf gan ddefnyddio pren o'n safleoedd.**<br>➢ **Arwyddion allanol hefyd yn cael eu datblygu.** | Disgwylir gorffen erbyn Awst 2022 | Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 1.4** | Diweddariad Ch. 1+2 | **Nodi a meintioli gwaith mynediad i liniaru effeithiau pwysau pobl**<br>**Mae gwaith mynediad ar raddfa fach yn cael ei nodi a'i reoli gan y Wardeniaid Ardal. Mae gwaith bach i ganolig yn cael ei arwain gan Wardeniaid Ardal gyda chefnogaeth Uwch Wardeniaid. Mae gwaith yn cael ei drafod a'i gadarnhau yn eu cynllun gwaith a/neu gynlluniau lleoedd ardal. Mae gwaith mynediad mwy yn cael ei asesu a'i drafod mewn 'Cyfarfodydd Blaenoriaethu Prosiectau Mynediad' sy'n cynnwys y Pennaeth Gwasanaeth Wardeiniaid, Uwch Wardeniaid, y Rheolwr Lles a Mynediad a'r Swyddog Prosiect Mynediad.** | Parhaus | Pen. Wardeinio a Mynediad (WaM) |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **AC 1.5** | Diweddariad Ch. 1+2 | **Cynhyrchu Strategaeth Ymgysylltu ar gyfer gwaith llwybrau yn Eryri**<br>**Ymchwil wedi'i wneud – cais am wybodaeth wedi'i wneud i Barciau Cenedlaethol y DU. Bydd gwaith yn mynd rhagddo dros y misoedd nesaf.** | Medi 2022 | Pen. WaM |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **AC 1.6** | Diweddariad Ch. 1+2 | **Cynhyrchu canllawiau ar gyfer cyflawni gwaith mynediad yn Eryri**<br>**Cynhyrchwyd y drafft – angen adolygu a chyflwyno drafft i'r tîm rheoli ar gyfer sylwadau cychwynnol ddechrau 2023.** | Medi 2022 | Pen. WaM |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 1.7** | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Sicrhau fod llwybrau a hyrwyddir yn cael eu harolygu, eu cynnal a'u gwella'n rheolaidd pan fo angen**<br><br>**Gwaith yn parhau. Mae asedau ychwanegol ar ffurf Wardeniaid Tymhorol wedi gwella capasiti.** | Parhaus | Pen. WaM |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **AC 1.8** | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Wardeiniaid Ardal i weithio gyda'r Cymunedau a phartneriaid i nodi a manteisio ar gyfleoedd i ddarparu ystod o lwybrau a hyrwyddir ar gyfer galluoedd amrywiol**<br><br>**Gwaith yn parhau. Bydd cyllid ychwanegol yn cefnogi'r gwaith.** | Parhaus | Pen. WaM |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **AC 1.9** | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Gweithio ar draws yr Awdurdod i integreiddio rhaglenni gwaith a datblygu Cynlluniau Ardal**<br><br>**Gwaith yn parhau. Mae angen mwy o gymorth ac arweiniad ar rai meysydd. Bydd ffynhonnell ariannu ddiweddar newydd, TCLIC yn gwella gwaith partneriaeth rhwng gwasanaeth yr Amgylchedd, Amaethyddiaeth a Chadwraeth.** | Parhaus | Pen. WaM |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **AC 1.10** | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Sicrhau cyllid a recriwtio swyddog i ddatblygu prosiect Yr Wyddfa Di-blastig**<br><br>**Cyllid wedi'i sicrhau a swyddog wedi'i recriwtio. CWBLHAWYD** | Hydref 2022 | Rheolwr Partneriaethau |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 2 | YMATEB I HERIAU NEWID YN YR HINSAWDD |
|---|---|---|

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 2.1** | | **Sicrhau gweithrediad y polisïau CDLl cyfredol sy'n cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd.** | **Adroddiad blynyddol** | Rheolwr Cynllunio |
| | **Blynyddol** | | | |
| **AC 2.2** | | **Effeithlonrwydd ynni a lleihau ôl-troed carbon adeiladau APCE i fod yn rhan annatod o'r Cynllun Rheoli Asedau newydd (i'w fabwysiadu o Ebrill 2022) ymochrol gyda Ffyniant i Bawb – Targedau Carbon Isel yr Ystâd Gyhoeddus** | Rheolwr Eiddo Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau o Ebrill 2022 + ymlaen | |
| | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Gwaith yn mynd rhagddo, wedi'i ohirio oherwydd cyflwyno ceisiadau am brosiectau datgarboneiddio pellach i gyllid TCLIC 2022-2025 a cheisiadau am grantiau pellach i wella cyfleusterau sy'n cynnwys cynhyrchu ynni solar ar y safle.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **AC 2.3** | | **Datblygu Cynllun Gweithredu yn seiliedig ar argymhellion yr astudiaeth carbon i APCE fod yn niwtral o ran carbon erbyn 2030** | Parhaus 2030 | Prif Weithredwr (PW) Pen. Eiddo |
| | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Disgwylir adroddiad terfynol gan Aquatera ym mis Hydref. Adroddiad i'w ystyried gan Grŵp Tasg a Gorffen y Cyfrif Carbon gydag argymhellion ar gyfer gweithredu wedi'u hymgorffori mewn dogfennau perthnasol e.e. Strategaeth Rheoli Asedau** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 2.4** | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Comisiynu adroddiad i nodi sut y gall yr Awdurdod gynorthwyo i sicrhau bod ardal y Parc Cenedlaethol yn garbon niwtral erbyn 2050 i gynnwys cyfeirnod penodol i reoli tir a gweithio tu hwnt i eiddo'r Awdurdod**<br><br>**Derbyniwyd yr adroddiad terfynol gan Small World Consultancy. Grŵp Tasg a Gorffen Cyfrif Carbon i ystyried y camau strategol a nodwyd. Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Eithriadol Cymru i ystyried datganiad ar y cyd ar fynd i'r afael â'r heriau cyffredin a nodwyd.** | Rhagfyr 2022 | Prif Weithredwr (PW) |
| | Ch. 3 | | | |
| **AC 2.5** | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Cefnogi partneriaeth strategol gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro ar Adfer Natur ac Atafaeliad Carbon yn Nhirweddau Dynodedig Cymru a cynnal swydd arweinydd strategol**<br><br>**Swyddog wedi'i benodi, gan ddechrau yn ei swydd fis Hydref.** | Parhaus | PW |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 3 | GWELLA RHEOLAETH A DEALLTWRIAETH O'N TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| AC 3.1 | | **Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol APCE** | Hydref 2022 | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| | Diweddariad Ch. 1+2 | Cynhaliwyd dau weithdy gyda staff y gwasanaeth. Mae gwaith ymchwil desg cychwynnol ac ymgynghori â phartneriaid allweddol yn parhau. | | |
| | Ch. 3 | | | |
| AC 3.2 | | **Sicrhau fod Rhaglen Waith Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau ar gyfer 2021/22 wedi'i chwblhau mewn pryd i sicrhau bod y Prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn 2025** | Erbyn diwedd y Cynllun | Rheolwr Prosiect y Carneddau |
| | Diweddariad Ch. 1+2 | Mae Covid wedi cael effaith ar yr amserlen ar gyfer cwblhau ac mae ail-broffilio rheolaidd yn digwydd er mwyn rheoli risgiau i'r amserlen. Mae estyniad amser wedi'i ganiatáu ac mae trafodaethau'n parhau gyda chyllidwyr ynghylch sicrhau estyniad pellach i'r amser oherwydd effaith barhaus y pandemig. Serch hynny, mae cynnydd da yn cael ei wneud ac mae gweithgarwch wedi cynyddu ers Gwanwyn 2022 wrth i arferion gwaith ddychwelyd i'w cyflwr cyn-bandemig. | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 3.3** | | **Adolygu cynnydd wrth gyflawni Cynllun Treftadaeth Treflun Dolgellau yn barod ar gyfer cwblhau'r cynllun erbyn mis Rhagfyr 2023** | Erbyn diwedd y Cynllun | Rheolwr Prosiect TT Dolgellau |
| | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Mae'r Cynllun wedi cael estyniad o 12 mis tan 31 Rhagfyr 2023, oherwydd effaith pandemig Covid 19 ar y Cynllun. Mae costau uwch (deunyddiau a chwyddiant) yn gosod her i brosiectau o fewn y Cynllun. Mae cynnydd da yn cael ei wneud mewn mannau eraill ac mae'r rhan fwyaf o brosiectau'r Cynllun bellach wedi'u cwblhau. Mae cyfathrebu rheolaidd yn digwydd gyda chyllidwyr ac mae'r prosiect ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2023.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **AC 3.4** | | **Datblygu prosiect Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy a fydd yn galluogi'r Awdurdod i wneud cais am arian allanol maes o law** | Mawrth 2023 | Swyddog Prosiect Treft. Ddiwylliannol |
| | **Diweddariad Ch.1+2** | **Mae'r prosiect ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau erbyn hydref 2022. Rhagwelir y bydd ceisiadau am gyllid yn cael eu cyflwyno yng Ngwanwyn 2023.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **AC 3.5** | | **Cyfrannu'n weithredol at raglen waith Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd Tirweddau Llechi Gogledd Orllewin Cymru** | Mawrth 2023 | Archeolegydd |
| | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Mae swyddogion yn parhau i weithio gyda phartneriaid o wahanol rannau o'r Cynllun Gweithredu, gan gynnwys dehongli, cadwraeth, cynllunio a'r grŵp llywio. Mae dehongliad o Ynysypandy a Phlas Tan y Bwlch ar y gweill a gofynnir am gyngor cynllunio cyn cyflwyno cais.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 3.6** | | **Wardeiniaid i arwain teithiau cerdded misol gydag arbenigwr gwadd i hyrwyddo natur, diwylliant a threftadaeth** | Mawrth 2022 Parhaus | Pen. Gwas. WaM |
| | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Mae pob un o lwybrau yr awdurdod a hyrwyddir ar-lein erbyn hyn. Mae taith gerdded y mis wedi ailddechrau ar y wefan newydd mae cynllunio ar gyfer y teithiau tywys wedi dechrau.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **AC 3.7** | | **Cyfrannu'n weithredol at raglen waith barhaus y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol (GAH) dan arweiniad Cadw a'i weithgorau cysylltiedig, gan gynnwys Llesiant, Lliniaru Newid Hinsawdd, mawndiroedd a Threftadaeth Leol** | Parhaus | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Mae swyddogion yn parhau i weithio gyda phartneriaid ar bob elfen o'r GAH.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **AC 3.8** | | **Cynnal a datblygu Yr Ysgwrn fel amgueddfa a chanolfan ddiwylliannol o fri cenedlaethol gan gynnwys cyflwyno'r prosiect arddangosfa 'Geiriau Diflanedig' ar y safle yn 2022-23 yn y byd ôl-cofid** | Medi 2023 | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Mae cyllid Haf o Hwyl a ddarperir gan Lywodraeth Cymru wedi'i sicrhau er mwyn ariannu rhaglen lawn o weithgareddau i'r teulu ar gyfer Gorffennaf-Medi, 2022.**<br>**Bydd prosiect Geiriau Diflanedig yn cael ei gyflwyno yn ystod Haf 2023. Mae swyddogion ar hyn o bryd yn gweithio gyda chydweithwyr yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i gyflawni'r prosiect. Mae cyllid Haf o Hwyl a ddarperir gan Lywodraeth Cymru wedi'i sicrhau er mwyn ariannu rhaglen lawn o weithgareddau i'r teulu ar gyfer Gorffennaf-Medi, 2022.** | | |
| | **Ch. 3** | | | |
| | **Ch. 4** | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| AC 3.9 | | **Datblygu Cynllun Gwerthuso Ardaloedd Cadwraeth a Chynllun Rheoli/Cynllun Cyflenwi fel llinell sylfaen o wybodaeth ar gyfer datblygu prosiectau cyfalaf posibl yn y blynyddoedd dilynol** | Mawrth 2023 | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol Swyddog Cynllunio yr Amg. Hanesyddol |
| | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Mae drafftiau o'r ddogfennaeth wedi eu cwblhau. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod hydref 2022. Ym mis Mehefin 2022 cyflwynwyd yr Ardaloedd Cadwraeth sy'n addas ar gyfer Prosiect yr Unfed Ganrif ar Hugain i'r Aelodau yn ystod Gweithgor Aelodau i'w trafod ynghylch cynnydd y prosiect. Mewn Pwyllgor Cynllunio a Mynediad dilynol a gynhaliwyd ym mis Medi 2022, cymeradwyodd yr Aelodau'r dogfennau i fod yn destun Ymgynghoriad Cyhoeddus 6 wythnos.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 4 | MYND I'R AFAEL Â HERIAU A CHYFLEOEDD SENARIOS RHEOLI TIR AR ÔL BREXIT |
|---|---|---|

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| AC 4.1 | | **Cynorthwyo i ddatblygu a dylunio cynigion rheoli tir yn y dyfodol gyda Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, i sicrhau bod Eryri yn elwa o gynigion yn y dyfodol a bod nodau strategol Cynllun Eryri yn cael eu hadlewyrchu yng nghynigion y dyfodol** | Parhaus | Pen. CCA, PW Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir |
| | **Diweddariad Ch. 1+ 2** | **Mae ymgysylltu ar y gweill cymaint ag y mae LIC yn ei ganiatáu, proses gyd-gynllunio braidd yn gyfyngedig.** | | |
| | Ch. 3 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ch. 4 | | | |
| **AC 4.2** | **Diweddariad Chr. 1+2** | **Cynnal perthynas waith agos gyda'r sector tir i sicrhau bod gan yr Awdurdod ddealltwriaeth o oblygiadau parhaus Brexit ar reoli tir**<br><br>**Cynhelir perthynas waith agos, barhaus.** | Mawrth 2023 + Parhaus | Pen. CCA * |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

*Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth (CCA)

| | | |
|---|---|---|
| **Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:** | **AC 5** | **MYND I'R AFAEL Â'R DIRYWIAD MEWN NATUR** |

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 5.1** | **Diweddariad Ch. 1+ 2** | **Datblygu cynllun gweithredu yn seiliedig ar ddealltwriaeth a chynnwys e.e. SoNaRR (adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol), Adroddiad Cyflwr y Parc Cenedlaethol ayb. i hysbysu'r blaenoriaethau ar gyfer adfer natur yn Eryri**<br><br>**Mae colli swyddog allweddol wedi gohirio'r cynnydd, mae mecanweithiau cyflawni amgen yn cael eu hystyried ac yn aros am gadarnhad o gyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru am y tair blynedd nesaf** | Mawrth 2023 | Pen. CCA |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **AC 5.2** | | **Parhau i ddarparu gwelliant bioamrywiaeth trwy'r broses rheoli datblygu a sicrhau cydymffurfiad ag unrhyw ganllawiau sydd ar ddod a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru** | **Adroddiad Blynyddol** | Rheolwr Cynllunio |
| | **Adroddiad blynyddol** | | | |
| **AC 5.3** | | **Unwaith bydd canllawiau wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, sicrhau bod CCA ar fioamrywiaeth yn cael ei gynhyrchu erbyn 2023 i gefnogi'r broses Rheoli Datblygu** | Mawrth 2023 Parhaus | Rheolwr Cynllunio |
| | **Diweddariad Ch.1+2** | **Bydd hyn yn cael ei ddatblygu unwaith y bydd canllawiau Llywodraeth Cymru ar wella bioamrywiaeth wedi'i gyhoeddi.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **Rhif** | **Statws Cynnydd Chwarter** | **Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)** | **Amserlen** | **Swyddog(ion) cyfrifol** |
| **AC 5.4** | | **Parhau i ddarparu prosiectau cymeradwy sy'n mynd i'r afael â nodau Safle Eryri (e.e. HLF Carneddau, LIFE (Coedwig Law Geltaidd, Cyforgorsydd, Corsydd Crynedig, prosiect y Gylfinir) SMS Dinas Mawddwy, Rhaglen Genedlaethol Mawn, ENRAW, prosiectau Awyr Dywyll) a datblygu rhaglenni pellach** | Dau adroddiad y flwyddyn yn diweddaru ar brosiectau unigol | Pen CCA Rheolwyr Prosiectau |
| | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Mae'r Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol yn disgwyl cyllid prosiect ychwanegol wedi'i sicrhau drwy raglen 3 Lleoedd Cynaliadwy Tirweddau Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, Prosiectau'r Grid Cenedlaethol a Rheoli Llifogydd Naturiol.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **AC 5.5** | | **Symud ymlaen ag arolwg ledled y Parc Cenedlaethol o safleoedd Coed a Choetiroedd Hynafol (PAWS)** | Mawrth 2023 | Pen CCA |
| | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Gwaith yn mynd rhagddo a chyllid wedi'i sicrhau ar gyfer 3 blynedd arall o arolygu ac adfer** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

## CANLYNIADAU:

**AMGYLCHEDDAU CYDNERTH: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**AC1:** Fyddwn wedi datblygu a gweithredu egwyddorion a throthwyon arweiniol mewn perthynas ag effeithiau ymwelwyr ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.1)***

**AC1:** Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2)***

**AC1, 2:** Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4)***

**AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)***

**AC1:** Gan ddefnyddio'r strategaeth marchnata brand fel sylfaen, byddwn wedi datblygu cynllun a rennir gyda phartneriaid ar y wybodaeth a ddarparwn i ymwelwyr, gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid ymddygiad ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.3)***

**AC2, 4:** Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1)***

**AC2, 4:** Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2)***

**AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)***

**AC5:** Mae dirywiad bioamrywiaeth yn cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.2)***

**AC2, 4, 5:** Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol **(yn unol â Chynllun Eryri A4.2)**

**AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol. **(yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3).**

- Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen
- Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023
- Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

# 2. CYMUNEDAU CYDNERTH

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 1 | CYNNAL A GWELLA ANSAWDD BYWYD PRESWYLWYR |
|---|---|---|

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 1.1 | Diweddariad Ch. 1+2 | **Datblygu adnodd ar-lein fel rhan o'r wefan newydd sy'n ymwneud â gweithgareddau a llwybrau yn y Parc Cenedlaethol wedi'i dargedu a'i deilwra'n briodol**<br>➢ Mae holl lwybrau yr Awdurdod a hyrwyddir ar y wefan newydd. Y cam nesaf yw codi ymwybyddiaeth o'r "adnodd" i bartneriaid a'r Bwrdd Iechyd<br>➢ Adnoddau a fideos ychwanegol yn cael eu datblygu ar gyfer defnyddwyr anabl<br>GWAITH WEDI'I GWBLHAU a gellir ei archwilio ar y wefan | I ddechrau unwaith bydd y safle We wedi ei lansio | Pen. Ymgysylltu, Pen. Gwas. Wardeinio + Rheolwr Brand a Cynnwys y We |
| CC 1.2 | Diweddariad Ch. 1+2 | **Fel rhan o'r Strategaeth Gwirfoddolwyr APCE ac mewn cydweithrediad â phartneriaid, parhau i ehangu cyfleoedd gwirfoddoli o fewn y Parc Cenedlaethol sy'n cynnwys gweithgareddau corfforol a diwylliannol**<br>Swm sylweddol o gyfleoedd newydd a pharhaus yn cael eu datblygu/cefnogi gan Swyddog Gwirfoddoli a Llesiant gan gynnwys:<br>➢ Caru Eryri – cynllun gwirfoddol partneriaeth gyda Chymdeithas Eryri, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Phartneriaeth Awyr Agored. Clirio 2 dunnell o sbwriel o'r llwybrau a'r meysydd parcio prysuraf dros dymor 2021/2022. Eleni cyfrannodd 113 o wirfoddolwyr 2304 o oriau gwirfoddol, a threuliwyd 121 diwrnod yn gofalu am Eryri.<br>➢ Wardeniaid Gwirfoddolwyr Yr Wyddfa. Cwblhaodd 36 o Wardeniaid Gwirfoddol yr Wyddfa a 10 warden Gwirfoddol Cader Idris 1602 o oriau gwirfoddol yn 2022. Casglwyd tua 250 o fagiau o sbwriel. | Parhaus | Pen. Ymgysylltu + Swyddog Gwirfoddoli a Lles |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen — Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023 — Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| | | |
|---|---|---|
| | | ➢ **Gwirfoddoli Partneriaeth Tirwedd Carneddau gan gynnwys clirio eithin a chloddio bwyeill neolithig 359 o wirfoddolwyr gan gynnwys grwpiau ysgol, 1654 o oriau gwirfoddol.**<br>➢ **Digwyddiadau gwirfoddoli gyda grwpiau ieuenctid lleol, grwpiau ffoaduriaid, grwpiau corfforaethol a grwpiau Dug Caeredin. Ymhlith y gweithgareddau mae rheoli rhywogaethau ymledol a rheoli coetir, gwaith adfer mawndir yn Ninas Mawddwy, a llawer o ddiwrnodau plannu coed a gwrychoedd o fis Tachwedd hyd at fis Ebrill.**<br>➢ **Gwerth amcangyfrifedig gwirfoddoli i'r Awdurdod hyd yma yn 2022 yw £52,800 (cyfrif gwerth economaidd gwirfoddolwyr gan ddefnyddio cyflog byw y DU o £9.50).** |
| | **Ch. 3** | |
| | **Ch. 4** | |

| **Rhif** | **Statws Cynnydd Chwarter** | **Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)** | **Amserlen** | **Swyddog(ion) cyfrifol** |
|---|---|---|---|---|
| **CC 1.3** | | **Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli i gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, rhai agored i niwed a grwpiau difreintiedig** | Parhaus | Pen. Ymgysylltu + Swyddog Gwirfoddoli a Lles |
| | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Prosiect newydd yn dechrau ym mis Tachwedd 2022 yn gweithio gyda "Pobl i Bobl" i ddod â gwesteion o Syria, Afghanistan ac Wcrain i mewn i'r Parc Cenedlaethol ar gyfer teithiau cerdded tywys a gweithgareddau cadwraeth hwyliog.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **CC 1.4** | | **Sicrhau bod cynllunio yn cymryd rôl ragweithiol wrth annog tai fforddiadwy trwy weithio gydag asiantaethau eraill yn y sector hwn, er mwyn ceisio cyflawni'r targed blynyddol a nodir yn y CDLl** | **Adroddiad blynyddol** | Rheolwr Cynllunio |
| | **Adroddiad blynyddol** | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 1.5** | | **Parhau i ddarparu arian a mesurau i gefnogi cymunedau ac economïau lleol drwy Cronfa Cymunedol Eryri, yn enwedig lle mae'r rhain yn cael eu harwain gan gymunedau eu hunain, mewn seilwaith gwyrdd, gwell mynediad at hamdden ar gyfer iechyd a lles, cynhyrchu ynni, gwelliannau amgylcheddol lleol megis rheoli sbwriel a gwastraff, datblygu cymunedol a'r Iaith Gymraeg.** | Mawrth 2023 | Rheolwr Partneriaethau |
| | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Cyllid wedi'i sicrhau drwy gronfa Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru. Dechreuwyd ar y broses o recriwtio i swyddi gwag i gydgysylltu'r gronfa.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 2 | CEFNOGI POBL IFANC |
|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **CC 2.1** | | **Paratoi Maniffesto Ieuenctid drafft i'w drafod a'i gymeradwyo gan yr Aelodau** | Medi 2022 | Pen. WaM |
| | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Cynhelir ymchwil a wnaed gan y Swyddog Ieuenctid a chyfarfod gyda'r grŵp tasg a gorffen cyn diwedd 2022.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **CC 2.2** | Diweddariad Ch. 1+2 | **Ailgychwyn cynllun Ceidwaid Ifanc a mabwysiadu cynllun ar gyfer De'r Parc**<br><br>**Mae Ceidwaid Ifanc Gogledd y Parc wedi bod yn llwyddiant a bydd yn parhau tan fis Mawrth 2023. Bydd y cynllun yn ailddechrau Mai 2023 gyda mynychwyr newydd. Mae angen cynnal trafodaethau gyda phartneriaid posibl ar gyfer datblygu'r cynllun i'r De o'r Parc.** | Gorffennaf 2022 | Pen. WaM |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

| | | |
|---|---|---|
| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC3 | **HYRWYDDO TWRISTIAETH GYNALIADWY I YCHWANEGU GWERTH I GYMUNEDAU LLEOL** |

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 3.1** | Diweddariad Ch. 1+2 | **Comisiynu a hyrwyddo Adroddiad Blynyddol Twristiaeth Gynaliadwy STEAM, er mwyn mesur effaith twristiaeth a darparu argymhellion yn seiliedig ar yr adroddiad ar sut i liniau'r effaith yn Eryri**<br><br>**Gwaith cychwynnol o ddatblygu fframwaith ar gyfer adroddiad wedi'i gwblhau.** | Mawrth 2023 | Pen. Ymgysylltu<br><br>Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **CC 3.2**<br><br>CC 3.2.1 | Diwedddariad Ch. 1+2 | **Datblygu cyfleoedd i annog trafnidiaeth mwy gwyrdd trwy'r canlynol:**<br><br>Dilyn yr argymhellion o'r adolygiad o drafnidiaeth a pharcio yn ardaloedd Yr Wyddfa ac Ogwen<br><br>**Gyda chymorth Trafnidiaeth Cymru yn 2022-3 mae'r prosiectau canlynol o Adolygiad Martin Higgit yn** | Parhaus tan Ebrill 2025 | Pen. Ymgysylltu<br><br>Rheolwr Partneriaethau |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | cael eu datblygu:<br>**<u>SHERPA'R WYDDFA</u>** - gwasanaeth bws gwell yn cynnig mwy o wasanaethau a gwell integreiddio wedi'i lansio ddydd Gwener 8 Gorffennaf. Gan gynnwys brand newydd i'r gwasanaeth – a elwir bellach yn 'Sherpa'r Wyddfa' gyda lifrai newydd yn adlewyrchu golygfeydd Eryri ac yn cynnwys Lili'r Wyddfa. Hefyd creu taflenni hyrwyddo newydd, 'baneri' arosfannau bysiau, byrddau gwybodaeth ac asedau cyfryngau cymdeithasol.<br>**<u>STRATEGAETH ARWYDDION</u>** – gweithio gyda TrC i ddatblygu strategaeth arwyddion i arwain gyrwyr yn effeithiol i ardaloedd Yr Wyddfa ac Ogwen, a fydd hefyd yn defnyddio data o synwyryddion parcio Clyfar/ Smart - gweler isod. Rhoddir ystyriaeth lawn i'r gwahanol ddulliau o ymdrin â'r ardal fewnol, gan ddal ysgogwyr ar bwyntiau penderfynu strategol. Bydd y strategaeth hefyd yn hyrwyddo dulliau teithio mwy gwyrdd e.e. sut i gael mynediad at y Bws Sherpa. Bydd y strategaeth wedi'i chwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2023 gydag arwyddion i'w gosod ar gyfer tymor 2024.<br>**<u>TEITHIO LLESOL / ACTIF WELTAG 1&2</u>** - Dau Lwybr Teithio Llesol 1) Betws-y-Coed i Lanrwst 2) Bethesda - Mae Zip World bellach wedi symud ymlaen i'r cam dichonoldeb mewn ymgynghoriad ag Awdurdodau Lleol a thirfeddianwyr lleol.<br>**<u>SMART PARKING</u>** - Cam olaf y prosiect hwn yw integreiddio'r wybodaeth a gasglwyd gan y synwyryddion i wefan yr Awdurdod mewn ffordd hawdd ei defnyddio. Mae Smart Parking wrthi'n gweithio ar yr opsiwn gorau ar gyfer cynnwys y wybodaeth hon yn y ffordd fwyaf defnyddiol i ymwelwyr â'r safle.<br>**<u>LLYWODRAETHU</u>** - Mae grŵp cyflawni wedi'i sefydlu ar gyfer arweiniad strategol ar y strategaeth gyffredinol rhwng APCE, TrC, Cynghorau Gwynedd a Chonwy, gyda'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Ymgysylltu yn cynrychioli'r Awdurdod ar y grŵp. | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 3.2.2 | Diweddariad Ch. 1+2 | Gweithredu model Twristiaeth Gynaliadwy ar draws y rhanbarth.<br>➢ **Mae cwmpasu Cam 1 bron wedi'i gwblhau ac mae Cam 2 wedi'i gadarnhau ar gyfer ariannu gan Trafnidiaeth Cymru.**<br>➢ **Gweler uchod am gynnydd ar y model Parcio a Chludiant Cynaliadwy**<br>➢ **Mae Cynllun Economi Ymwelwyr Cynaliadwy drafft ar gyfer Gwynedd ac Eryri yn cael ei gynhyrchu trwy waith ar y cyd a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gan Gyngor Gwynedd ac APCE, i'w gyflwyno i aelodau a Chabinet Cyngor Gwynedd cyn diwedd 2022** | Mawrth 2023 | Pen. Ymgysylltu Rheolwr Partneriaethau |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 3.2.3 | Diweddariad Ch. 1+2 | Mynd ati i chwilio am gyfleoedd i gyfrannu at Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru fydd yn helpu i gefnogi gweledigaeth trafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer Eryri<br>**Mae APCE wedi cael gwahoddiad i siarad â Chomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru ym mis Tachwedd.** | Mawrth 2023 | Pen. Ymgysylltu + Rheolwr Partneriaethau |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **CC 3.3** | | **Annog ymwelwyr i ddod ar drafnidiaeth gyhoeddus ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i ardaloedd gwahanol er mwyn lleihau'r pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol, trwy ddatblygu Profiadau Parc Cenedlaethol Cymru** | Rhag. 2022 | Pen. Ymgysylltu + Swyddog Twristiaeth Gynaliiadwy |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Diweddariad Ch. 1+2** | ➢ **Mae trafodaethau wedi eu cynnal gyda grŵp y PC ar brofiadau'r PC ac mae'r canlyniadau hyd yma wedi bod yn weddol gyfyngedig o ran canlyniadau. Trafodaethau cychwynnol felly i'w cynnal gyda Dolan – cynllun a arweinir gan y gymuned yn lleol – i weld sut y gallwn gefnogi eu gwaith, gyda phwyslais arbennig ar Gynllun Llysgenhadon y PC.**<br>➢ **Bydd Swyddog cynllun di-blastig Yr Wyddfa hefyd yn gweithio ar gynllun achredu peilot ar leihau defnydd plastig gan fusnesau.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 3.4** | | **Parhau i ddatblygu cynllun Llysgenhadon Eryri a'u defnyddio i helpu i ledaenu negeseuon mewn perthynas â'r uchod** | Parhaus | Pen. Ymgysylltu Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa |
| | **Diweddariad Ch. 1+2** | ➢ **Bellach mae gan y Rhaglen ychydig llai na 800 o Lysgenhadon achrededig (Hydref 2022).**<br>➢ **Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu'r cynllun fel rhan o'i raglen anwytho ar gyfer staff newydd.**<br>➢ **Mae dathliad wythnos o ddwy flynedd ers y Rhaglen Llysgenhadon yn cael ei gynllunio gyda chyfres o ddigwyddiadau yn cael eu cynnig yn ystod wythnos 23 Tachwedd 2022.**<br>➢ **Mae modiwl Di-blastig newydd ar gael yn y rhaglen sydd wedi'i dargedu at fusnesau lletygarwch. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach gan swyddog Yr Wyddfa Di-blastig pan fydd yn dechrau yn ei swydd.**<br>➢ **Disgwylir modiwl newydd ar Bartneriaeth Tirwedd y Carneddau ym mis Ionawr 2023.**<br>➢ **Mae opsiynau ar gyfer datblygu Tystysgrif Cynaliadwy yn cael eu harchwilio fel rhan o waith ehangach Economi Ymwelwyr Cynaliadwy ochr yn ochr â Chyngor Gwynedd.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **CC 3.5** | | **Sicrhau bod y CDLI presennol yn gweithredu ei bolisïau'n gadarnhaol i gyfrannu at dwristiaeth gynaliadwy, sy'n ychwanegu gwerth i gymunedau lleol.** | Adroddiad blynyddol | Rheolwr Cynllunio |
| | **Adroddiad blynyddol** | | | |
| **CC 3.6** | | **Ceisio sefydlu Grŵp Cyflawni a chylch gorchwyl ar gyfer ardal gogledd Eryri a fydd yn galluogi gwell gweithio mewn partneriaeth a blaenoriaethu a chyflawni prosiectau teithio a thrafnidiaeth gynaliadwy yn llwyddiannus.** | Mawrth 2022 | Pen. Gwas. Wardeinio<br>Pen. Ymgysylltu |
| | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Mae'r grŵp wedi'i sefydlu a'r cylch gorchwyl wedi'i gytuno. CWBLHAWYD** | | |
| **Rhif** | **Statws Cynnydd Chwarter** | **Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)** | **Amserlen** | **Swyddog(ion) cyfrifol** |
| **CC 3.7** | | **Datblygu safiad strategol y Parciau Cenedlaethol ar ardoll twristiaeth a chymryd rhan weithredol yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn Hydref 2022** | Parhaus Hydref 2022 | Pen. Gwas. Wardeinio<br>Pen. Ymgysylltu |
| | **Diweddariad Ch. 1+2** | ➢ **Cyflwynwyd papur trafod i'r Aelodau.**<br>➢ **Sefyllfa strategol wedi ei sefydlu o ganlyniad.**<br>➢ **Ymateb yn cael ei ddatblygu i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC4 | HYRWYDDO A CHEFNOGI'R GYMRAEG YN WEITHREDOL |
|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **CC 4.1** | | **Cynhyrchu Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg 5 mlynedd newydd ar gyfer y cyfnod 2022-26** | Medi 2022 | Pen. Gwas. Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Penodwyd aelodau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod ym mis Mehefin ar Grŵp Llywio i arwain ar y gwaith hwn. Cyfarfu'r Grŵp Llywio ar y 14eg o Fedi. Cytunwyd ar Gylch Gorchwyl gan gynnwys amserlen ar gyfer cwblhau a mabwysiadu'r Strategaeth erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r weledigaeth ar gyfer y Strategaeth wedi'i hadolygu a chytunwyd ar feysydd blaenoriaeth allweddol, ac mae ymgynghoriad mewnol wedi dechrau gyda swyddogion yr Awdurdod i ddatblygu'r meysydd blaenoriaeth allweddol ymhellach, er mwyn galluogi datblygu drafft cyntaf y Strategaeth.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 4.2** | | **Parhau i ddatblygu Yr Ysgwrn fel canolfan ddiwylliannol sy'n hyrwyddo diwylliant Cymraeg a mynd ati i ddarparu cyfleoedd i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg** | Parhaus | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Mae cyllid Haf o Hwyl wedi darparu cyllid ar gyfer rhaglen lawn o weithgareddau teuluol ar gyfer yr Haf a'r Hydref. Mae gweithgareddau ychwanegol wedi cynnwys gigs gwerin a theithiau tywys. Mae nifer o weithgareddau wedi eu targedu at ddysgwyr Cymraeg (gan gynnwys taith archeolegol, gigs ac ysgol goedwig).** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| CC 4.3 | Diweddariad Ch. 1+2 | **Datblygu'r prosiect arddangosfa 'Geiriau Diflanedig' trwy gydweithrediad ag Amgueddfa Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro (gyda chefnogaeth cronfa TCLIC), gan ddod ag arddangosfa 'Geirfa Coll' i Gymru am y tro cyntaf ac arddangos camp ddwyieithog epig y blodeugerddi**<br>**Bydd prosiect Geiriau Diflanedig yn cael ei gyflwyno yn ystod Haf 2023. Mae swyddogion ar hyn o bryd yn gweithio gyda chydweithwyr yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i gyflawni'r prosiect.** | Parhaus hyd at Mawrth 2023 | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **Rhif** | **Statws Cynnydd Chwarter** | **Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)** | **Amserlen** | **Swyddog(ion) cyfrifol** |
| CC 4.4 | Diweddariad Ch. 1+2 | **Diogelu a hyrwyddo'r defnydd o enwau lleoedd Cymraeg trwy ddatblygu canllawiau ar gyfer defnyddio enwau lleoedd gan APCE**<br>**Mae canllawiau drafft wedi'u derbyn a'u cyflwyno i'r Gweithgor Aelodau. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod maes o law.** | Medi 2022 | Pen. Treftadaeth Diwylliannol |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| CC 4.5 | Diweddariad Ch. 1+2 | **Darparu cyfleoedd i wirfoddolwyr ddysgu a defnyddio'r Gymraeg trwy'r strategaeth wirfoddoli**<br>**Mae sesiynau briffio ar gyfer grwpiau gwirfoddol bob amser yn cael eu cynnal yn ddwyieithog ar ddechrau'r diwrnod gwaith a defnyddir y Gymraeg drwy'r dydd yn arbennig i annog pobl i ddysgu er enghraifft enwau Cymraeg ar goed neu blanhigion ac ati. Mae mwyafrif arweinwyr Caru Eryri yn siaradwyr Cymraeg ac mae hyn yn rhoi cyfle i wirfoddolwyr ymarfer eu Cymraeg a dysgu am wybodaeth leol a hanes enwau lleoedd Cymraeg tra allan. Fel bob amser, anogir y Wardeiniaid Gwirfoddol sy'n ddysgwyr i gyfeillio â siaradwr Cymraeg rhugl.** | Parhaus | Pen. Ymgysylltu + Swyddog Gwirfoddoli a Lles |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **CC 4.6** | | **Bydd prosiect Lleisiau ac Enwau Lleoedd y Carneddau a Chynllun Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy yn cofnodi, diogelu a dathlu enwau lleoedd Cymru trwy ddigwyddiadau mapio cymunedol, cyfweliadau hanes llafar, prosiectau allgymorth a dehongli** | Parhaus hyd at Rhag. 2025 | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Mae'r prosiectau hyn yn mynd rhagddynt. Mae gwefan ddeongliadol newydd yn cael ei datblygu ar gyfer prosiect Lleisiau ac Enwau Lleoedd y Carneddau er mwyn gwneud enwau lleoedd a gasglwyd yn hygyrch i'r cyhoedd.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **Rhif** | **Statws Cynnydd Chwarter** | **Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)** | **Amserlen** | **Swyddog(ion) cyfrifol** |
| **CC 4.7** | | **Sicrhau bod Polisi Datblygu 18: yr Iaith Gymraeg a gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol yn y broses rheoli datblygu** | **Adroddiad blynyddol** | Rheolwr Cynllunio<br>Prif Swyddog Cynllunio Polisi |
| | **Adroddiad blynyddol** | | | |
| **CC 4.8** | | **Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Safle Treftadaeth y Byd Tirweddau Llechi Gogledd Orllewin Cymru, i gefnogi'r broses Rheolaeth Datblygu** | Hydref 2022 | Rheolwr Cynllunio<br>Prif Swyddog Cynllunio Polisi |
| | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Mabwysiadwyd y Canllaw Cynllunio Atodol: Tirweddau Llechi Safle Treftadaeth y Byd Gogledd Orllewin Cymru gan yr Awdurdod mewn Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2022.**<br>**CWBLHAWYD** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC5 | DATBLYGU ECONOMI LEOL SY'N CEFNOGI DYNODIAD A RHEOLAETH ERYRI FEL PARC CENEDLAETHOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 5.1** | | **Sicrhau gweithrediad cadarnhaol polisïau cyfredol y CDLI i ddatblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad y PC** | **Adroddiad blynyddol** | Rheolwr Cynllunio |
| | **Adroddiad Blynyddol** | | | |
| **CC 5.2** | | **Cyflwyno adroddiad monitro blynyddol i'r aelodau i'w drafod ac ystyried yr amserlen ar gyfer dechrau adolygiad o'r CDLI cyfredol** | **Adroddiad blynyddol** | Cyf. CRhT |
| | **Adroddiad Blynyddol** | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

## CANLYNIADAU:

**CYMUNEDAU CYDNERTH: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**CC1, 2, 4:** Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl ***(yn unol â Chynllun Eryri B1.2)***

**CC1, 3, 5:** Rydym wedi creu cynllun ac yn canolbwyntio adnoddau ar hyrwyddo, datblygu a chynnal a chadw llwybrau pellter hir wedi'u marcio'n dda, llwybrau hygyrch, llwybrau aml-ddefnyddiwr (yn enwedig llwybrau beicio a llwybrau beicio mynydd), hyrwyddo llwybrau a chysylltiadau a dolenni rhwng trefi a phentrefi. ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B2.1)***

**CC1, 2, 3, 5:** Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2)***

**CC1,3,5:** Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2)***

**CC2, 3, 4:** Rydym wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn llysgenhadon dros iaith a diwylliant yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***)

**CC4, 5:** Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***)

**CC 4:** Rydym wedi gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig sy'n annog datblygiadau newydd i gynnal neu wella datblygiad y Gymraeg ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1)***

**CC4:** Rydym wedi darparu cyfleoedd i ddysgwyr Cymru yn yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.2***)

**CC4:** Mi fyddwn wedi amddiffyn enwau lleoedd Cymreig (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.3***)

**CC1, 2, 4:** Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â materion sylfaenol a datblygu atebion arloesol i ddarparu tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C3.1***)

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

# 3. FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 1 | DATBLYGU GWEITHLU MEDRUS |
|---|---|---|

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 1.1** | | **Ymgysylltu â'n staff ar bob lefel i gynorthwyo rheoli perfformiad:**<br>➢ **Bydd holl aelodau staff yr Awdurdod yn cael eu gwerthuso o fewn 12 mis**<br>➢ **Cynnal asesiadau anghenion hyfforddi yr holl staff o fewn 12 mis** | Parhaus Mawrth 2023 | Pen. Adnoddau Dynol (AD) |
| | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Mae rheolwyr yn trefnu adolygiadau perfformiad blynyddol trwy system arfarnu. Mae asesu anghenion hyfforddi yn rhan o'r broses arfarnu** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **CW 1.2** | | **Cefnogi staff i fynychu grwpiau cymheiriaid y Parc Cenedlaethol i'w hysbysu am ddatblygiadau ac i gynorthwyo rheoli perfformiad a dealltwriaeth o fewn eu priod ddisgyblaethau** | Parhaus Mawrth 2023 | Pen. AD<br>Pen. Gwas. |
| | **Parhaus** | **Mae cyfarfodydd rhithiol a rhai cyfarfodydd grŵp cyfoedion wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal yn barhaus y mae staff APCE yn eu mynychu fel y bo'n briodol.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 1.3** | Diweddariad Ch. 1+2 | **Datblygu ein gweithlu ymhellach a rhoi pob cyfle i staff ddatblygu i gwrdd â heriau'r dyfodol**<br>**Mae rheolwyr yn archwilio gofynion hyfforddi a datblygu aelodau tîm trwy'r system arfarnu flynyddol. Mae cyfleoedd secondiad mewnol ac allanol yn cael eu hystyried a'u cynnig lle bo hynny'n ymarferol.** | Parhaus Mawrth 2023 | Pen. AD<br>Pen. Gwas. |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 2 | DATBLYGU A HYRWYDDO ARFER GORAU |
|---|---|---|

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 2.1** | Ch. 1+2 | **Rhannu cyflawniadau prosiectau Datgarboneiddio trwy gyllid TCLIC gyda chyrff eraill o fewn tirweddau dynodedig a'r ystâd gyhoeddus ehangach**<br>**Mae presenoldeb mewn rhith-gyfarfodydd Chwarterol o grŵp Datgarboneiddio Cyrff Cyhoeddus Gogledd Cymru gan Bennaeth Eiddo yn parhau sy'n cynnwys rhannu arfer gorau o brosiectau a gyflawnwyd.** | Mawrth 2023 | Pen. Eiddo |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 2.2** | | **Pan y'u penodir, Pennaeth Personél newydd i goladu gwybodaeth parthed arfer gorau mewn Parciau Cenedlaethol eraill, cael adborth gan staff a drafftio papur i'w drafod/ystyried gan y Gweithgor Aelodau** | Mawrth 2022 | Pen. AD |
| | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Dechreuodd y Pennaeth AD yn ei swydd ddechrau mis Mehefin. Bydd gwaith yn mynd rhagddo maes o law** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **CW 2.3** | | **Adolygu trefniadau gweithio staff mewn ymateb i darged Llywodraeth Cymru o weithio gartref a gweithio cyfunol o'r cartref/swyddfa lle mae'n bosibl i staff wneud hynny** | Rhagfyr 2022 | Pen. AD |
| | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Cyfarfod wedi'i drefnu gyda'r Tîm Rheoli a Phenaethiaid Gwasanaethau i ddechrau trafodaethau ynghylch trefniadau gweithio yn y dyfodol - i adolygu'r addasiadau a wnaed yn ystod Covid 19 ac archwilio ffyrdd newydd o weithio (HYBLYGU / HYBLYG Iawn / Gweithio Hybrid / Oriau Craidd)** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 3 | GWEITHIO'N EFFEITHIOL MEWN PARTNERIAETH |
|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **CW 3.1** | | **Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus a chyflwyno'r adroddiad cynnydd blynyddol cyntaf i'r Awdurdod** | Medi 2021 | Rheolwr Partneriaethau |
| | **Diweddariad Ch. 1+2** | ➢ **Cyflwynwyd yr Adroddiad Cynnydd Blynyddol Cyntaf i'r Awdurdod ym mis Mai 2022.**<br>➢ **Mae gweithredu Cynllun Eryri yn parhau'n gyflym ac yn cael ei adrodd gan y Partneriaid yng nghyfarfodydd chwarterol Fforwm Eryri..** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 3.2** | Diweddariad Ch. 1+2 | **Cefnogi gwaith y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol (NDLP) yng Nghymru**<br><br>**Mae'r bartneriaeth yn cyfarfod yn rheolaidd, a datblygir rhaglenni gwaith a gefnogir trwy'r TCLIC i fod yn thematig a strategol ar draws y teulu o dirweddau dynodedig. Mae trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer seminar yng ngwanwyn 2023.** | Parhaus | PW |
| | Ch. 3 | | | |
| | Qtr. 4 | | | |
| **CW 3.3** | Diweddariad Ch. 1+2 | **Parhau i gefnogi gwaith Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ledled y DU, y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol, Sefydliad Parciau Cenedlaethol a mentrau cydweithredol cysylltiedig eraill**<br><br>**Mae'r cynllun busnes mabwysiedig ar gyfer y 3 blynedd nesaf bellach yn cael ei weithredu gan Bartneriaeth y Parc Cenedlaethol gyda noddwyr masnachol pellach i'w cyhoeddi. Mae'r Sefydliad yn derbyn rhoddion a gynigir i'r APCau yn unol ag amcanion elusennol y sefydliad. Cynhelir cynhadledd NPUK yn Exmoor ddiwedd mis Medi gyda dirprwyaeth o bedwar wedi'u henwebu i fynychu o Eryri. Mae'r Awdurdod wedi darparu cymorth ariannol ar gyfer rhaglen sefydlu aelodau NPUK, sy'n cael ei chynnal gan Northumberland, yn anffodus ni fydd unrhyw aelod o Eryri yn mynychu.** | Parhaus | PW |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **CW 3.4** | Diweddariad Ch. 1+2 | **Cyfrannu at ffurfio a datblygu swyddogaeth cynllunio Cyd Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru**<br><br>**Mae trafodaethau cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod cyfarfodydd Grŵp Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru wedi canolbwyntio ar egwyddorion ac amserlen. Mae cyllideb y CBC wedi'i phennu ar gyfer 2022-23 a bydd cyllideb 2023-24 yn cael ei phennu dros y misoedd nesaf. Y prif gynnydd dros y misoedd nesaf fydd cadarnhad o strwythur staffio'r CBC** | Parhaus | Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 4 | MODERNEIDDIO TREFNIADAU LLYWODRAETHU |
|---|---|---|

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 4.1** | Diweddariad Ch. 1+2 | **Gweithredu canlyniadau Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu fel sydd wedi'u cymeradwyo gan yr Awdurdod**<br>**Ar y gweill. Mae Rheoliadau Statudol Diwygiedig, Contractau, wedi'u trafod gan swyddogion, bydd drafftiau terfynol yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau i'w cymeradwyo yn ystod cyfarfod yr Awdurdod ym mis Tachwedd.** | Parhaus Mawrth 2023 | Cyf. Gwas. Corfforaethol |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **CW 4.2** | Diweddariad Ch. 1+2 | **Sefydlu rhaglen mentora ar gyfer Aelodau'r Awdurdod**<br>**Mae sesiwn Ymsefydlu / Anwytho newydd i Aelodau wedi'i chynnal lle nododd aelodau eu bod yn ymgartrefu'n dda. Bydd holiadur yn cael ei ddosbarthu i ganfod pa aelodau newydd sydd angen mentor i gynorthwyo ymhellach i setlo i mewn.** | Parhaus 2022-23 | Cyf. Gwas. Corfforaethol |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **CW 4.3** | Diweddariad Ch. 1+2 | **Cefnogi a datblygu Aelodau'r Awdurdod drwy sefydlu rhaglen hyfforddiant a datblygu**<br>**Bydd papur trafod yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Gweithgor maes o law** | Parhaus 2022-23 | Cyf. Gwas. Corfforaethol |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **CW 4.4** | Ch. 1+2 | **Gosod peiriannau System Gwybodaeth newydd**<br>**Gweinyddwyr systemau gwybodaeth wedi'u gosod ac yn fyw.**<br>**CWBLHAWYD** | Mehefin/ Gorffennaf 2022 | Pen. SG |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 5 | CYNNAL A GWELLA DEALLTWRIAETH A CHEFNOGAETTH CYMUNEDAU LLEOL I WAITH Y PARC CENEDLAETHOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 5.1** | | **Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli pellach yn Yr Ysgwrn i wella'r garfan bresennol o wirfoddolwyr, gan geisio recriwtio pobl ifanc sy'n awyddus i ddatblygu sgiliau newydd ac ennill profiad, gan ganolbwyntio ar ddarparu gweithgareddau gan wirfoddolwyr yn ogystal â rolau mwy traddodiadol fel tywyswyr ymwelwyr.** | Parhaus | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol + Rheolwr Profiadau Ymwelwyr (pan wedi'i apwyntio) |
| | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Mae Covid wedi cael effaith andwyol ar nifer y gwirfoddolwyr yn Yr Ysgwrn, ond mae nifer fach o wirfoddolwyr wedi cael eu cyflogi yn 2022 ac mae nifer o wirfoddolwyr presennol wedi dychwelyd i'r safle. Bydd rôl newydd y Swyddog Addysg a Gwirfoddoli yn ymwneud yn benodol â hyn.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **CW 5.2** | | **Pan gaiff ei mabwysiadu, gweithredu'r mesurau yn y Strategaeth Ymgysylltu i sicrhau bod cymunedau lleol yn deall ac yn ymwybodol o waith yr Awdurdod** | Parhaus | Pen. Ymgysylltu |
| | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Gwaith yn mynd rhagddo i gyfleu negeseuon trwy gyfryngau cymdeithasol a thrwy gyfrwng y wasg draddodiadol a lleol a chenedlaethol.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 5.3** | Diweddariad Ch. 1+2 | **Parhau i ymgysylltu â chymunedau lleol ar agweddau o Astudiaeth Rheoli Traffig Ardal yr Wyddfa**<br>➢ **Cynhaliwyd sesiwn diweddaru ffurfiol ar-lein ym mis Chwefror 2022 a oedd yn agored i bawb ac a fynychwyd gan tua 60 o bobl. Mae cofnod o hyn ar gael ar wefan Partneriaeth Yr Wyddfa ynghyd â'r holl ddiweddariadau pellach.**<br>➢ **Dosberthir diweddariadau yn rheolaidd trwy gylchlythyr Partneriaeth Yr Wyddfa.**<br>➢ **Gwaith ymgysylltu penodol yn cael ei arwain gan TrC (Mott MacDonald) ynghylch cwmpasu 2 lwybr Teithio Llesol yng Nghamau 1 a 2 WelTag.**<br>➢ **Mae prosiectau ymgysylltu cymunedol wedi digwydd yn Nantgwynant a Bethesda, mae ymgysylltu yn elfen barhaus a chraidd o'r prosiect cyffredinol.** | Parhaus Mawrth 2023 | Rheolwr Partneriaethau Swyddog Part. Yr Wyddfa |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **CW 5.4** | Diweddariad Ch. 1+2 | **Ymgysylltu â chymunedau a'u hysbysu trwy gyfarfodydd â Chynghorau Cymuned**<br>**Mae dau gyfarfod nos ar-lein trwy Zoom wedi'u trefnu ar gyfer 25 a 27 Hydref. Mae'r agenda yn cynnwys cyflwyniadau a diweddariadau ar waith Partneriaeth y Carneddau, CRhC Dinas Mawddwy, Prosiect Harlech a Dyffryn Ardudwy, yn ogystal â sesiwn holi ac ateb i roi cyfle i gyfranogwyr ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau ar unrhyw faterion eraill o ddiddordeb.** | O leiaf 1 cyfarfod blynyddol | Pennaeth Gwas. Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| | Ch. 3 | | | |
| **CW 5.5** | Ch. 1+2 | **Adfer cyswllt â pherchnogion tir a phartïon â diddordeb trwy gyfarfodydd Fforymau Mynediad Parc Cenedlaethol Eryri**<br>**Cynhaliwyd cyfarfodydd Fforwm Mynediad Lleol gogledd a de ar-lein ym mis Mawrth, a chyfarfodydd wyneb yn wyneb ym mis Mehefin a mis Medi.** | Parhaus Mawrth 2023 | Rheolwr Mynediad a Llesiant |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 5.6** | **Cyfarfod Blynyddol** | **Parhau i gysylltu â'r gymuned ffermio ac undebau ffermio trwy gyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Amaethyddol**<br>**Cyfarfod Blynyddol y Grŵp Cyswllt Amaeth wedi'i drefnu i'w gynnal ym mis Tachwedd 2022** | Cyfarfod Blynyddol Tachwedd | Pennaeth CCA |
| **CW 5.7** | **Diweddariad Ch. 1+2** | **Cynnwys ein cymunedau lleol ym mhob agwedd bwysig o waith yr Awdurdod e.e. cyflwyno Cynllun Eryri, llunio Canllawiau Cynllunio Atodol, Strategaethau Ymgysylltu wrth ddatblygu prosiectau newydd ayb.**<br>**Mae disgrifiad swydd ar gyfer Swyddog Ymgysylltu Cymunedol wedi'i ddrafftio, rydym yn gobeithio y byddwn yn recriwtio yn ystod hydref 2022.** | Parhaus | Rheolwr Partneriaethau<br>Rheolwr Cynllunio<br>Swyddogion Prosiect |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

## CANLYNIADAU

**FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**CW1, 2:** Rydym wedi buddsoddi yn ein staff i sicrhau bod ganddynt yr arbenigedd a'r sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â heriau presennol ac yn y dyfodol.

**CW2, 3:** Mae Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.

**CW2, 4:** Rydym wedi cynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu presennol i sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i weithredu'n effeithiol ac y bydd yn ddigon addasadwy i gwrdd â heriau yn y dyfodol. Monitro unrhyw newidiadau i sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad.

**CW5:** Mae cyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a difreintiedig i ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a dysgu amdano, a sut y gallant helpu i ofalu amdano wedi cael eu nodi. ***(yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.1)***

**CW5:** Rydym wedi cefnogi, hyrwyddo a darparu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n helpu i amddiffyn a gwella'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol (***yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.2***)

**CW5:** Byddwn yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer deialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol (***yn unol â Chynllun Eryri Allbwn C4.1)***

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

## LLYTHYR CYLCH GWAITH, LLYWODRAETH CYMRU: YR AMGYLCHEDD

| Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE | Prosiect/ Gwaith APCE |
|---|---|
| Cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu economi ddi-garbon drwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 drwy'ch gwaith bob dydd ac amrywiaeth o ymyriadau datgarboneiddio | AC 2.1. AC 2.2 AC 2.3 AC 2.4 |
| Caefnogi'r symudiad oddi wrth geir preifat i drafnidiaeth fwy cynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau staff, ymwelwyr a defnyddwyr y gwasanaeth er mwyn cyrraedd y targed o 45% o deithiau'n defnyddio dulliau cynaliadwy erbyn 2040 | CC 3.3<br>CW 2.3 |
| Rhoi help rhagweithiol i ddal a storio carbon gan gynnwys drwy helpu i greu coetiroedd lle bo hynny'n briodol a chefnogi'n not o gryfhau'r mesurau i ddiogelu coetiroedd hynafol, a chynyddu'r cysylltiad â rhaglen y Goedwig Genedlaethol | AC 5.5 (PAWS) |
| Cymryd camau i wella cysylltedd, cyflwr, maint ac amrywiaeth ecosystemau, a chynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth, gan ymgorffori'r gwaith sydd ei angen i daro'r targedau cenedlaethol sy'n deillio o'r ymrwymiad 30x30 | AC 5.1 - AC 5.5 |
| Cefnogi'r rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawnogydd (NPAP) i adfer, gwella a chynnal rhwydweithiau ecolegol cydnerth, myned i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a rheoli dŵr. Dylech weithio gyda CNC i daclo themâu'r NPAP, gan gynnwys y camau blaenoriaeth a'r themâu trawsbynciol | AC 2.4 AC 5.1 AC 5.4 |
| Cefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu cynllun â thargedau i helpu i adfer cynefinoedd morwellt a morfeydd heli ar hyd ein harfordir, helpu i wireddu uchelgeisiau Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chyfrannu at ddatblygu polisi ar garbon glas | AC 5.1 |
| Cronfa gyfalaf tirweddau cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy, a chynllluniau eraill Llywodraeth Cymru i gyflawni nodau natur a datgarboneiddio | CW 3.2 |
| Cymryd rhan weithredol mewn Cynlluniau Ynni Lleol i helpu i drawsnewid y system ynni sydd ei hangen i gyrraedd Sero Net, gan sicrhau mwy o fanteisio i'ch cymunedau | |
| Cymryd rhan gadarnhaol mewn mentrau i hyrwyddo ailddefnyddio a thrwsio, i gynyddu'r economi gylchol, a lleihau'r niwed a achosir i'r amgylchedd gan blastig untro drwy annog pobl i beidio â'i ddefnyddio lle gellir | AC 1.10 |

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: POBL A LLEOEDD

| **Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE** | **Prosiect/ Gwaith APCE** |
|---|---|
| Cyfrannu at gyd-lunio'r Cynllun Ffermio cynaliadwy ac at ei roi ar waith | **AC 4.1** |
| Cyfrannu, lle bo'n briodol, at ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu Strategaeth Bwyd Cymunedol i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol | **-** |
| Gweithio gydag Awdurdodau Tai, Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol a datblygwyr preifat, i ddatblygu atebion arloesol i broblemau tai difrifol, a chyfrannu at Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg | **CC 1.4** |
| Gweithio gyda phartneriaid fel Awdurdodau Lleol a Thrafnidiaeth Cymru i gael hyd i ffyrdd i leihau pwysau ymwelwyr ar y seilwaith lleol, gan gynnwys systemau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, ac ymgyrchoedd cyfathrebu i sicrhau hamddena cyfrifol. Rhaid cofio yr un pryd am bwysigrwydd twristiaeth i'n heconomi, a'ch rôl allweddol o ran diwallu anghenion ymwelwyr. Dylech gael eich arwain gan argymhellion a chanfyddiadau'r gwaith diweddar gan Archwilio Cymru ar dwristiaeth gynaliadwy | **AC 1.2 1.4 1.5 1.6 1.9**<br>**CC 3.1 – 3.5** |
| Helpu i ddynodi dyfroedd ymdrochi ar y tir a defnyddio systemau Draenio Cynaliadwy | **-** |
| Bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith Cymru gyfan arfaethedig ar gyfer rhagnodi cymdeithasol | **-** |
| Cydweithio â phartneriaid allweddol i gyflawni yn unol â *Blaenoriaethau ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru* i ddiogelu a dehongli'r amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol | **AC 3.1 – AC 3.9** |
| Datblygu polisïau sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn cael ffynnu, gan gyflawni *Cymraeg 2050: Ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026* | **CC 4.1 – CC 4.7** |
| Cynyddu cyfleoedd i grwpiau agored i niwed, grwpiau difreintiedig a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa ar y tirweddau rydych chi'n eu rheoli | **CC 1.2 1.3** |
| Cynyddu'r hyfforddiant sgiliau, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli. | **CC 1.2 1.3 CC 2.1 2.2**<br>**CW 5.1** |

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: LLYWODRAETHU A CHYNLLUNIO

| **Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE** | **Prosiect/ Gwaith APCE** |
|---|---|
| Cymryd rhan weithredol mewn rhaglen wella chefnogi gan TLlLC o dan arweiniad y sector | - |
| Cyfrannu at lunio pecyn hyfforddi newydd ar gyfer aelodau APCau a datblygu dull cyd gysylltiedig o hyfforddi APCau i rannu arfer gorau | **CW 4** |
| Hyrwyddo protocol newydd awdurdodau Lleol ar gyfer penodi aelodau APCau, cyn, yn ystod ac ar ôl etholiadau lleol, gan bwysleisio profiad a diddordeb uwchlaw ystyriaeth gwleidyddol cyn belled ag y bo modd o fewn y ddeddfwriaeth bresennol | **CW 4** |
| Croesawu'n llawn system flynyddol gryfach ar gyfer adrodd ar berfformiad yr aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru, ac ymchwilio sut i'w hestyn i benodiadau'r Awdurdodau Lleol | **CW 4** |
| Ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth mewn llywodraethu gan gynnwys rhannu arfer gorau rhwng APCau, gwneud y gorau o'r arweinydd Strategol Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu newydd | **CW 4** |
| Cyfrannu at lunio polisi cynllunio lleol a rhanbarthol, gan gynnwys drwy strwythur y Cyd Bwyllgor Corfforedig (CJC) a thrwy gydweithio ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol i roi polisïau Cymru'r Dyfodol ar waith (gan gyfeirio'n benodol at Bolisi 9 a'r gofyn i gynnal rhwydweithiau ecolegol cydnerth a seilwaith gwyrdd) | **CW 3.4** |

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: CYDWEITHIO

| **Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE (a Tirweddau Dynodedig Cymru (TDC))** | **Prosiect/ Gwaith APCE** |
|---|---|
| Cefnogi Tirweddau Cymru (y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol) i ddatblygu ei huchelgais, sicrhau bod cydweithio'n digwydd ar bob lefel o fewn APCau ac AHNE a helpu i greu gweledigaeth strategol ar gyfer gweithredu ar gyfer 2022-24 | **CW 3.2 CW 3.3** |
| Rhoi cytundeb teiran trawsnewidiol rhwng yr APCau ar waith i gynnal tîm o Gydgysylltwyr Tirweddau Strategol a ariennir gan Lywodraeth Cymru i weithio ar draws ein Parciau a'n AHNE, a sicrhau bod amcanion ac allbynnau'r swyddi hyn yn cael eu cynnwys o fewn trefniadau monitro ehangach yr APCau a TDC:<br>i. **Arweinydd Strategol Adfer Natur a Dal a Storio Carbon,** i ymdrin â'r holl goetiroedd a chynefinoedd heb eu gwella a'u bioamrywiaeth, gan gynnwys rhywogaethau goresgynnol, a chyfleoedd i leihau allyriadau carbon<br>ii. **Arweinydd Strategol Adfer, Natur a Rheoli Maetholion**, i ymdrin â rheoli pridd cynhyrchu, problemau i afonydd a'r môr oherwydd gwaith ar y tir, ewtroffigedd yn llynnoedd yr ucheldir, bioddiogelu dŵr rhag dŵr ffo amaethyddol, a chefnogi datblygiad byrddau Rheoli Maetholion.<br>Bydd y ddwy swydd yn helpu i:<br>• Ddatblygu cynllun strategol i ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd;<br>• Cefnogi datblygu ffyrdd i Dirweddau Dynodedig allu addasu i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd;<br>• Nodi sut y gall Tirweddau Dynodedig ddatblygu partneriaethau newydd a chefnogi blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, a nodi ffrydiau ariannu arloesol.<br>iii. **Arweinydd Strategol Rhagoriaeth Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu** i weithio ar draws yr holl APCau, gyda'i, swyddfa yn un ohonynt. Agwedd allweddol ar ei waith fydd cymryd camau beiddgar i wella amrywiaeth a chydraddoldeb – ar Fyrddau, yn eich proffil staffio a'ch ymwelwyr a chefnogi APCau i fodloni'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a chynyddu'u cyfraniad at daclo tlodi plant a gwledig. | **AC 2.5** |
| Rhannu profiad ac arfer gorau wrth i'r broses o greu Parc Cenedlaethol newydd fynd rhagddo | - |

**EITEM RHIF 8**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 30 Tachwedd 2022 |
| **TEITL** | **CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a'r Pennaeth Adnoddau Dynol |
| **PWRPAS** | Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021-22 |

## 1. CEFNDIR

1.1 Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 ddyletswydd gyffredinol newydd ar y sector gyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Yn ychwanegol at y ddyletswydd gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dyletswyddau penodol ar gyfer yr awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r dyletswyddau penodol hyn wedi'u hamlinellu yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

1.2 O dan y dyletswyddau penodol, mae'n rhaid i'r awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru baratoi Adroddiad Blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn.

1.3 Mae'n rhaid i'r adroddiad cydraddoldeb blynyddol nodi'n benodol:

- y camau y mae'r Awdurdod wedi'u cymryd i bennu a chasglu'r wybodaeth berthnasol;
- sut mae'r Awdurdod wedi defnyddio'r wybodaeth hon wrth ddiwallu tri nod y ddyletswydd gyffredinol;
- y cynnydd tuag at gyflawni pob un o amcanion cydraddoldeb yr Awdurdod; a
- gwybodaeth benodol am gyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a thâl.

1.4 Mae'r adroddiad blynyddol sydd ynghlwm yn nodi cynnydd yr Awdurdod yn ystod 2021-22 i ddiwallu'r dyletswyddau ychwanegol hyn yng Nghymru.

## 2. ARGYMHELLIAD

**2.1 Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021-22 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

## 3. PAPURAU CEFNDIR

3.1 Cynllun Cydraddoldeb Strategol: Adroddiad Blynyddol 2021-22

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

# Adroddiad Blynyddol 2021-22

**Cynnwys**


1. Cyflwyniad
2. Adnabod a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol
3. Defnyddio'r Wybodaeth i gwrdd â'r Dyletswyddau Cyffredinol a'r rhai Penodol i Gymru
4. Beth a Gyflawnwyd
5. Hyfforddiant
6. Asesu Effaith Cydraddoldeb
7. Gwybodaeth Cyflogaeth

# 1. Cyflwyniad

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi cyflwyno dyletswydd gyffredinol ar y sector cyhoeddus. Mae’n ofynnol ar awdurdodau cyhoeddus i roi sylw dyledus i’r angen i:

1. Gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y ddeddf.
2. Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ymysg pobl sy’n meddu ar un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydynt.
3. Meithrin perthynas dda ymysg pobl sy’n meddu ar un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydynt.

**Pwy a ddiogelir o dan y Ddeddf?**

Mae'r ddeddf yn cyflwyno rhestr o nodweddion sydd i'w diogelu sy’n disodli amryw agweddau cydraddoldeb. Mae'r carfanau hynny i'w diogelu trwy gyfrwng dyletswydd gyffredinol a dyletswyddau penodol y Ddeddf.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ymwneud â'r nodweddion isod:

- Oedran
- Newid rhyw
- Rhyw
- Tras – gan gynnwys tarddiad ethnig / cenedlaethol, lliw a chenedl
- Anableddau
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Tueddfryd rhywiol
- Crefydd neu gred

Mae'n ymwneud â phriodasau a phartneriaethau sifil hefyd, ond dim ond ynglŷn â rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i gael gwared ar anffafriaeth.

**Dyletswyddau Penodol**

Yn ychwanegol i’r ddyletswydd gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dyletswyddau penodol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Mae’r dyletswyddau penodol hyn wedi cael eu hamlinellu yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau 2011.

Mae’r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn ymdrin â:

- Amcanion
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltu
- Asesu effaith
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Gwybodaeth am gyflogaeth
- Gwahaniaethau tâl

- Hyfforddiant staff
- Caffael
- Adrodd blynyddol
- Cyhoeddi
- Adroddiad Gweinidog Cymru
- Adolygu
- Hygyrchedd

Fe ddaeth y ddyletswydd gyffredinol yn ogystal â'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru i rym ar 6 Ebrill 2011. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi gwybod am y cynnydd a wnaeth yr Awdurdod o ran cydymffurfio â'r gofynion statudol hyn.

Roedd disgwyl i Gynllun Cydraddoldeb Strategol newydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer y cyfnod 2020-24 gael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan yr Awdurdod ar 25ain o Fawrth 2020, ond roedd y llwyrglo cenedlaethol yn golygu bod yn rhaid i'r Awdurdod ganolbwyntio ei ymdrechion ar alluogi mwyafrif y staff i weithio gartref ar yr adeg honno, gan gefnogi staff allanol ar yr un pryd i gynorthwyo awdurdodau lleol i gydymffurfio â'r rheoliadau 'aros gartref' ar gyfer y cyhoedd.

Roedd yr oedi'n golygu na chafodd y Cynllun ei fabwysiadu'n ffurfiol gan Bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau'r Awdurdod tan y 15fed o Orffennaf 2020.

## 2. Adnabod a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol

Gwybodaeth Ystadegol

Mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi data cyfrifiad 2011 ar gyfer trigolion y Parc Cenedlaethol ers tro ar ei wefan. Mae data ar gyfer y boblogaeth amcangyfrifedig o 25,702 wedi'i rannu'n gategorïau amrywiol gan gynnwys proffiliau wardiau, gweithgaredd economaidd, statws tai, statws teuluol a sgiliau iaith Gymraeg. Mae data'r cyfrifiad yn rhoi darlun o fywyd o fewn cymunedau unigol o fewn y Parc Cenedlaethol yn ogystal â darparu gwybodaeth leol werthfawr. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw data'r cyfrifiad yn gallu darparu gwybodaeth am yr holl nodweddion gwarchodedig.

Ni ryddhawyd canfyddiadau cychwynnol Cyfrifiad 2021 cyn diwedd blwyddyn ariannol 2021-22 fel y cynlluniwyd yn wreiddiol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Ni ryddhawyd y set gyntaf o amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd wedi'u talgrynnu fesul awdurdod lleol tan fis Mehefin 2022.

Er bod cyfanswm poblogaeth Cymru gyfan wedi cynyddu 44,000 (1.4%) i 3,107,500, gostyngodd poblogaeth Gwynedd a Chonwy. Yng Ngwynedd, gostyngodd maint y boblogaeth 3.7% o tua 121,900 yn 2011 i 117,400 yn 2021, ac yng Nghonwy, gostyngodd maint y boblogaeth 0.4, o tua 115,200 yn 2011 i 114,800 yn 2021. Hyd nes y rhyddheir setiau data manylach sy'n dangos ffigurau poblogaeth fesul ardal ward, nid yw'n bosibl cael union ffigurau ar gyfer poblogaeth y Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd.

Mae'r SYG yn bwriadu rhyddhau crynodebau pwnc rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2022. Bydd crynodebau pwnc yn cael eu cyhoeddi yn y drefn ganlynol:

- Demograffeg a mudo
- Hunaniaeth genedlaethol grwpiau ethnig, iaith a chrefydd
- Cyn-filwyr lluoedd arfog y DU
- Tai
- Y farchnad lafur a theithio i'r gwaith
- Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd
- Addysg
- Iechyd, anabledd a gofal di-dâl

Y gobaith yw y bydd y crynodebau pwnc hyn yn darparu data mwy defnyddiol i alluogi dadansoddiad o'r newidiadau yn y boblogaeth leol dros y 10 mlynedd diwethaf. Yn bwysicach fyth yw cysylltu hyn â'r effaith a gafodd ar gyfle cyfartal, amddifadedd economaidd-gymdeithasol a'r effeithiau ar niferoedd siaradwyr Cymraeg yn ein cymunedau lleol. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd angen i ni aros nes bydd data ar lefel ward ar gyfer yr holl ffactorau unigol hyn yn cael eu rhyddhau, cyn y gellir dod i unrhyw gasgliadau defnyddiol.

Ar y 31ain o Fawrth 2021 daeth y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol i rym yng Nghymru. Nod cyffredinol y ddyletswydd yw sicrhau canlyniadau gwell i'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

I gefnogi gweithrediad y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adroddiad sy'n crynhoi'r dystiolaeth allweddol sy'n ymwneud â sut mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn effeithio ar bobl Cymru. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar sut mae'n effeithio ar y rheini â nodweddion gwarchodedig yn ogystal â chymunedau o le a diddordeb. Mae'n amlygu'r croestoriadedd sy'n allweddol wrth archwilio amddifadedd economaidd-gymdeithasol ac yn crynhoi'r canlyniad o anghydraddoldebau allweddol y mae grwpiau penodol yn eu hwynebu. Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro o dan chwe thema allweddol, sef addysg, gwaith, safonau byw, iechyd, cyfiawnder a chyfranogiad.

Mae'r data hwn yn ffynhonnell ddefnyddiol o dystiolaeth i ni wrth asesu effaith economaidd-gymdeithasol ein penderfyniadau strategol allweddol.

<u>Gwybodaeth ac Ymgysylltu</u>

Wrth i'r amrywiol gyfyngiadau Covid-19 barhau yn eu lle trwy gydol y flwyddyn, parhaodd yr Awdurdod i ddefnyddio amrywiol atebion ar-lein i alluogi cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu uniongyrchol, fel ein prif ddull o gysylltu.

Yn ystod 2021/22, parhaodd yr Awdurdod i ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid lleol trwy amrywiaeth o ddulliau, o ymgynghoriadau ysgrifenedig traddodiadol a holiaduron ar-lein i weminarau a chyfarfodydd a gweithdai ar-lein. Pan roedd y cyfyngiadau'n caniatáu, cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori personol mewn mannau wedi'u diogelu rhag Covid.

Tra bod Fforwm Eryri, y Grŵp Cyswllt Amaethyddol Blynyddol, Fforymau Mynediad Gogledd a De i enwi dim ond rhai, wedi parhau i gael eu cynnal yn rhithiol, mae trafodaethau ar sut i symud ymlaen yn y dyfodol wedi dechrau. Yr hyn sydd wedi dod yn amlwg yw bod llawer yn gweld manteision mawr i gynnal cyfarfodydd ar-lein ac yn dymuno parhau, tra bod eraill yn gweld anfanteision o beidio â chyfarfod yn bersonol a dymuniad i ailddechrau cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Yn ystod y flwyddyn i ddod bydd rhai cyfarfodydd personol yn ailddechrau, bydd rhai cyfarfodydd yn defnyddio datrysiadau hybrid tra bydd rhai yn aros yn gyfan gwbl ar-lein.

Y tu allan i'r ymgynghoriadau uniongyrchol arferol ar fusnes yr Awdurdod sydd wedi'u cynnal eleni, mae ymgysylltu ac ymgynghori hefyd wedi digwydd gyda chymunedau lleol i alluogi i wybodaeth gael ei rhannu ac i roi cyfle i bobl roi eu barn ar yr heriau niferus mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'r cymunedau wedi wynebu oherwydd y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr.

## 3. Defnyddio'r Wybodaeth i gwrdd â'r Dyletswyddau Cyffredinol a'r rhai Penodol i Gymru

Er bod pob partner wedi ymrwymo i'r 7 amcan lefel uchaf, mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru wedi cytuno y dylai pawb gael yr hyblygrwydd i ddewis cyfrannu tuag at y meysydd gweithredu sy'n faes blaenoriaeth iddynt hwy yn unig ac sy'n seiliedig ar y gwasanaeth a ddarperir ganddynt.

Y 7 Amcan Cydraddoldeb ar gyfer Gogledd Cymru a fabwysiadwyd yw:

1. Bydd canlyniadau o ran cyrhaeddiad **addysgol** a llesiant mewn ysgolion yn gwella.
2. Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn **gyflogwr teg** ac yn lleihau unrhyw fylchau mewn cyflogau.
3. Byddwn yn cymryd camau i wella **safonau byw** pobl sydd a gwahanol nodweddion a ddiogelir.
4. Byddwn yn gwella canlyniadau **iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol**.
5. Byddwn yn gwella **diogelwch personol a mynediad at gyfiawnder**.
6. Byddwn yn cynyddu mynediad at **gyfranogiad** er mwyn gwella amrywiaeth ein **penderfyniadau**.
7. Byddwn yn datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r **ddyletswydd gymdeithasol-economaidd** (pan fydd canllawiau ar gael) i nodi'r prif feysydd effaith i fynd i'r afael â hwy o dan y ddyletswydd.

Yn ychwanegol, mae'r Awdurdod hwn gydag Amcan Cydraddoldeb ychwanegol:

8. Byddwn yn gwneud gwaith pellach i sicrhau bod **cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio** i waith yr Awdurdod.

Yn sgil swyddogaeth a dyletswyddau penodol Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ychydig iawn, os unrhyw ddylanwad sydd gennym ar rai o'r amcanion a'r meysydd gweithredu hyn. Fodd bynnag, mae'n bosib gwneud cyfraniadau cadarnhaol trwy gyfrwng meysydd gwaith unigol, a fydd yn cyfrannu tuag at gyflawni canlyniadau ar draws Gogledd Cymru.

## 4. Beth a Gyflawnwyd

**Amcan:** Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn **gyflogwr teg** ac yn lleihau unrhyw fylchau mewn cyflogau.

Meysydd Gweithredu:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Asesu, gwerthuso, monitro a chymryd y camau sydd ar gael i ymateb i'r data ar y bwlch tâl rhyw yn flynyddol. | Bydd y data a gasglwyd yn llywio unrhyw newidiadau i'r Polisi Recriwtio yn y dyfodol. | Rhyw | Pennaeth Adnoddau Dynol |

**Adroddiad Diweddaru 2021/22:**

Sefydlodd data ar gyfer 31.03.2012 y llinell sylfaen a oedd yn seiliedig ar gyfraddau canolrif yr awr, megis:

| | Dynion | Merched | Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Dynion |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llawn Amser** | **£13.61** | **£12.77** | **£12.77** | **Dim** | **Dim** |
| **Rhan Amser** | **£8.00** | **£8.00** | **£8.00** | **Dim** | **Dim** |
| **Holl Staff** | **£12.77** | **£8.72** | **£9.91** | **£1.19** | **£4.05** |

Mae'r data ar gyfer 31.03.2021 wedi'i osod islaw:

| | Dynion | Merched | Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Dynion |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llawn Amser** | **£14.38** | **£14.38** | **£14.38** | **Dim** | **Dim** |
| **Rhan Amser** | **£9.81** | **£10.21** | **£10.21** | **Dim** | **Dim** |
| **Holl Staff** | **£14.38** | **£12.69** | **£12.69** | **Dim** | **£1.69** |

Mae data ar gyfer 31.03.2022 wedi'i osod islaw:

| | Dynion | Merched | Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Dynion |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llawn Amser** | **£16.01** | **£15.53** | **£15.81** | **0.28c** | **0.48c** |
| **Rhan Amser** | **£11.81** | **£11.61** | **£11.65** | **0.04c** | **0.20c** |
| **Holl Staff** | **£15.30** | **£13.67** | **£14.42** | **0.75c** | **£1.63** |

Mae'r ffigurau uchod wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio'r ffigwr CANOLRIF (MEDIAN).

Mae Canllawiau ACAS ar Reoli Adrodd ar Dâl Rhyw yn nodi y gellir gwneud cyfrifiadau gan ddefnyddio dau fath o gyfartaledd:

- Mae cyfartaledd cymedrig yn cynnwys adio'r holl rifau a rhannu'r canlyniad â faint o rifau oedd ar y rhestr.
- Mae cyfartaledd canolrif yn cynnwys rhestru'r holl rifau mewn trefn rifiadol. Os oes odrif o ganlyniadau, y cyfartaledd canolrifol yw'r rhif canol. Os oes eilrif o ganlyniadau, y canolrif fydd cymedr y ddau rif canolog.

Mae defnyddio'r ddau fath gwahanol hyn o gyfartaledd yn ddefnyddiol i roi trosolwg mwy cytbwys o fwlch cyflog cyffredinol cyflogwr:

- Mae cyfartaleddau cymedrig yn ddefnyddiol oherwydd eu bod yn gosod yr un gwerth ar bob rhif y maent yn ei ddefnyddio, gan roi arwydd cyffredinol da o'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, ond gall cyfraddau tâl neu fonysau mawr neu fach iawn dra arglwyddiaethu dros bethau ac ystumio'r ateb. Er enghraifft, gall cyfartaleddau cymedrig fod yn ddefnyddiol mewn sefydliad lle mae mwyafrif helaeth y tâl bonws yn cael ei dderbyn gan nifer fach o aelodau bwrdd.
- Mae cyfartaleddau canolrif yn ddefnyddiol i nodi beth yw'r sefyllfa 'nodweddiadol' h.y. yng nghanol y sefydliad ac nid ydynt yn cael eu hystumio gan gyfraddau tâl mawr neu fach iawn o fonysau. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu na fydd pob mater bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn cael ei godi. Er enghraifft, gallai cyfartaledd canolrif ddangos gwell arwydd o fwlch cyflog 'canol y ffordd' mewn clwb chwaraeon gyda chyfartaledd cymedrig wedi'i ystumio gan chwaraewyr â chyflog uchel iawn ac aelodau bwrdd, ond gallai hefyd fethu â chodi mor effeithiol lle. Mae'r materion bwlch cyflog yn fwyaf amlwg ymhlith y gweithwyr ar y cyflog isaf neu'r cyflog uchaf.

Isod mae'r data a gyfrifir ar gyfartaleddau CYMEDRIG (MEAN)

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31.03.21, y gyfradd gyflog gymedrig fesul awr i bob dyn yw £15.08 a'r gyfradd gyflog gymedrig fesul awr i bob merch yw £13.22. Mae hyn yn rhoi bwlch cyflog o 12.3%.

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31.03.22, y gyfradd gyflog gymedrig fesul awr i bob dyn yw £15.14 a'r gyfradd gyflog gymedrig yr awr i bob merch yw £13.68. Mae hyn yn rhoi bwlch cyflog o 9.6%.

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Cyflwyno polisi a / neu ganllawiau ar weithio hyblyg. | Bydd polisi teg ac effeithiol yn gallu mynd i’r afael ag unrhyw rwystrau mae rhai pobl gyda nodweddion a ddiogelir yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad at ac er mwyn aros yn y gwaith. | Pawb | Pennaeth Adnoddau Dynol |
| **Adroddiad Diweddaru 2021/22**: Mae’r Pennaeth Adnoddau Dynol yn arwain ar adolygiad cyffredinol o arferion a pholisïau gweithio hyblyg yr Awdurdod i gynnwys trefniadau gweithio Hybrid wrth symud ymlaen. Unwaith y bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben gyda'r staff a'r undebau bydd polisi newydd yn cael ei lunio. | | | |
| Mi fyddwn yn cyhoeddi data perthnasol ar gyflogaeth a hyfforddiant mewn taenlen data agored ar ein gwefan yn flynyddol. | Bydd y data yn gallu dangos pa gynnydd a wnaed. Mae taenlen data agored yn galluogi mwy o rwyddineb wrth gymharu â meincnodi gyda chyrff cyhoeddus eraill. | Pawb - fodd bynnag mae data cyflogaeth yn anghyflawn ar gyfer yr holl nodweddion a ddiogelir, a lle maent ar gael, efallai na fyddant yn cael eu cyhoeddi oherwydd y niferoedd bychan. | Pennaeth Adnoddau Dynol & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| **Adroddiad Diweddaru 2021/22**: Cwblhawyd. Crëwyd a chyhoeddwyd taenlen ffynhonnell data agored sy’n cynnwys yr holl ddata cyflogaeth berthnasol ar gyfer 2021/22. | | | |
| Gweithredu rhaglen o hyfforddiant cydraddoldeb. | Asesu’r anghenion hyfforddi a threfnu hyfforddiant fel sy’n briodol. | Pawb | Pennaeth Adnoddau Dynol & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| **Adroddiad Diweddaru 2021/22**: Mae modiwlau hyfforddiant cydraddoldeb ar gael trwy ELMS (System Rheoli Dysgu Electronig), platfform a ddefnyddir ar draws y Parciau Cenedlaethol.<br><br>Gweler manylion pellach o dan Adran 5. | | | |

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Adolygu'r opsiynau ar gyfer ffurflenni cais am swyddi sydd ar gael ar wefan yr Awdurdod, gan sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau hygyrchedd. | Bydd hyn yn sicrhau na fydd unrhyw rwystrau i bobl anabl i ymgeisio am swyddi. | Pobl anabl | Pennaeth Adnoddau Dynol |
| **<u>Adroddiad Diweddaru 2021/22</u>:** Mae'r Awdurdod yn defnyddio system Webrecruit, sy'n galluogi pobl i gyflwyno eu ceisiadau am swyddi yn uniongyrchol ar-lein. Bydd newidiadau a gwelliannau i'r system bresennol yn cael eu rhoi ar waith ym mlwyddyn ariannol 2022/23 i sicrhau bod y system yn cyrraedd safonau hygyrchedd. | | | |
| Cyflwyno polisi a / neu ganllawiau sy'n rhoi cymorth i staff sy'n mynd trwy'r darfyddiad (menopôs). | Cefnogir lles y staff a effeithir arnynt yn uniongyrchol. | Pawb, yn arbennig rhyw | Pennaeth Adnoddau Dynol |
| **<u>Adroddiad Diweddaru 2021/22</u>:** Dim cynnydd wedi'i wneud yn ystod 2021/22 gan fod y swydd Pennaeth Adnoddau Dynol wedi bod yn wag am 12 mis o fis Mehefin 2021. Bydd y Pennaeth Adnoddau Dynol newydd a benodwyd ym mis Mehefin 2022 yn adolygu'r cam gweithredu hwn yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. | | | |
| Cyflwyno polisi a / neu ganllawiau sy'n rhoi cymorth i staff sy'n profi camdriniaeth ddomestig. | Yn cefnogi lles y staff yr effeithir arnynt yn uniongyrchol. | Pawb | Pennaeth Adnoddau Dynol |
| **<u>Adroddiad Diweddaru 2021/22</u>:** Dim cynnydd wedi'i wneud yn ystod 2021/22 gan fod y swydd Pennaeth Adnoddau Dynol wedi bod yn wag am 12 mis o fis Mehefin 2021. Bydd y Pennaeth Adnoddau Dynol newydd a benodwyd ym mis Mehefin 2022 yn adolygu'r cam gweithredu hwn yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. | | | |

**Amcan:** Byddwn yn cymryd camau i wella **safonau byw** pobl sydd a gwahanol nodweddion gwarchodedig.

Maes Gweithredu:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Sicrhau bod Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn cael eu cynnal ar bob polisi, cynllun neu brosiect newydd neu ddiwygiedig, ac y cymerir camau priodol i ymateb i unrhyw effeithiau negyddol a nodir. | Bydd asesiadau effeithiol yn sicrhau fod yr holl bolisïau a chynlluniau yn deg. Bydd asesiadau yn sicrhau fod pob prosiect newydd yn rhoi ystyriaeth i faterion hygyrchedd o'r cychwyn cyntaf. | Pawb | Penaethiaid Gwasanaeth, Rheolwyr Prosiectau a Swyddogion sy'n arwain. |
| **Adroddiad Diweddaru 2021/22:**<br>Mae'r holl Strategaethau, Cynlluniau a Pholisïau newydd neu ddiwygiedig wedi cael Sgriniad Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn ystod 2020/21. Mae asesiadau llawn wedi'u cynnal ar yr holl Strategaethau, Cynlluniau a Pholisïau sydd â'r potensial i gael effaith negyddol ac anghymesur ar bobl â nodweddion gwarchodedig, ac os yw'n briodol mae mesurau lliniaru wedi'u nodi a'u rhoi ar waith. | | | |
| Sicrhau fod pob digwyddiad a gweithgaredd a drefnir gan yr Awdurdod ar gyfer y cyhoedd yn gynhwysol a bod asesiad hygyrchedd wedi cael ei wneud. | Bydd hyn yn sicrhau cyn belled â phosib na fydd unrhyw rwystrau rhag cymryd rhan. | Pawb | Trefnwyr digwyddiadau |
| **Adroddiad Diweddaru 2021/22:**<br>Roedd cyfyngiadau Covid-19 yn dal mewn grym ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn, felly fe olygai mai ychydig iawn o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb sydd wedi digwydd. O'r llond llaw o ddigwyddiadau allanol (e.e., teithiau cerdded, ioga mewn coetir ac ati) cawsant eu hasesu'n llawn ar gyfer hygyrchedd ar yr un pryd ag y cynhaliwyd yr asesiad risg cynhwysfawr, er mwyn sicrhau bod yr holl gyfranogwyr a oedd am gymryd rhan yn gallu gwneud hynny'n ddiogel.<br><br>Roedd digwyddiadau cyhoeddus ar-lein yn cynnwys cyfleusterau cyfieithu i alluogi pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg i gymryd rhan yn llawn a deall cyfraniad pawb.<br><br>Mae'r holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd a hyrwyddo, gwahoddiadau ac ati yn gwbl ddwyieithog bob amser. | | | |

<table>
<tr><th>Prosiect / Menter / Gweithred</th><th>Sut mae hyn yn cyfrannu?</th><th>Nodweddion a Ddiogelir</th><th>Swyddog Arweiniol</th></tr>
<tr><td>Cynyddu’r cyflenwad o dai fforddiadwy trwy bolisïau effeithiol yng NghDLl Eryri a'r Canllaw Cynllunio Atodol ar Dai Fforddiadwy.</td><td>Mae argaeledd tai fforddiadwy yn bwysig i gefnogi'r gymuned leol.</td><td>Pawb</td><td>Cyfarwyddwr Cynllunio & Rheolwr Cynllunio</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Adroddiad Diweddaru 2021/22</u>:<br>Mabwysiadwyd Canllaw Cynllunio Atodol yr Awdurdod ar Dai Fforddiadwy gan y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ar 22ain o Ionawr 2020. Cyhoeddwyd dogfen ganllaw cynllunio atodol ddiwygiedig, ‘Cynllunio a’r Iaith Gymraeg’ ar wefan yr Awdurdod yn ystod Gorffennaf 2021.<br><br>Yn ystod 2021/22, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 1 tŷ fforddiadwy newydd.</td></tr>
<tr><td>Sicrhau mewnbwn gan gynrychiolwyr o grwpiau sydd â nodweddion a ddiogelir yn gynnar yn y broses, wrth ddylunio adeiladau newydd neu adnewyddu adeiladau presennol.</td><td>Sicrhau fod adeiladau’r Awdurdod yn hygyrch i bawb.</td><td>Pobl Anabl</td><td>Pennaeth Eiddo a Phenaethiaid Gwasanaeth perthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Adroddiad Diweddaru 2021/22</u>:<br>Nid godwyd unrhyw adeiladau newydd ac ni wnaed unrhyw waith adnewyddu sylweddol ar unrhyw adeiladau’r Awdurdod yn ystod 2021-22.</td></tr>
</table>

**Amcan**: Byddwn yn gwella canlyniadau **iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol**.

Maes Gweithredu:

<table>
<tr><th>Prosiect / Menter / Gweithred</th><th>Sut mae hyn yn cyfrannu?</th><th>Nodweddion a Ddiogelir</th><th>Swyddog Arweiniol</th></tr>
<tr><td>Sicrhau fod y grŵp Iechyd a Lles Staff sydd wedi ei sefydlu yn ddiweddar, yn cyflawni gweithrediadau / newidiadau cadarnhaol i gefnogi staff.</td><td>Bydd gweithrediadau cadarnhaol yn cefnogi iechyd a llesiant staff.</td><td>Pawb</td><td>Pennaeth Adnoddau Dynol</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Adroddiad Diweddaru 2021/22</u>:<br>Gwnaethpwyd penderfyniad i sefydlu’r grŵp hwn yn gynnar yn 2020, ond oherwydd pandemig Covid-19 ni chyfarfu’r grŵp byth yn ffurfiol, wrth i flaenoriaethau eraill gymryd drosodd. Ni wnaed unrhyw gynnydd yn ystod 2021/22 gan fod y swydd Pennaeth Adnoddau Dynol sy’n swydd llawn amser wedi bod yn wag ers 12 mis o fis Mehefin 2021. Bydd y Pennaeth Adnoddau Dynol newydd a benodwyd ym mis Mehefin 2022 yn adolygu'r cam gweithredu hwn yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23.</td></tr>
<tr><td>Fel rhan o’r gwaith o gyflawni’r canlyniadau a adnabyddir o fewn Cynllun Eryri; i weithio gydag amryw o bartneriaid a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i dreialu o leiaf 1 cynllun rhagnodi cymdeithasol.</td><td>Mi fydd cynllun rhagnodi cymdeithasol yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar y cyfranogwyr.</td><td>Pawb, ond pobl anabl yn benodol.</td><td>Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun.</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Adroddiad Diweddaru 2021/22</u>:<br>Dyddiau Mercher Llesiant: Prosiect peilot oedd hwn i gynnig cyfle i’r cyhoedd archwilio’r buddion lles y mae gweithgareddau fel ioga a cherdded gyda thywysydd myfyrdodau yn eu cynnig pan gaiff ei wneud yn yr awyr agored. Roedd y sesiynau ar gael i unrhyw un am ddim. Mae'r digwyddiadau hyn yn cael eu hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol, a thrwy feddygfeydd meddygon teulu gyda'n cysylltiadau trwy'r is-grŵp Iechyd Gwyrdd a drefnir gan BIBC. Yr unig gost o gynnal y gweithgareddau hyn oedd talu'r hwyluswyr.<br><br>Bu'r peilot yn llwyddiannus, a bydd y cynllun yn cael ei ddatblygu ymhellach dros y flwyddyn i ddod.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Prosiect / Menter / Gweithred</th><th>Sut mae hyn yn cyfrannu?</th><th>Nodweddion a Ddiogelir</th><th>Swyddog Arweiniol</th></tr>
<tr><td>Fel rhan o’r gwaith i gyflawni’r canlyniadau a adnabyddir o fewn Cynllun Eryri; hyrwyddo a galluogi amryw o weithgareddau gan gynnwys cyfleoedd gwirfoddoli, a fydd yn gwella llesiant pobl.</td><td>Bydd cynyddu'r cyfleoedd ar gael a’u hyrwyddo’n eang, yn rhoi fwy o gyfleoedd i drigolion y Parc Cenedlaethol i wella eu hiechyd a’u llesiant.</td><td>Pawb</td><td>Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun.</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Adroddiad Diweddaru 2021/22</u>:<br>Mae rhaglenni gwirfoddoli amrywiol yr Awdurdod yn parhau i dyfu. Yn ystod y flwyddyn, bu 73 o wirfoddolwyr Caru Eryri yn gweithio 134 o ddiwrnodau gwirfoddol tra bu 32 o Wardeniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa yn gweithio 284 o ddiwrnodau gwirfoddol. Yn ogystal, roedd gan Bartneriaeth Tirweddau’r Carneddau dros 176 o wirfoddolwyr unigryw yn cymryd rhan mewn dros 210 o ddiwrnodau gwirfoddoli, ynghyd â 26 o ddigwyddiadau personol, 26 o drafodaethau ar-lein a 6 diwrnod ymgysylltu ag ysgolion lleol.<br><br>Yn ystod haf 2021, cynhaliwyd cwpl o ddiwrnodau gwirfoddoli ar gyfer grwpiau Dug Caeredin drwy’r Cyngor Astudiaethau Maes (CAM). Roedd hyn yn cynnwys grŵp o 11 o fyfyrwyr a ddaeth i helpu i dynnu Jac y Neidiwr ar safle ger afon Glaslyn yn Llanfrothen, a 22 o fyfyrwyr eraill a gliriodd y coetir o goed celyn ifanc yng Nghoed Hafod, Llanrwst. Trwy weithio gyda CAM, y gobaith yw y gellir datblygu nifer y diwrnodau cadwraeth gwirfoddolwyr ymhellach dros y blynyddoedd i ddod.<br><br>Mae'r Awdurdod hefyd yn weithgar iawn yn cynnal Digwyddiadau Gwirfoddoli Corfforaethol, sydd dros y flwyddyn wedi cynnwys diwrnodau yn gwirfoddoli i blannu coed, cael gwared ar lasbrennau conwydd a rheoli rhywogaethau ymledol. Mae hwn yn faes gwaith cynyddol a fydd yn cael ei ddatblygu ymhellach dros y flwyddyn i ddod.</td></tr>
<tr><td>Fel rhan o’r gwaith i gyflawni’r canlyniadau a nodir yng Nghynllun Eryri; creu cynllun a chanolbwyntio adnoddau ar hyrwyddo, datblygu a chynnal llwybrau pellter hir sydd wedi’u ddiffinio’n glir, llwybrau hygyrch, llwybrau aml-</td><td>Mae rhwydwaith o lwybrau sydd wedi eu cynnal a chadw’n dda ar draws y Parc Cenedlaethol, gyda’u haddasrwydd yn hawdd i’w hadnabod, yn cynyddu’r cyfleoedd i drigolion y Parc Cenedlaethol i wella eu hiechyd a llesiant.</td><td>Pawb</td><td>Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>ddefnydd (yn arbennig llwybrau beicio a llwybrau beicio mynydd), llwybrau a hyrwyddir a llwybrau cyswllt rhwng trefi a phentrefi.</td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Adroddiad Diweddaru 2021/22</u>:<br>Mae Strategaeth Hamdden yr Awdurdod ar ffurf drafft ar hyn o bryd a’r gobaith yw y caiff ei mabwysiadu yn y flwyddyn i ddod. Mae Fforymau Mynediad y Gogledd a’r De ill dau, wedi cael mewnbwn uniongyrchol i ddatblygiad y Strategaeth, sydd ynghyd â Chynlluniau Gwella Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd a Chonwy, yn mynd i ddarparu map ffordd o welliannau dros y blynyddoedd i ddod.<br><br>Mae gwaith hefyd wedi dechrau ar gwmpasu Llwybrau Teithio Llesol / Hamdden ychwanegol mewn partneriaeth â Thrafnidiaeth Cymru. Mae'r gwaith hwn yn rhan o'r Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth sy'n un o strategaethau pwysicaf Partneriaeth Yr Wyddfa.</td></tr>
<tr><td>Fel rhan o’r gwaith i gyflawni’r canlyniadau a nodir yng Nghynllun Eryri; sicrhau bod gwaith Hawliau Tramwy yn cael ei flaenoriaethu’n effeithiol a bod cyfrifoldebau a safonau yn eglur, gyda APCE yn canolbwyntio ei adnoddau ar lwybrau aml-ddefnyddwyr a llwybrau’r ucheldir.</td><td>Bydd rhwydwaith o lwybrau sydd wedi eu cynnal a’u cadw’n dda ar draws y Parc Cenedlaethol, gyda’u haddasrwydd yn hawdd i’w hadnabod, yn cynyddu’r cyfleoedd i drigolion y Parc Cenedlaethol i wella eu hiechyd a’u llesiant.</td><td>Pawb</td><td>Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun.</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Adroddiad Diweddaru 2021/22</u>:<br>Mae gan yr Awdurdod Gytundeb Lefel Gwasanaeth ar waith gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i ddatblygu gyda Chyngor Gwynedd, ond ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd. Mae effeithiau Covid-19 wedi gohirio'r broses derfynol.<br><br>Mae'r gwasanaeth Wardeiniaid yn cynorthwyo gyda'r arolygon GIS ar lwybrau Hawliau Tramwy. Mae Cymdeithas Eryri yn gweithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod i ddarparu rhaglenni cynnal a chadw blynyddol ar Yr Wyddfa, Lôn Gwyrfai a Llwybr Mawddach.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Prosiect / Menter / Gweithred</th><th>Sut mae hyn yn cyfrannu?</th><th>Nodweddion a Ddiogelir</th><th>Swyddog Arweiniol</th></tr>
<tr><td>Fel rhan o’r gwaith o gyflawni’r canlyniadau a nodir yng Nghynllun Eryri; gwella cyfleoedd mynediad ar gyfer pobl anabl a grwpiau sydd wedi’u heithrio o gymdeithas, gan nodi’r rhwystrau rhag cymryd rhan yn gyntaf.</td><td>Unwaith y nodir y rhwystrau, gellir datblygu Cynllun i oroesi’r rhwystrau a chynyddu’r lefelau cyfranogi.</td><td>Pobl anabl a grwpiau sydd wedi’u heithrio’n gymdeithasol.</td><td>Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun.</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Adroddiad Diweddaru 2021/22</u>:<br>Cynnydd cyfyngedig hyd yn hyn. Mae cyfres o fideos addysgiadol ar y gweill i'w datblygu yn y flwyddyn sydd i ddod, a fydd yn hyrwyddo mynediad i lwybrau hygyrch.<br><br>Mae cyfraddau defnydd y 3 cherbyd (dau Tramper ac un beic 4 olwyn) sy'n eiddo i'r Awdurdod yn parhau i gynyddu. Mae cytundeb gyda 1085 Adventures wedi galluogi lleoli un o'r cerbydau yng nghoedwig Beddgelert er mwyn iddyn nhw ei logi. Yn ystod haf 2021, cafodd ei logi cyfanswm o 18 o weithiau, gyda 2 gerbyd Awdurdod arall yn cael eu llogi 10 gwaith.<br><br>Bydd mabwysiadu'r Strategaeth Hamdden newydd yn galluogi cynnydd pellach ar y gwaith hwn.</td></tr>
<tr><td>Fel rhan o’r gwaith i gyflawni’r canlyniadau a nodir yng Nghynllun Eryri; gweithio hefo cymunedau i wella dealltwriaeth o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol.</td><td>Mae cymunedau ar ffin y Parc Cenedlaethol yn enwedig y rhai sy’n anodd eu cyrraedd, yn cael eu nodi a’u cynnwys er mwyn cyflawni amcanion y Parc Cenedlaethol.</td><td>Pawb</td><td>Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun.</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Adroddiad Diweddaru 2021/22</u>:<br>Dathlodd cynllun hynod boblogaidd Llysgenhadon Eryri ei ben-blwydd cyntaf yn 2021. Mae hwn yn gynllun hyfforddi o safon uchel sy’n cynnig achrediad unigryw i unigolion neu fusnesau - ac yn bwriadu addysgu a rhannu negeseuon i warchod y pethau sy’n gwneud Eryri yn eithriadol. Mae’r modiwlau’n cynnwys cyfraniadau gan arbenigwyr o bob rhan o’r rhanbarth, o weithiau celf a llenyddiaeth wreiddiol i destun ffeithiol.<br><br>Ers ei lansio, mae’r cynllun wedi mynd o nerth i nerth gyda dros 600 yn ennill teitl Llysgennad Eryri yn y flwyddyn gyntaf.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="4">Gyda’r bwriad o ehangu ac esblygu’r cynllun, rydym yn cynllunio mwy o fodiwlau newydd ar gyfer 2022 ar Bartneriaeth y Carneddau yn ogystal â modiwl arbennig yn cynorthwyo busnesau llety i leihau plastig untro.</td></tr>
<tr><td>Parhau i hyrwyddo a chynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhagweithiol.</td><td>Codi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd bod pob gwasanaeth ar gael iddynt trwy gyfrwng y Gymraeg.</td><td>Pawb</td><td>Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a’r holl staff.</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Adroddiad Diweddaru 2021/22</u>:<br>Mae 95.7% o staff yr Awdurdod yn ddwyieithog, gan sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn newis iaith y cyhoedd.<br><br>Mae cael canran mor uchel o staff sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg yn galluogi'r Awdurdod i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog. Wedi dweud hynny, y risg fwyaf i'r Awdurdod o hyd yw'r gallu i recriwtio staff â chymwysterau addas sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg i'r lefel ofynnol ar gyfer swyddi gwag. Mae’r mater hwn a rhai o’r camau a gymerwyd eisoes gan yr Awdurdod wedi’u nodi’n fanwl yn Adroddiad Blynyddol Safonau’r Gymraeg ar gyfer 2021/22.<br><br>Mae'r Awdurdod yn parhau i sicrhau bod pob cyfarfod rhithiol, pwyllgor, digwyddiad a gweminar yn gallu cael cyfleusterau cyfieithu llawn yn yr un modd â chyfarfodydd personol blaenorol.<br><br>Mae’r Ysgwrn yn parhau i gynnig cyfleoedd i gymdeithasu drwy’r Gymraeg, drwy wirfoddoli, mynychu digwyddiadau a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Roedd hyn yn cynnwys gweithgareddau rhithiol amrywiol i bobl o bob oed yn ystod pandemig Covid-19.<br><br>Mae’r Ysgwrn wedi comisiynu Cwricwlwm Yr Ysgwrn i’w fabwysiadu yng ngwanwyn 2022 a fydd yn galluogi ysgolion i ddefnyddio’r Ysgwrn i addysgu’r Cwricwlwm i Gymru i blant a phobl ifanc 7-14 oed yn seiliedig ar 6 thema sy’n cwmpasu’r 6 maes dysgu.<br><br>Mae'r iaith Gymraeg a hyrwyddo'r diwylliant Cymreig yn rhan annatod o brosiectau a rhaglenni ymgysylltu Menter Treftadaeth Treflun Dolgellau, Partneriaeth Tirwedd y Carneddau a chynllun Harlech ac Ardudwy.<br><br>Mae gwirfoddolwyr Yr Wyddfa yn cael eu paru yn ôl gallu ieithyddol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gallu ymarfer eu sgiliau iaith. Mae'r Ysgwrn yn ymgysylltu â dysgwyr Cymraeg i gymryd rhan mewn gweithgareddau safle gan gynnwys gwirfoddoli.<br><br>Mae'r holl weithgareddau hyn yn sicrhau bod y Gymraeg yn amlwg yng ngwaith bob dydd yr Awdurdod. Rydym bob amser wedi gweithio ar y sail bod gwasanaethau Cymraeg bob amser ar gael heb orfod gofyn amdanynt.</td></tr>
</table>

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Diweddaru ‘Canllawiau ar gyfer Digwyddiadau Cystadleuol, Hamdden ac Elusennol’, gan gynnwys cyngor, cyfarwyddwyd a defnydd o’r iaith Gymraeg mewn digwyddiadau. | Trwy godi ymwybyddiaeth bod yr iaith Gymraeg yn rhan bwysig o’r diwylliant a gwead yr ardal, a thrwy annog trefnwyr digwyddiadau i ymgorffori deunyddiau dwyieithog a.y.b., mi fydd hyn yn helpu i feithrin perthynas dda rhwng trigolion ac ymwelwyr. | Pawb, yn enwedig siaradwyr Cymraeg. | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a’r Rheolwr Mynediad a Lles. |
| **<u>Adroddiad Diweddaru 2021/22</u>:**<br>Yn ystod 2021 datblygodd yr Awdurdod gynllun cofrestru digwyddiadau peilot. Bydd y wybodaeth hon yn ein galluogi i annog trefnwyr digwyddiadau i ystyried lledaenu eu gweithgareddau, yn enwedig ar yr Wyddfa ar draws y tymor. Bydd hwn hefyd yn gyfle i ni rannu’r negeseuon cywir ymlaen llaw â’r trefnwyr hynny yn enwedig ar y defnydd o’r Gymraeg yn eu digwyddiadau, yn ogystal â negeseuon am ddiogelwch mynydd, trafnidiaeth gynaliadwy a rheoli gwastraff a sbwriel. | | | |

**<u>Amcan</u>:** Byddwn yn gwella **diogelwch personol a hygyrchedd at gyfiawnder**.

<u>Maes Gweithredu</u>:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Parhau i godi ymwybyddiaeth am droseddau casineb, yn enwedig yn ystod wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb gyda’n partneriaid yng Ngogledd Cymru | Mi fydd un neges gyson, wedi ei arwain gan Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu, ar draws gogledd Cymru yn cael mwy o effaith o lawer. | Pawb | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| **<u>Adroddiad Diweddaru 2021/22</u>:**<br>Cynhaliwyd yr Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb rhwng y 9fed a 15eg o Hydref 2021.<br><br>Oherwydd Covid-19 ni chynhaliwyd unrhyw ddigwyddiadau mewn person yn ystod yr wythnos, ond serch hynny, cynhaliwyd ymgyrch cyfryngau cymdeithasol gydlynol gan holl bartneriaid sector cyhoeddus gogledd Cymru (sy'n cynnwys yr Awdurdod) yn ystod yr adeg hon, a defnyddiwyd delweddau a negeseuon cyson i atgyfnerthu negeseuon allweddol o nodi ac adrodd am droseddau casineb. | | | |

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Gweithio gyda phartneriaid o Ogledd Cymru ar amryw o ymgyrchoedd i hyrwyddo diogelwch ar-lein. | Mae dioddefwyr sgamiau ar-lein a bwlio yn aml iawn yn bobol fregus sy'n agored i niwed. Bydd codi ymwybyddiaeth trwy gyfres o negeseuon cyson yn cael mwy o effaith. | Pawb | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| **<u>Adroddiad Diweddaru 2021/22</u>:**<br>Ni chrëwyd unrhyw ymgyrchoedd uniongyrchol gan Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (RhCSCGC) yn ystod y flwyddyn, gan fod yn rhaid cyfeirio adnoddau i gynorthwyo gydag Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar amryw o ymatebion Covid-19.<br><br>Fodd bynnag, y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yw gweinyddydd cyfrif cyfryngau cymdeithasol y Rhwydwaith, ac mae wedi gweithio'n agos gydag Uned Seiberdroseddu Heddlu Gogledd Cymru i ledaenu ymwybyddiaeth barhaus o seiberdroseddu a negeseuon diogelwch ar-lein. | | | |

**<u>Amcan</u>:** Byddwn yn datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r **ddyletswydd gymdeithasol-economaidd** (pan fydd canllawiau ar gael) i nodi'r prif feysydd effaith i fynd i'r afael â hwy o dan y ddyletswydd.

<u>Maes Gweithredu</u>:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Gweithio gyda sefydliadau eraill o'r sector gyhoeddus er mwyn rhannu ymarfer da. | Bydd hyn yn galluogi rhannu syniadau ac ymarfer da er mwyn sicrhau ein bod ni'n gweithredu'r ddyletswydd yn gywir. | Pawb | Tîm Rheoli & Phenaethiaid Gwasanaeth |
| **<u>Adroddiad Diweddaru 2021/22</u>:**<br>Mae'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yn parhau i chwarae rhan weithredol yn Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru, lle rhennir arfer gorau a lle mae cefnogaeth a chyngor bob amser ar gael gan sefydliadau sector cyhoeddus eraill.  Wrth i amser ac adnoddau ganiatáu, gwneir gwaith a phrosiectau ar y cyd hefyd fel y gall pob sefydliad yn y sector cyhoeddus wneud y defnydd gorau o'u hadnoddau cyfyngedig. | | | |

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Adolygu ein proses Asesu Effaith a thempledi i sicrhau bod ystyriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i effaith economaidd-gymdeithasol a chronnus penderfyniadau'r Awdurdod, cynlluniau a pholisïau (os yw'n briodol). | Trwy greu prosesau asesu integredig, bydd yn sicrhau bod pob elfen yn cael ystyriaeth lawn. | Pawb | Tîm Rheoli & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| **<u>Adroddiad Diweddaru 2021/22</u>:**<br>Cwblhawyd.<br><br>Yn gynnar yn 2020, ffurfiodd RhCSGGC Weithgor i ddatblygu Templed cynhwysfawr i Asesu Effaith Cydraddoldeb a fyddai'n ymgorffori'r Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd oedd i ddod.<br><br>Mae'r templed yn dwyn ynghyd yr arfer gorau a nodwyd ar draws sefydliadau sector cyhoeddus Gogledd Cymru. Roedd y templed hwn wedi'i gwblhau a'i gytuno erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, mewn pryd ar gyfer cyflwyno'r Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd. Mae nifer o sefydliadau sector cyhoeddus Gogledd Cymru wedi mabwysiadu'r templed, gan gynnwys APC Eryri. Y gobaith yw, wrth i fwy o sefydliadau fabwysiadu'r templed, y bydd hyn yn caniatáu ar gyfer dull mwy cyson wrth asesu effeithiau penderfyniadau strategol ar draws y sector cyhoeddus. | | | |

**Amcan**: Byddwn yn gwneud gwaith pellach i sicrhau bod **cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio** i waith yr Awdurdod.

Meysydd Gweithredu:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn sefydlu gweithdrefnau i sicrhau bod y gwasanaethau a brynir i mewn yn gallu cwrdd ag ymrwymiad a disgwyliadau'r Awdurdod ar gydraddoldeb. | Mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb dros gyrraedd y ddyletswydd gyffredinol hyd yn oed pan fo'r gwaith neu'r gwasanaeth yn cael eu rhoi allan i gyflenwr allanol. Mae'n bwysig cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb i mewn i'r broses. | Pawb | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |

**Adroddiad Diweddaru 2021/22:**

Mae'r Awdurdod yn defnyddio GwerthwchiGymru i hysbysebu'r mwyafrif o wasanaethau a gaffaelir, gan mai hwn yw'r man galw cyntaf i gwmnïau sydd am gynnig am gytundebau sector cyhoeddus. Mae hyn yn sicrhau bod y contractau a gynigir gan yr Awdurdod yn cyrraedd ei gynulleidfa ehangaf bosibl.

Nid yw'r Awdurdod yn caffael llawer iawn o wasanaethau, gan fod mwyafrif y contractau o'r fath ar gyfer nwyddau. O'r contractau gwasanaeth hynny, ni fydd pob un yn berthnasol o ran ymrwymiadau cydraddoldeb a mesurau a ddisgwylir gan y cwmnïau hynny.

Mae'r Awdurdod wedi derbyn argymhellion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod prosesau'r Awdurdod mewn perthynas â chontractau yn ddigon tryloyw, ac yn unol â hynny mae fersiwn drafft newydd o'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â Chontractau wedi'i gynhyrchu sy'n ymgorffori'r argymhellion ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl reoliadau newydd sy'n ymwneud â'r ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae angen gwaith pellach ar y drafft, gan gynnwys sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu hymgorffori cyn y gellir ei gyflwyno i'r Aelodau i'w fabwysiadu yn 2022/23.

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn monitro faint o gytundebau sy’n glynu at y gweithdrefnau newydd a pha mor effeithiol ydynt. | Mae gan yr Awdurdod cyfrifoldeb dros gyrraedd y ddyletswydd gyffredinol hyd yn oed pan fo’r gwaith neu’r gwasanaeth yn cael eu rhoi allan i gyflenwr allanol. Mae’n bwysig cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb i mewn i’r broses. | Pawb | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| **<u>Adroddiad Diweddaru 2021/22</u>:**<br>Nid oes gweithdrefn ffurfiol wedi'i rhoi ar waith eto. Fodd bynnag, mae'r holl gontractau perthnasol yn cael eu monitro ar hyn o bryd i sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn rhan o becyn y cwmni sy'n rhoi ymlaen cynnig. Bydd y broses hon yn cael ei hadolygu unwaith y bydd y Rheolau Sefydlog newydd sy'n ymwneud â Chontractau wedi'u mabwysiadu. | | | |
| Darparu cefnogaeth (a lle’n briodol) hyfforddiant i staff i sicrhau eu bod yn deall eu dyletswydd tuag at bobl gyda nodweddion a ddiogelir. | Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau. | Pawb | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer & Pennaeth Adnoddau Dynol |
| **<u>Adroddiad Diweddaru 2021/22</u>:**<br>Mae staff perthnasol yn ymwybodol y gall y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ddarparu cefnogaeth ac arweiniad ar bob agwedd ar ystyriaethau cydraddoldeb, y mae'n rhaid eu hystyried wrth ddatblygu prosiectau a ffrydiau gwaith newydd. Mae'r Pennaeth Adnoddau Dynol hefyd ar gael i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad ar gyfer unrhyw gontractau cyflogaeth newydd a grëir yn yr Awdurdod. | | | |
| Darparu cefnogaeth a (lle bo hynny'n berthnasol) hyfforddiant i staff ar sicrhau bod eu Hasesiadau Effaith Cydraddoldeb yn gadarn. | Bydd hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth ac yn datblygu eu sgiliau. Bydd hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth ac yn datblygu eu sgiliau. | Pawb | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer & Pennaeth Adnoddau Dynol |
| **<u>Adroddiad Diweddaru 2021/22</u>:**<br>Mae'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer fel arfer yn gweithio gydag aelodau staff unigol perthnasol ar ddatblygu Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer y Cynllun, y Polisi, neu’r Strategaeth sy'n cael ei adolygu neu ei ddatblygu ac ar unrhyw Benderfyniad Strategol sy'n cael ei wneud. Mae hyn yn sicrhau cyn belled ag y bo modd, bod yr asesiadau mor gadarn ag y gallant fod. | | | |

## 5. Hyfforddiant

Ym mis Tachwedd 2021, derbyniodd nifer o staff allweddol hyfforddiant ar gynhyrchu dogfennau hygyrch ar gyfer gwefan newydd yr Awdurdod, sy’n galluogi technoleg fel darllenwyr sgrin i allu defnyddio’r dogfennau a gynhyrchir gan yr Awdurdod yn hawdd.

Ar wahân i'r modiwlau ar-lein sydd ar gael ar ELMS, ni chynhaliwyd unrhyw hyfforddiant cydraddoldeb arall yn ystod y flwyddyn.

## 6 Asesiadau Effaith Cydraddoldeb

Mae gan yr Awdurdod systemau ar waith i sgrinio ac asesu effaith unrhyw strategaethau, cynlluniau, gweithdrefnau, arferion newydd neu ddiwygiedig neu unrhyw benderfyniadau mawr y mae'n eu gwneud. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd 2 asesiad effaith cydraddoldeb llawn.

Islaw mae crynodeb byr o’r asesiadau effaith cydraddoldeb a gynhaliwyd.

<u>Canllawiau Cynllunio Statudol: Ymrwymiadau Cynllunio</u>
Un o brif amcanion cynllunio yw cyflawni datblygiad cynaliadwy, trwy weithredu mentrau cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd allweddol. Gallai hwyluso datblygiad o’r fath roi beichiau ychwanegol ar y seilwaith a’r gwasanaethau mewn ardal. Mae ymrwymiadau cynllunio yn gytundebau a drafodir, fel arfer yng nghyd-destun ceisiadau cynllunio, rhwng yr awdurdod cynllunio lleol ac ymgeisydd / datblygwr ac eraill a allai fod â diddordeb yn y tir. Gallant gynorthwyo i wneud cynnig arfaethedig yn dderbyniol yn nhermau cynllunio. Gall ymrwymo i rwymedigaeth oresgyn rhwystrau a allai fel arall atal caniatâd cynllunio rhag cael ei roi. Gellir defnyddio cyfraniadau gan ddatblygwyr i wrthbwyso canlyniadau negyddol datblygiad, i helpu i ddiwallu anghenion lleol, neu i sicrhau buddion a fydd yn gwneud datblygiad yn fwy cynaliadwy.

Gall Ymrwymiadau Cynllunio fod ar ffurf newidiadau ffisegol neu amgylcheddol a gwelliannau i'r safle ac o'i amgylch megis gwelliannau i ffyrdd a pharcio, darparu neu wella llwybrau beicio a cherdded a mynediad i fannau agored ac ati. Gall Ymrwymiadau Cynllunio hefyd ofyn am ddarpariaeth neu warchodaeth o gyfleusterau cymunedol a darparu tai fforddiadwy ymhlith pethau eraill. Aseswyd effaith y canllawiau er mwyn sicrhau bod yr Ymrwymiadau hyn yn ymdrechu i sicrhau buddion cymunedol cynaliadwy er budd cymdeithasol, economaidd neu ddiwylliannol ac felly byddant yn darparu buddion cadarnhaol i'r gymuned gyfan lle mae'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli.

Telerau ac Amodau Staff

Ym mis Ionawr 2022, comisiynodd y Prif Weithredwr adolygiad o gyflog ac amodau staff, gan ei bod wedi dod yn fwyfwy amlwg nad oedd tâl yr Awdurdod yn benodol yn gystadleuol o gymharu â rolau tebyg mewn sefydliadau sector cyhoeddus eraill. Daeth yr adolygiad i ben gyda'r argymhellion a ganlyn:

1. Cynyddu pob graddfa gyflog o ddau bwynt graddfa ar gyfer yr holl staff yn amodol ar delerau ac amodau'r llyfr gwyrdd,
2. Darparu diwrnod ychwanegol o wyliau i nodi Dydd Gŵyl Dewi,
3. Cydnabod dwyieithrwydd o fewn y strwythur tâl i'r rhai a benodir o'r newydd.

Er bod y rhain yn fanteision cadarnhaol i staff presennol ac y byddent yn cynorthwyo gyda recriwtio yn y dyfodol, aseswyd effaith y cynigion yn llawn i sicrhau nad oedd unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol yn debygol o ddigwydd pe bai'r cynigion yn cael eu mabwysiadu.

Yn ogystal â'r ddau asesiad effaith llawn uchod, cyfrannodd staff yr Awdurdod hefyd at asesiad effaith cydraddoldeb llawn Tai Pawb a gynhaliwyd ar Gofrestr Tai Fforddiadwy Tai Teg a'r meini prawf cymhwyso.  Roedd hyn yn sicrhau bod mesurau lliniaru yn cael eu nodi ar gyfer rhai pobl â nodweddion a ddiogelir a fyddai fel arall yn profi gwahaniaethu oherwydd na allant gyrraedd y meini prawf cymhwyso oherwydd eu set unigryw o amgylchiadau.

## 7. Gwybodaeth Cyflogaeth

Mae'r ddyletswydd yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol am gyflogaeth:

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y:

- Bobl a gyflogir gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn yn ôl nodweddion a ddiogelir
- Gwrywod a benywod a gyflogir, yn ôl:
    - Swydd
    - Graddfa (lle bo systemau graddio mewn lle)
    - Tâl
    - Math o gontract (gan gynnwys contractau parhaol a thymor penodol)
    - Patrymau gwaith (gan gynnwys amser llawn, rhan amser a phatrymau gwaith hyblyg eraill)
- Pobl sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
- Gweithwyr sydd wedi ymgeisio i newid swydd o fewn yr Awdurdod, gan nodi sawl un a fu'n llwyddiannus â'u cais a sawl un a fethodd
- Gweithwyr sydd wedi ymgeisio am hyfforddiant a sawl un a oedd wedi llwyddo â'u cais
- Gweithwyr a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant
- Gweithwyr a fu'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno, un ai fel achwynydd neu fel un y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn o / hi
- Gweithwyr a fu'n destun gweithdrefnau disgyblu
- Gweithwyr sydd wedi gadael eu swyddi â'r Awdurdod

Rhaid cyflwyno'r holl wybodaeth uchod ar gyfer pob un o'r grwpiau unigol a ddiogelir. Yr eithriad i'r gofyniad hwn yw'r data am swyddi, graddfa, tâl, math o gontract a phatrwm gwaith - dim ond ei ddadansoddi mewn perthynas â benywod a gwrywod yn unig sydd ei angen bryd hynny.

**Pobl a gyflogir gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn yn ôl nodwedd a ddiogelir**

Cyfanswm y gweithwyr ar 31 Mawrth 2022 = 141

**Proffil oedran**

| | |
|---|---|
| 24 a iau | 6 |
| 25 – 34 | 36 |
| 35 – 44 | 32 |
| 45 – 54 | 28 |
| 55 – 64 | 32 |
| 65 a throsodd | 7 |

**Dosbarthiad Benywod / Gwrywod**

| | |
|---|---|
| Benywod | 75 |
| Gwrywod | 66 |

Mae 1.3% o'r staff wedi datgan eu bod yn anabl a / neu gyda nam.

Roedd 4 aelod o staff ar absenoldeb mamolaeth.

O fewn yr Awdurdod, mae'r staff sydd wedi datgan eu tarddiad ethnig yn disgyn o fewn y categori Gwyn Cymreig, ac nid oes unrhyw un ohonynt o'r prif grwpiau ethnig eraill (Cymysg, Asiaidd, Du neu Tsieineaidd).

O achos y nifer isel o weithwyr, ni chyhoeddir yr wybodaeth yn fanylach er mwyn diogelu hunaniaeth yr unigolion.

Y gwrywod a'r benywod a gyflogir, yn ôl:

- Swydd
- Graddfa (lle bo systemau graddio mewn lle)
- Tâl
- Math o gontract (gan gynnwys contractau parhaol a thymor penodol)
- Patrwm gwaith (gan gynnwys amser llawn, rhan amser a phatrymau gwaith hyblyg eraill)

Mae'r tabl nesaf yn dangos dosbarthiad gwrywod a benywod a gyflogir yn ôl graddfa, patrwm gwaith a'r math o gontract ar 31.03.2022 (mae gan yr Awdurdod nifer o deitlau swydd wahanol o fewn y graddfeydd):

| | | Patrwm Gwaith | | | | | | Math o Gontract | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Amser llawn | | Rhan amser | | Hyblyg | | Parhaol | | Dros Dro | | Tymor Penodol | |
| **Graddfa** | **Tâl/ Awr** | **B** | **G** | **B** | **G** | **B** | **G** | **B** | **G** | **B** | **G** | **B** | **G** |
| IC | £8.91 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| 1 | £9.50 | 0 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2 | £9.60 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 3 | £9.99 | 0 | 0 | 8 | 2 | 0 | 0 | 8 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 4 | £10.39 | 4 | 3 | 13 | 4 | 0 | 0 | 16 | 6 | 0 | 1 | 1 | 0 |
| 5 | £11.47 | 3 | 10 | 3 | 1 | 0 | 0 | 4 | 10 | 0 | 0 | 2 | 1 |
| 6 | £12.92 | 6 | 5 | 1 | 0 | 0 | 0 | 3 | 5 | 0 | 0 | 3 | 1 |
| 7 | £14.63 | 9 | 13 | 2 | 0 | 0 | 0 | 4 | 13 | 0 | 0 | 7 | 0 |
| 8 | £16.53 | 6 | 10 | 1 | 1 | 0 | 0 | 6 | 10 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| 9 | £17.82 | 2 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| 10 | £18.85 | 5 | 3 | 1 | 0 | 0 | 0 | 5 | 2 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| 11 | £19.98 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 12 | £21.03 | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 | 0 | 3 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 13 | £22.09 | 2 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Prif Swyddog - Cyfarwyddwr | £33.35 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Prif Swyddog – Prif Weithredwr | £47.62 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |

**Pobl sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf**
O'r ymgeiswyr sydd wedi llenwi ffurflenni monitro:

**Tarddiad Ethnig**
212 Gwyn
3 Cymysg
1 Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, Asiaidd Cymreig, Asiaidd Saesneg, Asiaidd Albanaidd
0 Du, Du Prydeinig, Du Saesneg, Du Albanaidd, Du Cymreig
0 Tsieineaidd, Tsieineaidd Prydeinig, Tsieineaidd Saesneg, Tsieineaidd Albanaidd, Tsieineaidd Cymreig neu Grŵp Ethnig Arall
3 Dim ymateb

**Cenedl**
131 Gwryw
88 Benyw
0 Dim ymateb

**Anabledd**
21 ymgeisydd gyda nam yr hoffent roi gwybod amdano

**Gweithwyr sydd wedi ymgeisio i newid swydd o fewn yr Awdurdod, gan nodi sawl un a oedd yn llwyddiannus â'u cais a sawl un a oedd wedi methu**

| | Ceisiadau | Penodiadau |
|---|---|---|
| Gwryw | 0 | 0 |
| Benyw | 5 | 4 |
| Cyfanswm | 5 | 4 |

**Gweithwyr sydd wedi ymgeisio am hyfforddiant a sawl un a oedd wedi llwyddo â'u cais**
Roedd ceisiadau a hyfforddiant a fynychwyd ar 16 achlysur gan fenywod a 13 gwaith gan wrywod (roedd rhai aelodau o staff wedi ymgeisio a bod yn bresennol ar fwy nag un achlysur.)

**Gweithwyr a fu'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno, un ai fel achwynydd neu fel un y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn ef / hi**

| | |
|---|---|
| Gwryw | 1 |
| Benyw | 1 |
| Cyfanswm | 2 |

**Gweithwyr a fu'n destun gweithdrefnau disgyblu**
Roedd un gweithiwr yn destun gweithdrefnau disgyblu yn ystod y cyfnod hwn.

**Gweithwyr sydd wedi gadael eu swyddi â'r Awdurdod**

| | |
|---|---|
| Benyw | 12 |
| Gwryw | 4 |
| Cyfanswm | 16 |

*Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 - Adran 6*
*Adroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chadernid Ecoystemau 2022*

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**

## Cyflwyniad a'r Cyd-destun

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) yn Awdurdod Parc Cenedlaethol. Mae gan y cyfan o'r tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru ddau bwrpas statudol, sef:

- gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal
- hyrwyddo cyfleoedd fel y gall y cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardal.

Mae'n ofynnol trwy gyfraith hefyd i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru hyrwyddo lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol wrth gyflawni'r pwrpasau hyn.

Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn 823 milltir sgwâr o ran maint ac yn gartref I 25,702 o bobl, 33.2% ohonynt dros 60 oed, ac mae tua ≈59% o'r preswylwyr yn siarad Cymraeg. Eryri yw'r Parc Cenedlaethol mwyaf yng Nghymru ac yn denu bron i 4 miliwn o ymwelwyr yn flynyddol. Mae 70% o'r Parc Cenedlaethol dan berchnogaeth breifat; mae'r gweddill yn eiddo i'r Wladwriaeth mewn un ffordd neu'i gilydd. Tua ≈0.45% o'r ardal sydd yn eiddo i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Mae APCE yn ddarostyngedig i Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (DCD). Arweiniodd APCE y broses o gyd-ddylunio Cynllun Eryri sef Cynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol Eryri (PCE) ar gyfer y cyfnod 2020-2025 - gweler https://authority.snowdonia.gov.wales/the-authority/partnerships/cynllun-eryri.
Amlinellir y weledigaeth ar gyfer y Parc yng Nghynllun Eryri a gafodd ei ddatblygu trwy broses ymgynghori allanol eang gyda'r cyhoedd a'n rhan-ddeiliaid allweddol. Adroddir ar gynnydd trwy Adroddiad Cynnydd blynyddol Cynllun Eryri a bob 5 mlynedd trwy Adroddiad Cyflwr y Parc. Mae Dyletswydd Adran 6 yn gysylltiedig â chyflawni amcanion DCD (yn cynnwys nôd Cymru Gadarn) a'r 5 dull o weithio trwy Gynllun Eryri. Ymhlith pwrpasau eraill, mae Cynllun Eryri yn cyflawni swyddogaeth y Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 a'r Cynllun Llesiant statudol sydd yn ofynnol gan yr APC o dan ddeddfwriaeth Cymru. Cafodd Datganiad Llesiant ar gyfer yr Awdurdod ei ddatblygu dros gyfnod o 18 mis sy'n gosod Amcanion Llesiant Newydd sy'n disgrifio sut byddant yn helpu'r Awdurdod i gyflawni'r saith nôd llesiant i Gymru. Cafodd ei fabwysiadu ym Mawrth 2021. Mae gweithrediadau APCE yn seiliedig ar ddatblygu gwydnwch yn unol â'r Amcanion Llesiant – amgylcheddau gwydn, cymunedau gwydn, a ffyrdd gwydn o weithio. Mae egwyddorion rheolaeth gynaliadwy dros adnoddau naturiol yn greiddiol i weithgareddau APCE. Mae APCE yn chwarae rhan lawn ym mhroses Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) e.e. mynychu a rhoi mewnbwn i nifer o weithdai cyd-gynhyrchu a digwyddiadau ymgynghori (e.e. gweithdai Dalgylch Afon Dyfrdwy). Mae cynnwys Datganiad Ardal Gogledd-orllewin Cymru a'r Datganiad Ardal Forol yn gyson â Chynllun Eryri. Mae APCE yn bartner ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gogledd-orllewin Cymru, ac yn eistedd ar is-grŵp Newid Hinsawdd y BGC.

Mae'r siart ganlynol yn dangos Fframwaith Cynllunio Corfforaethol APCE.

# Yr EDAU AUR

## FfRAMWAITH CYNLLUNIO CORFFORAETHOL APCE



| **Uchafbwyntiau, Deilliannau a Materion Allweddol** |
|---|
| Uchafbwyntiau<br>Mae ymrwymiad APCE gyda nifer digynsail o brosiectau LIFE cyfredol heb os wedi galluogi gweithredu (wedi ei flaenoriaethu) ar gyfer bioamrywiaeth ar raddfa arwyddocaol a sylweddol, yn Eryri a thu hwnt:<br>Mae'r prosiectau yma yn cynnwys:<br>• LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru (£7.5M –APCE yw'r prif fuddiolwr)<br>• LIFE Adfywio Cyforgorsydd Cymru (£4M – APCE yn fuddiolwr cysylltiol)<br>• LIFE Afon Dyfrdwy (£6.8M - APCE yn fuddiolwr cysylltiol)<br>• LIFE Corsydd Crynedig (£4.5M - APCE yn fuddiolwr cysylltiol)<br>• LIFE Twyni Byw (£4M - APCE yn rhanddeiliaid)<br>• LIFE Cri'r Gylfinir (£4M - APCE yn rhanddeiliiad).<br><br>APCE yw'r partner arweiniol ym Mhartneriaeth Cronfa Loteri 'Treftadaeth Tirwedd y Carneddau' 2020-2025. Mae hwn yn brosiect wedi ei gyd-ddylunio gwerth £4M gyda nifer o ffrydiau gwaith, nifer ohonynt yn ymwneud â bioamrywiaeth.<br><br>APCE yw/oedd y partner arweiniol yn gweithredu'r prosiectau Cynllun Rheoli Cynaliadwy (CRhC) canlynol â nawdd Llywodraeth Cymru gydag ystod eang o bartneriaid:<br>• Prosiect CRhC Mawndiroedd Cymru (£1M) 2018-2020<br>• Prosiect CRhC Comin a Chysylltiadau Cymunedol Uwch Gwyrfai (£0.418M) 2019-2021<br>• Prosiect CRhC Afon Eden (£0.815M) 2018-2020<br>• Prosiect CRhC Amaethwyr Mawddwy (£0.6M) 2020-2022<br><br>Gweler https://eryri.llyw.cymru/gwarchod/gwaith-cadwraeth am fanylion pellach detholiad o'r prosiectau yma.<br><br>Mae'r prosiectau yma yn symbylu adferiad natur ar raddfa arwyddocaol yng Nghymru. Roedd APCE hefyd yn bartner yng Nghynlluniau Rheolaeth Cynaliadwy Coed Cymru a Fferm Ifan sydd wedi eu cwblhau yn ddiweddar.<br><br>Mae APCE yn bartner yn y prosiect Partneriaethau Natur Lleol (PNLl) Cymru 2020-2023 a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Gwelir bod hyn yn hanfodol ar gyfer cynyddu capasiti, tyfu data, eiriolaeth a gweithredu mewn perthynas ag Adran 6/gwella bioamrywiaeth yn Eryri.<br><br>Ffurfiwyd Fforwm Eryri ar gyfer cyd-gynhyrchu a gweithredu Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol (Cynllun Eryri) ac mae Partneriaeth yr Wyddfa wedi creu cynllun yn seiliedig ar le o'r enw Cynllun Partneriaeth Yr Wyddfa. Mae hyn yn golygu fod aelodau o'r holl sectorau yn yr ardal wedi eu hymgysylltu'n llawn â'r broses o wneud penderfyniadau ar bob agwedd o gadwraeth yn y Parc Cenedlaethol.<br><br>Canlyniadau allweddol<br>Mae'r pwyslais cynyddol yng Nghymru ar Ddyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 yn golygu'n gyffredinol bod mwy o Aelodau'r Awdurdod, uwch reolwyr, staff a phartneriaid yn ymwybodol o'r Ddyletswydd ac o bwysigrwydd gallu arddangos cydymffurfiaeth ystyrlon. Mae amseru cyflwyno'r Ddyletswydd Adran 6 newydd ochr yn ochr â'r broses o gyd-gynhyrchu'r Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol (Cynllun Eryri) ddiweddaraf wedi bod yn gyfle i lwyr integreiddio bioamrywiaeth a llesiant i mewn i ddogfen strategol bwysicaf APCE. Ceir elfen sylweddol o ymgysylltu cymunedol ym mhob prosiect (e.e. teithiau tywys, sgyrsiau a chyflwyniadau, cyfleoedd gwirfoddoli, gweithdai celf). Defnyddir ymgymerwyr |

lleol lle bynnag fo’n bosib.

Mae cael Tîm Ymgysylltu wedi darparu capasiti ar gyfer canfod atebion hirdymor i broblemau sydd wedi bod ar gynnydd yn Eryri a’r cyffiniau ers amser maith e.e. gor-dwristiaeth a’i effeithiau negyddol, arferion anghynaladwy (e.e. defnydd plastig a thagfeydd traffig).

<u>Materion</u>
Mae angen rhagor o wrth-gymhelliant yn genedlaethol er mwyn rhwystro pobl rhag cyflymu dirywiad bioamrywiaeth trwy osgoi trefn gywir e.e. datblygu/clirio safle cyn gwneud cais cynllunio. Teg yw dweud fod capasiti gwasanaethau cynllunio ar draws Cymru yn denau a dydi Eryri ddim yn eithriad. Mae diffyg capasiti swyddogion cydymffurfiaeth yn gallu rhoi’r argraff nad ydi datblygiadau sy’n groes i amodau cynllunio o reidrwydd yn cael eu gorfodi i gymryd camau adferol.

Mae’n benbleth barhaus pam nad yw ceisiadau am hawl Rheoliadau Adeiladu ar gyfer rhai mathau o waith (e.e. ail-doi) i’w gweld fel petai nhw yn cael Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd (Habitats Regulations Assessment - HRA) gan yr awdurdodau cymwys a pherthnasol.

Un o bolisïau APCE yw’r polisi caffael gwyrdd. Dylai bod mesurau ychwanegol yn cael eu hychwanegu i’r polisi lle’n addas wrth gaffael trwy wahanol fethodolegau sy’n galluogi pwyslais sy’n seiliedig ar fioamrywiaeth/natur i gael ei ychwanegu. Dylai bod y rhain yn cael eu teilwra yn unigol i siwtio gwahanol amgylchiadau er mwyn cynyddu eu heffeithlonrwydd.

Mae ‘Prosiect Nos’ (sef prosiect Awyr Dywyll Gogledd Cymru) wedi bod yn rhagorol yn nhermau ymgysylltu â chymunedau gogledd Cymru gyda buddion amryfal awyr dywyll. Yn dilyn rhai treialon cychwynnol a llwyddiannus, mae angen datblygu cynllun sy’n hwyluso pobl i newid y goleuadau sy’n cydymffurfio lleiaf â safonau gwarchod awyr dywyll, a hynny ar raddfa drawsffurfiol.

| **Adroddiad ar Weithredu** | | |
|---|---|---|
| **NRAP (Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru) Amcan 1: Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel.** | | |
| Camau i'w cymryd ar gyfer: | Enghreifftiau: | Mesurau a/neu ddangosyddion gaiff eu monitro: |
| Gwreiddio gweithgaredd bioamrywiaeth ar draws pob swyddogaeth y sefydliad | Mae pwrpas statudol cyntaf APCE yn cynnwys gwarchod a gwella bywyd gwyllt yr ardal. Cynefinoedd a rhywogaethau rhyngwladol pwysig yw un o naw Rhinwedd Arbennig Eryri. Mae bioamrywiaeth yn greiddiol i nifer o Rinweddau Arbennig eraill y Parc Cenedlaethol (e.e. ysbrydoliaeth i'r celfyddydau) ac felly yn ganolig i nifer o weithredoedd sydd wedi eu hamlinellu yng Nghynllun Rheolaeth newydd y Parc (Cynllun Eryri) gafodd ei lansio yn Nhachwedd 2020. Bu i APCE gyd-gynhyrchu Cynllun Eryri trwy gyfres eang o ymgynghoriadau (gweithdy olaf yn Ionawr/Chwefror 2020), digwyddiadau â phanelau o arbenigwyr, gweithdai, sioeau teithiol, arolygon, cyfarfodydd Fforwm Eryri ac ymgynghoriadau ar-lein (trwy gyfrwng gwefan APCE, fideos ymgynghori, Facebook a Twitter).<br><br>Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Eryri 2016-2031 y mabwysiadwyd gan APCE yn cynnwys Polisi Strategol D: Amgylchedd Naturiol. Un agwedd o'r polisi yw na ddylai cynigion effeithio'n niweidiol ar adnoddau bioamrywiaeth y Parc Cenedlaethol gan gynnwys safleoedd dynodedig ar bob lefel, o'r lleol hyd y rhyngwladol, yn ogystal ag adnoddau bioamrywiaeth ehangach e.e. cynefinoedd a rhywogaethau y tu allan i safleoedd dynodedig.<br><br>Gwelwyd bod nifer sylweddol o broblemau wedi bod yn cynyddu yn benodol yng nghyffiniau'r Wyddfa fel y mynydd yr ymwelir ag ef amlaf yn y DU. APCE arweiniodd y gwaith o gyd-gynhyrchu Cynllun Partneriaeth Yr Wyddfa 2018-2023 - gweler [www.snowdonpartnership.co.uk/hafan-1](http://www.snowdonpartnership.co.uk/hafan-1). Un canlyniad yw apwyntiad Swyddog Prosiect Yr Wyddfa Di-Blastig yn Hydref 2022.<br><br>Bydd staff polisi APCE a swyddogion eraill fel bo'n addas yn cyfrannu sylwadau yn rheolaidd (a bioamrywiaeth yn un o'r materion) trwy ymatebion swyddogol i amrywiol ymgynghoriadau (e.e. Llywodraeth Cymru, CNC, cwmnïau gwasanaethau/utilities a.y.b.). Gall y rhain fod yn rhan o ymateb ar y cyd gan Barciau Cenedlaethol Cymru, neu yn ymateb unigol gan APCE - yn unol â natur yr ymgynghoriad.<br><br>O ystyried dau brif bwrpas y Parc Cenedlaethol, mae'r Awdurdod i gyd yn anelu at gyflawni mesurau bioamrywiaeth fel rhan o'i waith bob dydd. | Mae Cynllun Eryri yn cynnwys nifer o drefniadau monitro a mesur llwyddiant yr adroddir arnynt yn flynyddol i'r Awdurdod. Caiff Adroddiad Cyflwr y Parc ei gyhoeddi bob 5 mlynedd.<br><br>Mae dangosyddion monitro wedi eu cynnwys yn Adran 3 ac Atodiad 1 o Adroddiad Monitro Blynyddol CDLl Eryri 2022 e.e., >11km o wrychoedd wedi eu plannu 2018-2019.<br><br>Mae 'Sut byddwn yn olrhain cynnydd' (tud. 50) o Gynllun Partneriaeth Yr Wyddfa yn rhoi manylion am ddangosyddion y cynllun.<br><br>Nifer yr ymatebion i ymgynghoriadau, a natur y sylwadau yn ymwneud â bioamrywiaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| Codi ymwybyddiaeth ynghylch bioamrywiath a'i bwysigrwydd ledled y sefydliad | Mae aelodau staff APCE yn darparu hyfforddiant a mewnbwn rheolaidd ar gyfer Aelodau APCE ar faterion bioamrywiaeth (e.e., hyfforddiant/seminarau Aelodau ac ymweliadau â safleoedd eiddo APCE a safleoedd prosiectau, gweithdai Addasu Newid Hinsawdd i Aelodau, Pwyllgorau Cynllunio). Mae arbenigedd allanol ar gael i Aelodau pan fydd angen.<br><br>Bydd cylchlythyrau mewnol, cyflwyniadau rheolaidd mewn cyfarfodydd staff a chylchlythyrau e-bost hefyd yn diweddaru staff, Aelodau'r Awdurdod ac ystod eang o'n Partneriaid. | |
| | Caiff cyfryngau cymdeithasol eu defnyddio yn effeithlon a rheolaidd i gynyddu ymwybyddiaeth am waith y Parc Cenedlaethol a materion biomrywiaeth. Gellir mesur y nifer o ryngweithiadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn hawdd.<br><br>Caiff ein papur newydd allanol ei gyhoeddi unwaith y flwyddyn, gydag adroddiad ar waith y Parc sydd yn cynnwys adrannau ar fioamrywiaeth a diweddariadau ar nifer o'r amryw brosiectau yr ydym yn ymwneud â nhw. | 'Analytics' dadansoddol i fesur y nifer o ryngweithiadau |
| | Bydd APCE yn buddsoddi amser sylweddol er mwyn codi ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd bioamrywiaeth i'r rhai fydd yn llunio penderfyniadau yn y dyfodol. Mae APCE yn cynnal Cynllun Ceidwaid Ifanc ac yn cyflogi Swyddog Pobl Ifanc. Fel arfer mae gweithgareddau codi ymwybyddiaeth yn cael eu cynnal trwy staff craidd a staff prosiectau a/neu ymgymerwyr allanol, yn aml trwy brosiectau. Er enghraifft, mae Gwasanaeth Wardeiniaid APCE yn cynnal y Ddeorfa Bysgod blynyddol a hynod lwyddiannus (ar-lein ac o fewn ysgolion lleol) fel rhan o Brosiect LIFE Afon Dyfrdwy - https://eryri.llyw.cymru/pupils-at-ysgol-bro-tryweryn-host-a-trout-hatchery-in-their-classroom.<br>Mae gwaith Gwasanaeth Wardeiniaid APCE (≤10 Warden, yn amrywio fesul tymor) yn cynnwys egluro pwysigrwydd bioamrywiaeth i gymunedau lleol ac ymwelwyr fel rhan o'u gwaith dydd i ddydd.<br><br>Nid yw APCE bellach yn cyflogi swyddogion addysg llawn-amser cynradd nac uwchradd yng Nghanolfan Addysg Awyr Agored y Parc Cenedlaethol ym Mhlas Tan y Bwlch (PTYB), Maentwrog. Nid yw APCE bellach yn trefnu cyrsiau bioamrywiaeth ym Mhlas Tan y Bwlch, ond mae staff APCE yn cyfrannu at gyrsiau gan grwpiau sy'n trefnu ymweliadau eu hunain â PTYB (e.e. cwrs preswyl 4-diwrnod MSc. Cadwraeth Coleg Prifysgol Llundain). | Nifer o bobl a phobl ifanc sy'n ymgysylltu ag elfennau bioamrywiaeth gwahanol brosiectau. |

| **NRAP Amcan 2: Diogelu prif rywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well.** | | |
|---|---|---|
| Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd arbennig | <u>Misglen Berlog yr Afon (Freshwater Pearl Mussels - FWPM) a Salmonidau</u><br>Mae APCE yn chwarae rhan weithredol ar Grŵp Adolygu FWPM Cymru ac yn gwireddu (mewn partneriaeth) ar weithredoedd yn 'Strategaeth Cadwraeth Misglod Perlog yr Afon yng Nghymru'. Arweiniodd APCE glwstwr o ffermwyr (18 o denantiaid/tirfeddianwyr) ar brosiect CRhC (SMS) Afon Eden (2018-2020). Ffocws y prosiect oedd gwireddu nifer o gamau i wella cyflwr Ardal o Gadwraeth Arbennig Afon Eden a'r dalgylch ehangach ar gyfer ei rywogaethau/nodweddion arbennig (e.e. eogiaid, misglod perlog yr afon, dyfrgwn). Mae APCE yn fuddiolwr cysylltiol ar brosiect LIFE Afon Dyfrdwy 2020-2025, ac yn randdeiliad ymroddedig a blaengar ym Mhrosiect Dyfrffos Ardudwy sy'n cael ei arwain gan CNC. Anifail di-asgwrn cefn yw misglen berlog yr afon sydd mewn Perygl Argyfyngus yng Nghymru ac yn rhywogaeth sy'n ddangosydd afonydd a nentydd o ansawdd uchel. Maent yn cyfrannu yn helaeth i weledigaeth o gadwraeth bioamrywiaeth dŵr croyw gwydn yng Nghymru. | Gweler dangosyddion y prosiect CRhC e.e. 90ha o goed conwydd gwasgaredig wedi eu clirio o goetir gwlyb Brynteg. Meini wedi eu dychwelyd i'r afon ar hyd 1.4km o'r Afon Eden i gynyddu amrywiaeth cynefin. Gweler dangosyddion prosiect LIFE Afon Dyfrdwy. Nifer o fisglod perlog yn yr afon yw'r dangosydd gorau yn y pen draw. |
| | <u>Gylfinir Cymru</u><br>Yn seiliedig ar ei statws cadwraeth bydol anffafriol, a phwysigrwydd bydol ond dirywiad sylweddol y boblogaeth fagu yn y DU, ystyrir mai'r gylfinir yw'r rhywogaeth o aderyn â'r flaenoriaeth cadwraeth fwyaf yn y DU. Mae APCE yn aelod o Grŵp 'Gylfinir Cymru' (www.gylfinircymru.org). Bu i Gylfinir Cymru gyhoeddi a lansio 'Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Adfer y Gylfinir' yn Nhachwedd 2021. Mae APCE yn bartner rhanddeiliad ym mhrosiect LIFE Gylfinir Cymru sy'n gweithredu yn ardaloedd Ysbyty Ifan a Hiraethog o Eryri. Pob blwyddyn mae staff APCE yn cyfrannu amser i arolygu niferoedd magu a llwyddiant nythu'r gylfinir trwy'r prosiect yma. Mae'r camau nesaf i APCE yn cynnwys datblygu bwriad i fonitro niferoedd y gylfinir sy'n magu yn ardaloedd eraill o Eryri e.e. Cors Goch, Trawsfynydd, a'u llwyddiant magu. | Gweler y dangosyddion yng Nghynllun Gweithredu'r Gylfinir. Mae ymchwil yn dangos fod poblogaethau sefydlog o'r gylfinir angen cynhyrchu ≥0.5 cyw/pâr/flwyddyn. Mae cynhyrchiant cyfredol yn Eryri tu allan i ardal Gylfinir LIFE yn anhysbys. |
| | <u>Britheg y gors</u><br>Rhywogaeth Adran 7 yw'r britheg y gors sydd wedi dioddef crebachiadau arswydus trwy lawer iawn o Ewrop, y DU a Chymru yn ystod y degawdau diwethaf. Mae'r britheg y gors yn ddangosydd ardderchog o iechyd ecosystemau ac mae rheolaeth bositif ar eu cyfer yn fuddiol i ystod eang o rywogaethau eraill.<br>Ariannwyd rhaglen o waith cyfalaf i amnewid hen ffensys am rai newydd er mwyn galluogi cyflwyno pori â brid cynhenid o wartheg ar gors 3.3ha a fu yn blanhigfa goed conwydd drws nesaf i safle magu britheg y gors. Erbyn hyn mae cannoedd o | Pori ysgafn â gwartheg yn cael ei gyflwyno ar gors 3.3ha sydd wedi ei adfer drws nesaf i safle magu britheg y gors. Nifer o weoedd larfa britheg y gors sydd yn cael |

| | | |
|---|---|---|
| | blanhigion tamaid y cythraul (*Succisa pratensis*) sy'n fwyd i'r larfa yn sefydlu ar y gors sydd wedi ei adfer yn dilyn gwaith hadu â had lleol. Cafodd safle magu arall sy'n hynod gynhyrchiol ac sy'n rhan o feta-boblogaeth Meirionnydd waith rheoli prysgwydd pwrpasol yn ystod gaeaf 2021-2022. Darparwyd cyngor ar y safle gan arbenigwyr britheg y gors ynglŷn ag optimeiddio rheolaeth ar gyfer anifeiliaid di-asgwrn cefn.<br><br>Llun awyrol yn dangos dosbarthiad y 204 o weoedd britheg y gors (smotiau gwyn) ddaru gael eu cyfrif ar un o safleoedd meta-boblogaeth Meirionnydd yn ystod Medi 2022.<br> | eu cyfrif. |
| | Cynllunio<br>Croesawyd yn fawr lythyr oddi wrth Gyfarwyddiaeth Cynllunio Llywodraeth Cymru i Brif Swyddogion Cynllunio Awdurdodau Lleol yn ymwneud â Bioamrywiaeth a Gwelliant, dyddiedig 23ain Hydref 2019. Mae'r llythyr hwn yn egluro - yng ngoleuni Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 a Pholisi Cynllunio Cymru 10 - os na fydd gwella bioamrywiaeth wedi ei gynnwys fel rhan o gais, rhoddir pwysau sylweddol ar hyn ac oni bai fod ystyriaethau pwysig eraill yn dangos i'r gwrthwyneb, bydd yn ofynnol gwrthod caniatâd. Mae 'Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040' yn amlygu uchelgais Llywodraeth Cymru i weld gwelliannau ar gyfer bioamrywiaeth ledled Cymru ac fel rhan o'r broses cynllunio a cheisiadau. Mae hyfforddiant bioamrywiaeth wedi ei gynnwys yn awr fel rhan o gyfarfod blynyddol yr Awdurdod gydag Asiantau Cynllunio | Mae dangosyddion monitro wedi eu cynnwys yn Adran 3 ac Atodiad 1 o Adroddiad Monitro Blynyddol CDLl Eryri 2022 Nifer o geisiadau gyda gwelliannau i e.e. ystlumod, gwenoliaid duon. |
| | Natur am Byth! – Tlysau Mynydd Eryri<br>Mae APCE yn gweithio yn agos yn natblygiad y prosiect Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yma sy'n anelu i ysbrydoli a chynnwys pobl i helpu gwarchod rhai o | Gweler dangoysyddion y prosiect. |

| | | |
|---|---|---|
| | rywogaethau prinnaf ucheldir Cymru e.e. chwilen Yr Wyddfa, effros Cymreig (*Euphrasia cambrica)*.<br><br><u>Prosiect Treftadaeth Treflun Dolgellau</u><br>Mae staff craidd wedi gweithio'n agos hefo staff y prosiect ac ymgymerwyr pensaernïol ac adeiladu ar rai o'r adeiladau o fewn y prosiect. Elfennau o'r gwaith oedd adnabod a gwarchod lleoliadau nythu gwenoliaid duon posib a darparu safleoedd nythu posib o'r newydd ar gyfer gwenoliaid duon yn ystod gwaith adfer adeiladau.<br><br><u>Llefydd Lleol ar gyfer Natur</u><br>Cynllun wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru yw hon sydd wedi galluogi 113 o flychau gwenoliaid duon i gael eu gosod mewn lleoliadau wedi eu targedu yn ymyl safleoedd nythu gwenoliaid duon cyfredol o amgylch Eryri yn ystod gaeaf 2021-2022. Fe'i gwireddwyd mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru e.e., https://www.welshcountry.co.uk/100-new-homes-for-snowdonias-endangered-birds.<br>Trwy elfen 'Tŷ Natur' y prosiect cafwyd adnoddau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol (a'u tenantiaid) i ôl-ffitio goleuadau sy'n cydymffurfio â safonau gwarchod Awyr Dywyll ar nifer o'u heiddo ar Stâd Ysbyty Ifan. Darparwyd adnoddau trwy'r gronfa i Swyddog Bioamrywiaeth APCE weithio gyda darparwyr cartrefi cymdeithasol yng ngogledd Cymru (Adra, Grŵp Cynefin a Chartrefi Conwy) a'u tenantiaid i gyd-ddylunio a dechrau gwireddu cynlluniau gwella bioamrywiaeth ar nifer o'u hystadau (e.e. ardaloedd blodau gwyllt, coed perllan). | <br><br><br>Gweler dangoysyddion y prosiect. |

| NRAP Amcan 3: Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd | | |
|---|---|---|
| Adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cadarn | Enghreifftiau o adfer ecosystemau diraddedig<br><br><u>Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (National Peatland Action Programme (NPAP)</u><br>Mae APCE yn Bartner Cyllido Strategol i CNC trwy gyflawni amcanion yr NPAP 2020-2025. Gwariwyd £383k gan APCE ar adfer mawndiroedd gydag amryw dirfeddianwyr a thenantiaid yn Eryri trwy NPAP yn ystod 2020-2021, a £253k yn 2021-2022. Gweler sianel Youtube Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd CNC am flas o weithgareddau'r rhaglen.<br><br><u>Llun o gyn-blanhigfa sbriws Norwy ar fawn dwfn mae APCE wedi helpu ei ddad-gonifferu ac adfer yr hydroleg (llun wedi ei dynnu ar 13eg Ebrill 2022).</u><br><br><br><u>Arolwg Eryri-gyfan o Goed a Phlanhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol (Plantations on Ancient Woodland Sites (PAWS)</u><br>Bu i APCE sicrhau nawdd Llywodraeth Cymru yn ystod 2021-2022 (£100k) a 2022-2023 (£100k) i arolygu safleoedd PAWS, ffurfio argymhellion wedi eu blaenoriaethu, a gwireddu'r argymhellion hynny mewn blynyddoedd canlynol. Mae'r gronfa wedi ei hollti gyda 25% ar gyfer arolygon ac adroddiadau, a 75% ar gyfer gwireddu argymhellion adroddiadau. Mae'n esiampl grêt o fodd syml, effeithlon ac effeithiol o weithredu. Teg dweud fod tirfeddianwyr yn hoffi'r modd yma o weithredu ac yn gwerthfawrogi pobl yn cymryd diddordeb yn eu coedlannau. O ganlyniad, maent yn teimlo gwerth ychwanegol i'w coedlannau. Mae'r fethodoleg arolygu yn cynnwys arolwg coed marw.<br><br><u>Rheolaeth tir sy'n eiddo i APCE</u><br>Cafwyd nawdd trwy gronfa 'Tirweddau Cynaliadwy. Lleoedd Cynaliadwy' (Sustainable Landscapes Sustainable Places (SLSP) Llywodraeth Cymru i gychwyn y broses o wella rheolaeth ac amrywio ac ehangu'r ystod o rywogaethau yng nglaswelltiroedd amwynder yn Nolidris a Farchynys. Dim | Mae data mesur coredau ar gael os bydd angen ar gyfer cymharu heidrograffau cyn ac yn dilyn cau ffosydd.<br><br>Nifer o hecterau wedi eu hadfer, nifer o gynlluniau adfer wedi eu hysgrifennu (≈20 hyd yma) a'r nifer o goedwigoedd sy'n dod i reolaeth gynnaladwy rhagweithiol.<br><br>Nifer o rywogaethau yn y borfa (e.e., y gribell felen eisoes wedi sefydlu yn eang yn Nolidris yn dilyn gwasgaru hâd o ddôl llawn rhywogaethau |

| | | |
|---|---|---|
| | ond unwaith y flwyddyn bydd y rhan fwyaf o'r glaswelltir ym mhencadlys APCE yn cael ei dorri.<br><br><u>Prosiect SMS Mawndiroedd Cymru</u><br>APCE arweiniodd y Prosiect SMS Cymru-gyfan yma gan Grŵp Gweithredu ar Fawndiroedd Cymru (2018-2020). Roedd gweithgareddau yn amrywiol e.e., cytundebau Côd Mawndiroedd wedi eu datblygu, hyfforddiant, addysg, monitro, ymchwil, adfer gorgorsydd wedi eu coedwigo ac adfer cyforgorsydd, ail-broffilio 'haggs' mawn – gweler e.e., www.youtube.com/watch?v=JMUUiuA9Ijs & www.youtube.com/watch?v=78McNjDZbWY & www.iucn-uk-peatlandprogramme.org/projects/welsh-peatlands-project-sustainable-management-scheme-0<br>Fe wnaeth y prosiect ddarparu capasiti ar gyfer arwyddo'r cytundeb Côd Mawndiroedd cyntaf yn Eryri – gweler https://www.forestcarbon.co.uk/storage/app/media/Bwlch.pdf & www.bbc.co.uk/news/uk-england-gloucestershire-63587964<br><br><u>Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau Cronfa Treftadaeth Genedlaethol y Loteri (CDL)</u><br>Cafodd y prosiect £4M hwn ei ddatblygu a'i gynhyrchu ar y cyd rhwng 2017-19, gyda chyllid oddi wrth GDL ar gyfer y cam gweithredu (2020-2025). Mae nifer o themâu a phecynnau gwaith bioamrywiaeth yn rhan hanfodol o'r prosiect hwn. Mae adrannau'r prosiect yn cynnwys:<br>• Cylchdaith y Carneddau<br>• Pori'r ucheldiroedd<br>• Gwyddoniaeth dinasyddion 'LiDAR'<br>• Dolydd<br>• Gorwelion (yn cynnwys rhostir mynydd)<br>• Y cylch dŵr: mawn ac afonydd<br>• Coed, coetiroedd a gwrychoedd<br>Mae Cyfranogaeth, Cyfathrebu a Grantiau yn greiddiol i'r cynllun cyfan.<br>Gweler https://eryri.llyw.cymru/gwarchod/gwaith-cadwraeth/partneriaeth-tirwedd-y-carneddau. | cyfagos).<br><br><br>Gweler dangosyddion prosiect a amlinellir yn y cais e.e., ≤5 cytundeb Côd Mawndiroedd.<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Gweler dangosyddion prosiect a amlinellir yn y cais. |

| **NRAP Amcan 4: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd** | | |
|---|---|---|
| Delio gyda ffactorau negyddol e.e., lleihau llygredd, defnyddio datrysiadau sydd wedi eu seilio ar natur, rhoi sylw i rywogaethau ymledol | Prosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru<br>Nôd y prosiect £7.5M hwn yw gwella cyflwr 4 ACA yng ngorllewin Cymru sydd â chynefinoedd o'r math 'Coedwigoedd Glaw Celtaidd' a'u rhywogaethau nodweddiadol. Gweler https://coedwigoeddglawceltaidd.cymru. Mae llawer o'r ffocws ar reoli a difa Rhywogaethau Estron Goresgynnol (Invasive Non-Native Species – INNS) megis *Rhododendron ponticum*, Jac y Neidiwr a phidyn-y-gog Americanaidd oddi fewn i'r ACAau a byffer 1km. | Gweler y dangosyddion prosiect. |
| | Prosiect SMS Uwch Gwyrfai<br>Roedd y prosiect blaengar hwn yn gweithio i drawsnewid Tir Comin Uwch Gwyrfai a'i rywogaethau (e.e., grug, glaswelltir asidaidd, llynnoedd, tarddelli dŵr a chorsydd) trwy ei ailgysylltu gyda chymunedau lleol. Y nôd oedd galluogi porwyr i ddatrys problemau tan-bori trwy gydweithio'n well i bori'r tir comin er mwyn gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo economi gwledig yr ardal leol. | Gweler y dangosyddion prosiect. |
| | Prosiect SMS Amaethwyr Mawddwy<br>Mae grŵp o 6 menter ffermio gydag 11 daliad yn gweithio gydag APCE i wireddu gwelliannau amgylcheddol ar raddfa tirwedd. Mae amcanion yn cynnwys:<br>• gwella bioamrywiaeth a chysylltedd cynefinoedd ar ffermydd<br>• adfer mawndiroedd er mwyn sicrhau gwydnwch cynefinoedd a'u gallu i amsugno a storio carbon<br>• gwella mynediad yn yr ardal leol (gan gynnwys treialu hen ddulliau o ddefnyddio gwlân lleol fel sylfaen i lwybrau yn hytrach na geotextiles) | Gweler dangosyddion y prosiect. Mae enghreifftiau yn cynnwys plannu dros 3.5km o wrychoedd newydd & 408ha o fawndir wedi ei adfer. |
| | Prosiectau Rheoli Risk Llifogydd yn Naturiol (Natural Flood Risk Management - NFRM)<br>Sicrhaodd partneriaeth o APCE, grŵp o 11 o ffermwyr yng Nghwm Uchaf, Rhydymain ac Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy (YGC) £160k gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiect peilot NFRM 18-mis yn nalgylch Afon Wnion (2020-2022). Roedd y prosiect yn anelu i liniaru'r llifoedd dŵr uchaf mewn cyrsiau dŵr trwy ddefnyddio datrysiadau wedi eu seilio ar natur i leddfu llifogydd yn is yn y dalgylch. Roedd gwaith yn cynnwys plannu gwrychoedd, plannu coedlannau, creu pyllau, creu trapiau gwaddod a chau ac ail-broffilio ffosydd artiffisial ym mawndiroedd dwfn yr ucheldir.<br>Mae Partneriaethau Parciau Cenedlaethol wedi sicrhau cyllid o ffynonellau preifat er mwyn i APCE ymgymryd â rhaglen o fesurau NFRM ar yr Afon Dyfrdwy yn Llanuwchllyn i gychwyn yn 2023.<br>Mae cyllid SLSP wedi galluogi rhaglen o fesurau NFRM i gychwyn yn 2023 ar glwstwr o ffermydd yn nalgylch Afon Mynach (Cwmtirmynach). Bydd hyn yn ategu gwaith y prosiect LIFE Afon Dyfrdwy sydd yn weithredol yn y dalgylch. | Gweler dangosyddion prosiect NFRM Wnion e.e., 7km o wrychoedd newydd wedi eu plannu, 11 pwll newydd wedi eu creu, 3.5km o ffosydd artiffisial wedi eu cau a'u hail-broffilio mewn gorgorsydd. |

| | | |
|---|---|---|
| | Gwelir awch rheolwyr tir i ymwneud â mesurau NFRM yn cael ei amlygu trwy'r prosiectau cydweithrediadol yma.<br><br><br>Partneriaeth Awyr Dywyll (Prosiect Nos).<br>Mae prosiect Awyr Dywyll Gogledd Cymru 'Prosiect Nos' wedi bod yn rhagorol o ran ymgysylltu cymunedau gogledd Cymru gyda buddion amryfal awyr dywyll. Gweithiwyd gyda rhai mudiadau a busnesau i dreialu ôl-ffitio rhai o'r goleuadau gwaethaf gyda goleuadau sy'n cydymffurfio hefo safonau gwarchod awyr dywyll. Serch hynny, mae angen menter i helpu amnewid y goleuadau gwaethaf o ran safonau gwarchod awyr dywyll ar raddfa drawsffurfiol. Mae APCE yn falch o dderbyn grant diweddar o £50k gan Lywodraeth Cymru i dreialu ymhellach newid rhai o'r goleuadau gwaethaf o ran gwarchod awyr dywyll yn Nhirweddau Dynodedig Cymru a'r cyffiniau. Cafwyd £70k ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer monitro 'cynt ac wedyn' o ran newid rhai o'r goleuadau gwaethaf o fewn Rhwydweithiau Ecolegol Tywyll. Yn hollbwysig, bydd ail Swyddog Awyr Dywyll yn gweithio ledled Tirweddau Dynodedig Cymru, gan gychwyn yn gynnar yn 2023. Bydd y ffocws ar wella ansawdd awyr dywyll Cymru a bioamrywiaeth.<br><br>Prosiect Rhywogaethau Estron Ymledol (INNS) y Ddyfrdwy a Phrosiect Lles Ein Hafonydd<br>Pob blwyddyn mae Wardeiniaid APCE yn gweithio'n agos gyda'r prosiectau yma ar yr elfen INNS – gweler https://www.northwaleswildlifetrust.org.uk/cy/prosiect-ddyfrdwy-uchaf-a-chanol-y-ddyfrdwy<br>Wardeiniaid APCE sydd yn gyfrifol am gydlynu'r rhaglen rheoli barhaus (13+ mlynedd) ar gyfer Jac y Neidiwr a Chanclwm Siapan yn nalgylch Llyn Tegid a'i lednentydd, sef rhan uchaf dalgylch yr afon Ddyfrdwy.<br><br>Menter Gwella Tirwedd y Grid Cenedlaethol (National Grid) – ariannu rheoli Rhododendron, adfer PAWS ac adfer terfynau traddodiadol.<br>Mae dau brosiect yn Nyffryn Ffestiniog wedi derbyn arian (gwerth £200k yr un) er mwyn galluogi APCE i wella cysylltedd cynefinoedd ac annog bywyd gwyllt, diogelu coetiroedd hynafol a rheoli rhywogaethau ymledol megis *Rhododendron ponticum*, Canclwm Siapan a bambŵ.<br><br>Datgarboneiddio<br>Mae'r Rhaglen Waith Corfforaethol yn cynnwys sawl menter ar gyfer ymateb i heriau newid hinsawdd, gan gynnwys:<br>• Effeithlonrwydd ynni a lleihau ôl-troed carbon adeiladau APCE i fod yn rhan annatod o'r Cynllun Rheoli Asedau newydd yn gyfochrol â 'Ffyniant i Bawb – Targedau Carbon Isel yr Ystâd Gyhoeddus'.<br>• Datblygu Cynllun Gweithredu yn seiliedig ar | Gweler y dangosyddion prosiect.<br><br>Safle PAWS 25ha i'w gynhaeafu a'i ail-stocio gyda choed llydanddail brodorol. 200ha o dir (ffridd, coetiroedd llydanddail brodorol a rhai masnachol) lle mae Rhododendron yn cael ei reoli.<br><br>Gweler y dangosyddion yn Rhaglen Waith Corfforaethol APCE e.e., targed o 45% o deithiau'n defnyddio dulliau cynaliadwy erbyn 2040. |

<table>
<tr>
<td></td>
<td>
<ul>
<li>argymhellion yr adroddiad Astudiaeth Carbon i APCE fod yn niwtral o ran carbon erbyn 2030.</li>
<li>Comisiynu adroddiad i nodi sut y gall yr Awdurdod gynorthwyo i sicrhau bod ardal y Parc Cenedlaethol yn garbon niwtral erbyn 2050 i gynnwys cyfeirnod penodol i reoli tir a gweithio tu hwnt i eiddo’r Awdurdod.</li>
<li>Cefnogi partneriaeth strategol gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro ar Adfer Natur ac Atafaeliad Carbon yn Nhirweddau Dynodedig Cymru a chynnal swydd arweinydd strategol.</li>
</ul>
<br>
<u>Llun o bwynt gwefru newydd yn Ogwen.  Efallai bod lle i gysoni ymhellach ag amcanion Awyr Dywyll a Llonyddwch?</u><br>

<br>
Enghraifft o weithredu hyd yma yw’r fflud gynyddol o gerbydau trydan gan APCE all gael eu bwcio a’u defnyddio gan staff, a rhagor o bwyntiau gwefru cerbydau trydan wedi eu gosod mewn lleoliadau strategol.  Enghraifft arall yw’r cynnydd sylweddol mewn gweithio gartref i staff ers 2020 a defnydd helaeth o Microsoft Teams i fynychu cyfarfodydd sydd yn lleihau allyriadau cymudo.<br>
<br>
Mae gan APCE Grŵp Carbon mewnol.  Dylai APCE ymrwymo i waredu tanwydd fossil o’u holl weithgareddau ac o bob rhan o’u cadwyni cyflenwi.  Byddai parhau i allyrru $CO_2$ a dibynnu ar gredydau carbon i gyflawni niwtraliaeth carbon yn ‘greenwashing’, ar y gorau.<br>
<br>
<u>Prosiect ‘Geiriau Diflanedig’</u><br>
Mae datblygiad yr arddangosfa ‘Geiriau Diflanedig’ yn mynd i’r afael â’r bygythiad llechwraidd i gynefinoedd a rhywogaethau o ganlyniad i leihad yng nghysylltiad pobl ifanc â nhw.  Ysgogiad mawr i’r prosiect oedd geiriadur i blant oedd yn mynd i hepgor geiriau Cymraeg oedd unwaith yn gyffredin ar wefusau plant Cymru e.e. dyfrgi, iorwg, dryw a.y.b..  Prosiect ydyw trwy gydweithrediad ag Amgueddfa Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Sir Benfro ac APCE.
</td>
<td>Nifer o bobl ifanc bydd yr arddangosfa ‘Geiriau Diflanedig’ yn ymgysylltu â nhw yn ystod 2024.</td>
</tr>
</table>

| NRAP Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro | | |
|---|---|---|
| Gwella'r defnydd o dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau | Mae gan APCE Gytundeb Lefel Gwasanaeth blynyddol gyda Cofnod (Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru) a bydd yn defnyddio data Cofnod wrth lunio penderfyniadau e.e., penderfyniadau polisi a chynllunio, cynllunio prosiectau. Mae staff maes APCE wedi eu hannog a'u hyfforddi i gyflwyno pob cofnodion biolegol ar-lein i Cofnod. Mae APCE yn gweithio'n agos gyda Cofnod er mwyn trosglwyddo data o wahanol ffynonellau e.e. adroddiadau ar arolygon biolegol a gyflwynir gyda cheisiadau cynllunio. | Mae dangosyddion monitro cynllunio wedi eu cynnwys yn Adran 3 ac Atodiad 1 o Adroddiad Monitro Blynyddol 2022 CDLl APCE. Defnyddir data o ystod eang o ffynonellau yn ystod cynhyrchu Adroddiad Cyflwr y Parc bob 5 mlynedd. Nifer o gofnodion biolegol gan APCE wedi eu trosglwyddo i fas-data Cofnod. |
| | Bu i Fforwm Eryri (trwy APCE) gomisiynu astudiaeth 'Bywyd Gwyllt Dan Glo' yn ystod 2020-2022 er mwyn ceisio asesu (yn fesuradwy ac yn ansoddol) rhai o effeithiau'r cyfnodau clo Covid-19 digynsail ar fywyd gwyllt gogledd-orllewin Cymru mewn saith lleoliad poblogaidd a phrysur o ran ymwelwyr. Gweler https://eryri.llyw.cymru/gwarchod/gwaith-cadwraeth/bywyd-gwyllt-dan-glo | Gweler adroddiadau'r prosiect ar wefan APCE. |
| | Mae APCE yn bartner yn Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (Environment & Rural Affairs Monitoring and Modelling Programme - ERAMMP). Nôd ERAMMP yw cyflawni rhaglen o fonitro a modelu sy'n casglu data ar draws tirwedd Cymru ac yn cysylltu unrhyw newidiadau i'w heffeithiau ar amrediad eang o fuddion gan gynnwys bioamrywiaeth. Cyflogir y Swyddog ERAMMP Tirweddau Dynodedig Cymru gan APCE. | Gweler https://erammp.wales/cy |
| | Mae APCE yn ymchwilio i fwlch tystiolaeth trwy weithio gydag adran Geneteg Coedwig y Forest Enterprise (FE) yng Nghaeredin i wneud ymchwiliad trwy ddefnyddio technegau meta-barcodio DNA o'r amrywiaeth geneteg yng nghoed poplys duon cynhenid sy'n tyfu yn Eryri a'r cyffiniau. Bydd hyn yn hysbysu rhaglen o gymryd tocion i uchafu'r amrywiaeth genetigol yng nghoed poplys duon ar gyfer eu plannu allan o 2023 ymlaen. | Adroddiad gan FE ar derfyn cwblhau'r ymchwil genetigol. |
| | Mae APCE yn hwb lleol ar gyfer cydlynu casglu cyrff dyfrgwn marw sy'n bwydo i mewn i Brosiect Dyfrgwn Prifysgol Caerdydd a bas-data lleoliadau dyfrgwn marw Asiant Priffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (North and Mid Wales Trunk Road Agent – NMWTRA). Mae'r Prosiect Dyfrgwn yn rhedeg cynllun arsylwi amgylcheddol hirdymor, gan ddefnyddio dyfrgwn a ganfyddir yn farw er mwyn archwilio difwynwyr, heintiau a bioleg y boblogaeth ledled y DU. | Gweler www.cardiff.ac.uk/otter-project. Nifer y mannau peryclaf i ddyfrgwn lle mae mesurau lliniaru wedi eu gosod. |
| | Mae gan un aelod o staff APCE drwydded i gyflawni monitro ac arolygon o glwydfannau ystlumod. Caiff y canlyniadau eu | |

| | | |
|---|---|---|
| | mewnbynnu i Cofnod, eu hadrodd i adran trwyddedu CNC, a'u gyrru fel cyfraniad i Raglen Monitro Cenedlaethol Ystlumod (National Bat Monitoring Programme - NBMP) y Bat Conservation Trust ac Adroddiadau Erthygl 17 CNC.<br><br>Mae APCE yn hwb lleol ar gyfer codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Monitro Adar Ysglyfaethau (Predatory Bird Monitoring Scheme - PBMS), ac yn hwb ar gyfer casglu cyrff i'w gyrru i'r Centre for Ecology and Hydrology (CEH).<br><br>Mae APCE wedi prynu drôn ar gyfer nifer o ddibenion casglu data a monitro. Cafodd staff eu hyfforddi yn Hydref 2019 i fod yn beilotiaid drôn cymwys. Enghraifft o'u defnydd oedd cyd-weithio â Network Rail i fapio *Rhododendron ponticum* yn blodeuo ar y clogwyni môr ar Ystâd Network Rail rhwng Friog a Llwyngwril ym Mai-Mehefin 2020. Arweiniodd hyn at gynhyrchu 'orthomosaics' ansawdd uchel gan APCE, a wnaeth alluogi ymgymerwyr Network Rail yn eu tro i gychwyn Gwedd 1 gwaith rheoli Rhododendron rhwng Tachwedd-Rhagfyr 2021. Fe wnaeth hyn ychwanegu gwerth i'r prosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru. Defnyddir lluniau drôn yn rheolaidd ar gyfer dibenion ymgysylltu. | Adroddiadau Erthygl 17 CNC a rhaglen NBMP y BCT<br><br>Data o gyrff adar yn bwydo i'r PBMS - https://pbms.ceh.ac.uk<br><br>Pedwar o staff APCE yn beilotiaid drôn cymwys. Nifer y prosiectau lle mae drôns wedi darparu data. |

| NRAP Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion | | |
|---|---|---|
| Sicrhau llywodraethu ar gyfer bioamrywiaeth o fewn APCE | Yn y pen draw, Prif Weithredwr ac Aelodau APCE sydd yn gyfrifol am sicrhau bod camau bioamrywiaeth yn cael eu gweithredu ledled yr Awdurdod. | Caiff y Ddyletswydd Bioamrywiaeth (trwy Amcanion yng Nghynllun Eryri) ei fonitro, ei adolygu a'i adrodd arno yn Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Eryri. Ceir adroddiad ar lywodraethiant yn Natganiad Llywodraethiant Blynyddol APCE. |
| Darparu capasiti ar gyfer bioamrywiaeth | Mae gan APCE Ecolegydd (Cynllunio) ac Uwch Ecolegydd (Prosiectau). Mae'r swydd a grëwyd yn ddiweddar sef Swyddog Gwirfoddoli a Llesiant yn un gymharol newydd ar strwythur staffio APCE, ac yn sicrhau gwell cydlyniant rhwng cyfleoedd gwirfoddoli a gwella bioamrywiaeth gyda phartneriaid. Mae Gwasanaeth Wardeiniaid yn ymwneud yn rheolaidd â chynnwys cymunedau lleol a grwpiau addysgol mewn gweithgareddau bioamrywiaeth trawstoriadol. Mae bioamrywiaeth yn greiddiol i fwyafrif prosiectau APCE. Cedwir cysylltiad agos gyda holl gynghorau cymuned Eryri trwy gynnal cyfarfodydd a chyfathrebu yn gyson, sy'n arwain at gyfleoedd i weithio â'n gilydd i hybu bioamrywiaeth. APCE sy'n darparu'r ysgrifenyddiaeth (Cydlynydd Partneriaeth Natur Lleol - PNLl) i Bartneriaeth Natur Lleol Eryri, er bod y cyllido cymharol fyrdymor heb os wedi bod yn ffactor yn nhrosiant gymharol uchel o staff yn y rôl yn anffodus. Mae teulu Parciau Cenedlaethol y DU yn darparu Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) yn flynyddol ar ffurf cyfarfodydd/hyfforddiant 3-diwrnod ar gyfer grwpiau o gyfoedion e.e., Ecolegwyr y Parciau, Swyddogion Cyswllt Amaeth/Adnoddau Naturiol a.y.b..<br><br>Darperir arbenigedd mewnol mewn perthynas â choed gan Goedwigwr a Swyddog Coed & Choedlannau'r Awdurdod. Hwyluswyd sefydlu micro feithrinfeydd coed ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog a Henfaes, Abergwyngregyn gan arian grantiau. Mae hyn wedi darparu cyfleoedd arbennig ar gyfer ymgysylltu â gwirfoddolwyr trwy ddigwyddiadau casglu hadau ac wedi galluogi ACPE i westeio digwyddiadau fel Gweithdy Bioddiogelwch Meithrinfeydd Coed diweddar Llais y Goedwig yn Nhachwedd 2022. Yn ogystal, mae APCE wedi gallu darparu dyddiau dysgu ar gyfer eraill sydd eisiau sefydlu micro feithrinfeydd coed yn lleol. Mae hyn yn darparu capasiti ar gyfer arwain ar amcanion y Goedwig Genedlaethol a Strategaeth Goed & Choedlannau APCE. | Gweler www.eryri.llyw.cymru/ am flas o weithgareddau<br><br>Nifer o wirfoddolwyr ynghlwm â diwrnodau casglu hadau (trwy amrywiaeth o brosiectau). Nifer o fynychwyr (12) Gweithdy Bioddiogelwch Meithrinfeydd Coed Llais y Goedwig. |

| | | |
|---|---|---|
| Cefnogi camau gweithredu o blaid bioamrywiaeth trwy gyllid a/neu bartneriaethau | Mae APCE yn bartner yn y Prosiect Partneriaethau Natur Lleol (Local Nature Partnerships – LNP) Cymru 2019-2022 a ariennir gan Lywodraeth Cymru trwy'r gronfa 'Galluogi Natur a Llesiant' ('Enabling Natural Resources and Well-being' – ENRaW). Mae'r prosiect hwn yn ariannu cydlynydd prosiect 0.6FTE. Mae APCE wedi gwneud hon yn swydd lawn amser hyd fis Mawrth 2022 yn wreiddiol (wedi ei ymestyn yn ddiweddarach i Fawrth 2023) trwy ychwanegu 0.4FTE ar gyfer gwaith bioamrywiaeth/gwella Adran 6 ehangach yn Eryri. Mae prosiect LNP Cymru yn darparu £7k y flwyddyn ar gyfer gwaith bioamrywiaeth uniongyrchol gan randdeiliaid, ac mae APCE wedi ychwanegu £10k arall dros gyfnod 3 blynedd y prosiect.<br><br>Fel aelod o Grŵp Awdurdodau Perthnasol Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau (PLAS) a Grŵp Cyswllt PLAS, mae APCE yn cadeirio'r ddau Grŵp ac yn gwbl ymroddedig i'w gwaith. Ar hyn o bryd, mae APCE yn cyfrannu £3,100 yn flynyddol tuag at y gost o gyflogi Swyddog ACA Pen Llŷn a'r Sarnau. Mae APCE yn teimlo ei fod yn hollbwysig i'r rôl yma bod Awdurdodau Perthnasol eraill yn darparu cyllid craidd blynyddol i gadw Swyddog ACA Pen Llŷn a'r Sarnau mewn lle. Gyda threfniadau cyllido cyfredol (ar sail blwyddyn-i-flwyddyn ac ar sail prosiectau gan fwyaf) barn APCE yw bod risg sylweddol o beidio gallu cadw arbenigedd, rhwydweithiau a chydberthynas cymunedol rhagorol y swyddog sefydledig. Mae cefnogi'r Swyddog ACA yn hanfodol i amcan â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru o gwrdd ag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu cynllun â thargedau i helpu i adfer cynefinoedd morwellt a morfeydd heli ar hyd ein harfordir. Yn ogystal, mae'n helpu i wireddu uchelgeisiau Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chyfrannu at ddatblygu polisi ar garbon glas.<br><br>Mae partneriaeth strategol gyda Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Sir Benfro ar Adfer Natur ac Atafaeliad Carbon yn Nhirweddau Dynodedig Cymru wedi ei sefydlu, gydag APCE yn cynnal swydd yr arweinydd strategol.<br><br>Mae partneriaethau sydd wedi eu creu drwy Gynllun Partneriaeth Yr Wyddfa a Chynllun Eryri yn cyflawni ystod eang o weithrediadau strategol ac amcanion prosiect mewn partneriaeth gydag ystod eang o sefydliadau, busnesau a grwpiau cymunedol ledled y Parc Cenedlaethol. | Cydlynydd Bioamrywiaeth LNP Cymru APCE wedi ei hapwyntio yn Nhachwedd 2019 i wireddu amcanion prosiect LNP Cymru a gwaith bioamrywiaeth ehangach yn Eryri.<br><br>Gwella rheolaeth a chyfranogaeth gydag ACA PLAS e.e., treialu angorau helical ym Mhorthdinllaen er mwyn lleihau niwed i'r gwelyau morwellt. Nifer o blant sy'n ymwneud â'r Pecyn Addysg Tir a Môr newydd.<br><br>Datblygiad cynllun strategol i ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd.<br><br>Nifer o unigolion/busnesau yn derbyn achrediad Llysgennad Eryri e.e., 790 achrediad efydd hyd yma, gyda 660 o'r rheini ym mynd ymlaen i gyflawni achrediad arian, a 590 o'r rheini yn cyflawni achrediad aur. |

| **Adolygiad o ddyletswydd Adran6** |
|---|
| Beth sydd wedi gweithio'n dda? Beth oedd y rhwystrau? Beth ydych am ei newid?<br><br>• Mae datblygiad Adran Ymgysylltu ag adnoddau gymharol dda wedi galluogi APCE i gychwyn taclo mewn dull strategol a chydweithrediadol rhai o'r materion hirdymor cymdeithasol a systemig sy'n effeithio yn negyddol ar fioamrywiaeth ac ecosystemau Eryri. Enghreifftiau yw cyd-ddylunio Cynllun Eryri, Cynllun Partneriaeth Yr Wyddfa, Cynlluniau Lleol, cynlluniau Caru Eryri a Llysgennad Eryri (www.ambassador.wales/llysgennad-eryri <http://www.ambassador.wales/llysgennad-eryri>) a chynhyrchu a gwireddu Strategaeth Hamdden, Strategaeth Gwirfoddoli, a Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth. Mae hefyd wedi galluogi negeseuo cyflym a bachog i'r cyhoedd yn gyffredinol, llawer ohonynt nad o reidrwydd sy'n gyfarwydd â negeseuo ac egwyddorion 'côd cefn gwlad' yn flaenorol.<br>• Yn ddiweddar fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Plymio Dwfn Bioamrywiaeth' ac mae'r argymhellion yr un mor berthnasol i Eryri ac ydynt i weddill Cymru. Er enghraifft, croesawn yn fawr Argymhelliad 1 – 'Gwella effeithlonrwydd o ran amddiffyn rhag effeithiau niweidiol datblygiad a bygythiadau / pwysau eraill drwy gynyddu capasiti a gallu mewn cyrff cyhoeddus perthnasol i gymryd camau gorfodi effeithiol lle bo angen'. Mae nifer o achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth cynllunio posib sy'n effeithio yn negyddol ar fioamrywiaeth a gwydnwch ecoystemau yn dal heb eu datrys. Nid yw'r rhesymau yn gwbl glir – efallai nad ydynt i'w gweld yr un mor dear a rhai materion cydymffurfiaeth eraill mewn hinsawdd lle mae'r Adran Rheolaeth Datblygu a Chydymffurfiaeth wedi bod yn dennau iawn o ran adnoddau ers blynyddoedd lawer.<br>• Cododd mater yn Ionawr 2022 lle cafodd APCE ei feirniadu yn gyhoeddus am waith ar lwybr cyhoeddus oduchaf Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Cors Geuallt uwchben Capel Curig e..e., <https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/60160172>. Cafodd cynefinoedd mawndir a rhostir â blaenoriaeth eu dwyrannu gan ffosydd draenio newydd mewn mannau. Rheswm a roddwyd am y diffyg ymgynghori digonol cyn y gwaith oedd yr amserlen dynn i wario'r grant Llywodraeth Cymru er mwyn gwireddu'r prosiect. Os oes dysgu wedi bod o'r prosiect, ymddengys ei fod wedi ei adlewyrchu i raddau yn Rhaglen Waith Corfforaethol 2022-2023 APCE lle mae pwynt gweithredu i staff APCE 'Gynhyrchu canllawiau ar gyfer cyflawni gwaith mynediad yn Eryri'.<br>• Gall fod yn anodd derbyn gwyriadau (derogations) Glastir er mwyn rheoli tir yn ymaddasol yn Eryri (e.e., cyflwyno pori er mwyn rheoli ffrwydradau Jac y Neidiwr mor gynaladwy â phosib). Gall fod yn anodd ofnadwy rheoli INNS (e.e., Rhododendron) yn effeithiol ar dir sydd o fewn rhai mathau o gytundebau Organic.<br>• Byddai hyfforddiant yn ddefnyddiol fel bod buddion datrysiadau 'clear-span' (o'u cymharu ag e.e., cwlferts) yn cael eu gwerthfawrogi'n ehangach o ran gwella prosesau ac ecosystemau afonol.<br>• Byddai hyfforddiant gan CNC i APCE ar oblygiadau safonau a thargedau ffosffadau yn ddefnyddiol dros ben. Efallai bydd angen comisiynu Asesiadau Ffosffad a Strategaethau Lleihau ar gyfer pob dalgylch afon ACA yn y Parc Cenedlaethol.<br>• Efallai gall mwy o ffynonellau ariannu grant e.e., Cronfa Cymunedol Eryri gael amodau ynghlwm a nhw sy'n sicrhau rhagor o welliannau i fioamrywiaeth ar draws Eryri.<br>• Mae APCE yn teimlo ei fod yn hanfodol bwysig i barhad gweithredu amcanion morol yn seiliedig o amgylch ACA Pen Llŷn a'r Sarnau bod rhagor o gyllido craidd yn cael ei ddarparu tuag at gost cyflogi Swyddog ACA Pen Llŷn a'r Sarnau.<br><br>Pa bryd a sut caiff dyletswydd Adran6 ei fonitro a'r cynllun Adran6 ei adolygu?<br><br>• Mae gofynion Adran6 eisoes yn y mecanwaith sydd yn ceal ei ddefnyddio i adrodd ar Gynllun Eryri (sy'n cael ei adolygu bob 5 mlynedd) a'u hymgorffori yn Adroddiad Cyflwr y Parc. Mae hyn yn lleihau yr adnoddau sydd eu hangen i gydlynnu adroddiadau ac yn sicrhau fod Dyletswyddau Adran6 yn greiddiol yn rhaglenni gwaith yr Awdurdod a phrosesau caffael ei Haelodau. |

**EITEM RHIF 10**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 30 Tachwedd 2022 |
| **TEITL** | **ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH 2021/22** |
| **ADRODDIAD GAN** | Gwasanaeth Adnoddau Dynol |
| **PWRPAS** | Er Gwybodaeth |

## 1. CEFNDIR

1.1 Yn y gorffennol, mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Polisi Iechyd a Diogelwch. Mae hyn yn nodi'r cyfrifoldebau a'r rolau Iechyd a Diogelwch i reolwyr a staff. Mae'r Grŵp Iechyd a Diogelwch yn adolygu'r polisi hwn yn flynyddol ac mae unrhyw ddiwygiadau'n cael eu cadarnhau gan y Tîm Rheoli.

1.2 Mae'r Grŵp Iechyd a Diogelwch yn cwrdd bob chwarter. Cadeirydd y Grŵp yw Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ar ran y Tîm Rheoli ac mae'n cael ei gydlynu a'i weinyddu gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol.

Aelodau presennol o’r Grŵp:

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
Pennaeth Adnoddau Dynol
Pennaeth Wardeiniaid
Swyddog Prosiect Mynediad
Pennaeth Eiddo
Rheolwr Eiddo a Chyfleusterau
Prif Swyddog Cynllunio – Rheoli Datblygu
Pennaeth Cadwraeth, Coetiroedd ac Amaethyddiaeth
Swyddog Coed a Choetir

Mae swyddogion eraill yn adrodd i / mynychu'r Grŵp yn ôl y gofyn. Er enghraifft, Pennaeth Gweinyddu a Gofal Cwsmeriaid, Pennaeth Ymgysylltu.

1.3 Mae Iechyd a Diogelwch hefyd wedi'i gynnwys yng nghylch gwaith y Gweithgor Lleol ar y cyd gyda'r Undebau Llafur a Gwasanaeth Adnoddau Dynol fel y bo'n briodol.

1.4 Mae eitem safonol hefyd ar agenda cyfarfod y Tîm Rheoli lle gellir codi unrhyw faterion.

**2. HYFFORDDIANT**

2.1 Dechreuais yn y swydd yn ystod Mehefin 2022 ac rwy'n awyddus i strwythuro cynllun hyfforddi yn ystod y cyfnod adrodd nesaf er mwyn canolbwyntio ar wahanol agweddau o Iechyd a Diogelwch yn ôl blaenoriaeth.

**3. ACHOSION**

Mae'n arferol cymharu data blwyddyn ar flwyddyn. Fodd bynnag, mae data o'r cyfnod hwn yn parhau i fod yn anghynrychiadol o flynyddoedd blaenorol gan fod sawl aelod o staff yn parhau i weithio o adref.

**4. PANDEMIG COVID -19**

4.1 Mae llawer o aelodau staff yn parhau i weithio o adref ac felly mae mesurau a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig yn parhau i fod ar waith, fel cynnal cyfarfodydd yn rhithiol.

Er bod mwy o bresenoldeb yn y gweithle, nid ydym yn rhagweld dychwelyd i'r arferion gweithio cyn-bandemig, traddodiadol, llawn amser, yn y swyddfa gan fod y tirwedd wedi newid am gyfnod amhenodol.

Mae'r Awdurdod wedi trefnu cyfarfod gyda'r Tîm Rheoli a'r holl Benaethiaid Adran ym mis Rhagfyr 2022 i adolygu gwahanol ffyrdd o weithio i ystyried dulliau ystwyth o arferion gwaith ar gyfer y byd gwaith modern.

**5. ARGYMHELLIAD**

5.1 I nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

**EITEM RHIF 11**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 30 Tachwedd 2022 |
| **TEITL** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL CANOLFANNAU GWYBODAETH** |
| **ADRODDIAD GAN** | Rheolwr Twristiaeth Cynaliadwy |
| **PWRPAS** | I ddiweddaru Aelodau ar gynnydd y Canolfannau Gwybodaeth |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae gan yr Awdurod 3 Canolfan Wybodaeth, Aberdyfi, Beddgelert a Betws y Coed. Mae canolfannau Aberdyfi a Beddgelert ar agor yn dymhorol, ac mae canolfan Betws y Coed ar agor trwy gydol y flwyddyn.

1.2 Ers 2018 mae canolfan Beddgelert wedi bod yn agor am wythnos dros hanner tymor Chwefror ac yna ar benwythnosau'n unig hyd nes y bydd yn agor am y tymor ar y penwythnos olaf ym Mawrth.

1.3 Ar gyfer yr adroddiad hwn rwyf wedi cynnwys cymariaethau ar gyfer y 4 blynedd diwethaf gan fod Covid 19 wedi amharu'n sylweddol ar flynyddoedd 2020 & 2021.

## 2. TROSOLWG O'R FLWYDDYN 2022-23 HYD YN HYN

2.1 Agorodd y tair canolfan ar amser ac i fod ar agor am y tymor cyfan.

2.3 Mae mesurau diogelwch Covid wedi aros i raddau yn y tair canolfan. Mae'r mesurau sydd wedi bod yn weithredol drwy gydol y tymor wedi cynnwys –

- Systemau un ffordd drwy'r canolfannau ym Meddgelert a Betws y Coed (diddymwyd system un ffordd Betws y Coed ar Dachwedd y 9fed)
- Ardaloedd arddangos ar gau ym Meddgelert a Betws y Coed. Ailagorodd yr arddangosfa ym Metws y Coed ar Hydref 22ain. Mae'r setiau realiti rhithwir (VR) wedi bod yn hynod boblogaidd gydag ymwelwyr.
- Oriau agor cyfyngedig i ganiatáu amser glanhau ychwanegol ac amser cinio.

Yn dilyn ymgynghoriad â staff, mae'r Asesiad Risg Covid yn parhau yn ei le, gyda rhai mesurau yn parhau ddechrau'r flwyddyn nesaf.

2.4 Fel gwasanaeth rydym wedi wynebu nifer o heriau gyda'n lefelau staffio. Mae recriwtio wedi bod yn hynod heriol gyda swyddi heb eu llenwi am gyfnodau hir. Roedd absenoldeb oherwydd salwch, nid yn unig gyda Covid hefyd yn sylweddol. Mae hyn wedi bod yn heriol i staff gyda chanolfannau'n cael eu cau neu heb ddigon o staff.

2.5 Y llynedd bu i ni dreialu math newydd o gytundeb cyflogaeth yn llwyddiannus lle cafwyd un o'n haelodau staff nad oedd yn gyflogedig i ganolfan benodol ond wedi'i gytundebu a'i hyfforddi i weithio yn y tri chanolfan. Bu hyn yn llwyddiannus wrth lenwi bylchau staffio tymor byr oherwydd salwch. Mae'r swydd hon wedi parhau'n wag eleni er gwaethaf ymdrechion niferus i recriwtio.

## 3. CANOLFAN ABERDYFI

3.1 Gweler data'r Ganolfan yn yr atodiad. Ffigyrau'r flwyddyn 22/23 yn llawn. Yn cynnwys Tueddiadau Tymor Byr gyda chymariaethau â 21/22 a 19/20, hefyd tueddiadau tymor hir o 2015.

3.2 Aberdyfi yw ein canolfan leiaf ac y mwyaf heriol i orfodi system Covid Unffordd. Yn dilyn cais gan staff, cafodd y system ei diddymu yn gynnar yn y tymor.

3.3 Aberdyfi welodd yr heriau mwyaf oherwydd materion recriwtio staff. Yn dilyn ymadawiad staff ar ddiwedd 2021 methwyd â recriwtio aelod staff newydd tan ddiwedd mis Mai er gwaethaf hysbysebu o fis Ionawr. Ynghyd â’r methiant i benodi cytundeb ‘fel y bo’r angen’ mae wedi golygu bod Aberdyfi wedi bod ar gau am 31 o’r 220 diwrnod y bwriadwyd ei agor. Mae hyn wedi golygu colled amcangyfrifedig o £3,789 mewn trosiant yn y ganolfan.

3.4 Er gwaethaf y golled amcangyfrifedig mewn incwm mae Aberdyfi wedi cael ei blwyddyn fwyaf llwyddiannus yn ariannol gyda gwerthiant yn ôl i lefelau cyn-bandemig. Mae hyn yn hynod nodedig gan fod nifer yr ymwelwyr yn parhau i fod tua 20% yn is.

3.5 O edrych ar y gymhariaeth hirdymor gallwn weld bod y gwariant cyfartalog fesul trafodiad wedi parhau'n uchel. Mae elw y pen wedi gostwng oherwydd y niferoedd llawer uwch o ymwelwyr, fodd bynnag mae'n parhau'n sylweddol uwch na'r lefelau cyn pandemig.

## 4. CANOLFAN BEDDGELERT

4.1 Gweler data'r Ganolfan yn yr atodiad. Ffigyrau'r flwyddyn 22/23 yn llawn. Yn cynnwys Tueddiadau Tymor Byr gyda chymariaethau â 21/22 a 19/20, hefyd tueddiadau tymor hir o 2015.

4.2 Arhosodd y system unffordd ym Meddgelert drwy gydol y tymor gyda drysau'r capel yn wynebu'r stryd yn fynedfa. Byddwn yn parhau i ddefnyddio drysau’r capel fel pwynt mynediad a ffordd allan yn y blynyddoedd i ddod, yn anecdotaidd credwn fod hyn wedi cyfrannu at lwyddiant ariannol y ganolfan drwy’r pandemig.

4.3 Roedd Beddgelert hefyd wedi profi heriau oherwydd materion staffio, yn yr achos hwn oherwydd salwch staff. Bu'r ganolfan ar gau am 11 diwrnod trwy'r tymor gydag amcangyfrif o golled o £3,423 mewn trosiant. Roedd y ganolfan yn brin o staff am 35 diwrnod arall, gan effeithio ar lefel y gwasanaeth y gellid ei ddarparu.

4.4 Yn debyg i Aberdyfi, er gwaethaf colli incwm mae Beddgelert wedi cael ei flwyddyn fwyaf llwyddiannus yn ariannol gydag incwm gwerthiant dros 30% yn uwch na 2019. Fel yn Aberdyfi mae hyn er gwaetha’r niferoedd ymwelwyr yn parhau i fod 14% yn is na 2019.

4.5 O edrych ar y gymhariaeth tymor hir gwelwn fod elw y pen ddwywaith cymaint ag Aberdyfi a Betws y Coed a gwariant cyfartalog fesul trafodiad yn parhau i dyfu.

4.6 Credwn fod tri phrif ffactor i lwyddiant Beddgelert o gymharu â'n canolfannau eraill –

- Mae demograffeg ymwelwyr yn chwarae rhan. Mae'r diffyg dewis o ran y math o lety a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus cymharol wael ym Meddgelert yn golygu ei fod ond yn bosib i ymwelwyr â lefelau uwch o incwm gwario fel cyrchfan I aros dros nos.
- Diffyg cystadleuaeth manwerthu yn y pentref o gymharu â'n lleoliadau eraill.
- Roedd gwasanaethau Rheilffordd Ucheldir Cymru yn gorffen ym Meddgelert (Porthmadog i Feddgelert ac yn ôl, Caernarfon i Feddgelert ac yn ôl) a rhoddwyd awr a hanner i deithwyr grwydro'r pentref. Roedd lleoliad y ganolfan ar y llwybr o'r orsaf i'r pentref ynghyd ag agor prif ddrysau'r capel yn wynebu'r stryd yn sicrhau bod nifer fawr o deithwyr trên yn canfod eu ffordd i'r ganolfan.

## 5. CANOLFAN BETWS Y COED

5.1 Gweler data'r Ganolfan yn yr atodiad. Ffigyrau'r flwyddyn 22/23 yn llawn. Yn cynnwys Tueddiadau Tymor Byr gyda chymariaethau â 21/22 a 19/20, hefyd tueddiadau tymor hir o 2015.

5.2 Cafwyd hefyd heriau staffio ym Metws y Coed oherwydd cyfuniad o fethu recriwtio a salwch staff. Ni chafwyd gymaint o ddyddiau ar gau a'r ddwy ganolfan arall (dim ond cau am 1 diwrnod) fodd bynnag roedd prinder o weithwyr am 39 diwrnod yn effeithio lefel y gwasanaeth y gellid ei ddarparu.

5.3 Betws y Coed welodd yr effaith fwyaf negyddol yn ystod y Pandemig. Mae niferoedd ymwelwyr wedi gweld yr adlam mwyaf i lefelau cyn pandemig, gydag eleni ond 8% i lawr o 2019.

5.4 Nid yw gwerthiant wedi dod yn ôl i'r un graddau, sef 14% yn is na 2019. Fodd bynnag, bu cynnydd sylweddol o 30% ar 21/22.

## 6. EDRYCH YMLAEN

6.1 Fel y soniwyd uchod, bydd rhai mesurau diogelwch Covid yn parhau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys y 'sgriniau tisian' ar y desgiau ymwelwyr, darparu hylif diheintio dwylo gyda chyngor nad yw unrhyw un sydd wedi cael prawf bositif am Covid-19 yn ddiweddar yn cael mynediad i'r canolfannau.

6.2 Oherwydd y pandemig bu'n anodd dod i gasgliadau pendant o'r ffigyrau diweddar. Yn adroddiad y llynedd fe wnaethom amlygu rhai rhagdybiaethau sydd i raddau helaeth wedi dod i ben. Wrth edrych i'r tymor nesaf rydym yn gweld heriau ymhellach gan y rhagolygon economaidd presennol.

Er gwaethaf y rhagolygon economaidd llwm ar gyfer manwerthu rwy'n disgwyl i'r enillion ariannol a welwyd eleni ym Meddgelert a Betws y Coed barhau hyd at y flwyddyn nesaf naill ai aros yn gyson fel lefelau eleni (Beddgelert) neu gynyddu ychydig (Betws y Coed). Mae'r ddwy ganolfan hyn yn cael nifer uwch o Ymwelwyr Rhyngwladol ac eleni gwelwyd lefelau isel o ymwelwyr Ewropeaidd ac Americanaidd gyda mwy o gapasiti gwario nag yr ydym wedi gweld yn hanesyddol oherwydd y gyfradd gyfnewid ffafriol. Dylai dychweliad mwy o'r ymwelwyr hyn y flwyddyn nesaf

wrthbwyso'r gostyngiad yn incwm gwario ymwelwyr o'r DU. Mae gan Aberdyfi fwy o her i gynnal lefel incwm y flwyddyn yma, gan eu bod yn draddodiadol yn croesawu llai o ymwelwyr rhyngwladol na Beddgelert a Betws y Coed ac mae'n fwy dibynnol ar ymwelwyr o Brydain.

- Mae gan Betws y Coed fantais o'r arddangosfa sydd wedi ei uwchraddio a fydd yn atyniad i ymwelwyr. Gobeithiwn y bydd lansiad tawel ym mis Chwefror gydag ymgyrch farchnata ar-lein arall cyn y Pasg

- Byddwn yn disgwyl i nifer yr ymwelwyr yn y tair canolfan gynyddu eto'r flwyddyn nesaf, mae Betws y Coed yn debygol o fynd yn ôl i lefelau 2019. Byddwn yn disgwyl i'r cynnydd mewn arosiadau dros nos barhau i ryw raddau wrth i deithio tramor ddod yn ddrytach i ymwelwyr o Brydain.

6.3 Y bygythiad mwyaf i wireddu'r casgliadau uchod fyddai ein methiant i recriwtio a chadw staff ar gyfer y canolfannau.

6.4 Oherwydd llwyddiant Beddgelert a niferoedd cynyddol o ymwelwyr, y bwriad yw treialu agor ar benwythnosau ychwanegol dros y gaeaf. Disgwylir y bydd hyn yn gost niwtral i gyllideb y Ganolfan oherwydd y gwerthiant disgwyliedig.

**ARGYMHELLIAD**

**I'r Aelodau drafod cynnwys yr adroddiad ac unrhyw gamau a ddylai cael eu cymryd wrth i ni edrych tuag at 2023-2024.**

***CANOLFAN* / CENTRE: ABERDYFI**

***YMWELWYR AC YMHOLIADAU* / VISITORS AND ENQUIRIES**

| *MIS* / MONTH | **2022/23** | | | | *CYFANSWM* TOTAL | | **2021/22** | | | | *CYFANSWM* TOTAL | ***CYMHARIAETH* *22/23 - 21/22*** % + / - | | **2019/20** *CYFANSWM* TOTAL | ***CYMHARIAETH* *21/22 - 19/20*** % + / - |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | e. | | | | | | e. | | | | | |
| *EBR* / APR | 2,173 | - | 23 | 10 | 2,206 | *EBR* / APR | 519 | - | 46 | 6 | 571 | 286.34 | *EBR / APR* | 4,272 | -48.36 |
| *MAI* / MAY | 2,991 | - | 48 | 10 | 3,049 | *MAI* / MAY | 1,040 | 1 | 72 | 9 | 1,122 | 171.75 | *MAI / MAY* | 5,984 | -49.05 |
| *MEH* / JUN | 4,295 | - | 54 | 5 | 4,354 | *MEH* / JUN | 1,845 | - | 84 | 14 | 1,943 | 124.09 | *MEH / JUN* | 4,203 | 3.59 |
| *GOR* / JUL | 6,672 | 1 | 61 | 6 | 6,740 | *GOR* / JUL | 1,548 | - | 63 | 8 | 1,619 | 316.31 | *GOR / JUL* | 6,654 | 1.29 |
| *AWS* / AUG | 7,586 | 1 | 69 | 4 | 7,660 | *AWS* / AUG | 2,227 | - | 99 | 10 | 2,336 | 227.91 | *AWS / AUG* | 8,873 | -13.67 |
| *MED* / SEP | 3,516 | - | 24 | 1 | 3,541 | *MED* / SEP | 2,043 | - | 56 | 2 | 2,101 | 68.54 | *MED / SEP* | 4,539 | -21.99 |
| *HYD* / OCT | 2,041 | - | 15 | 4 | 2,060 | *HYD* / OCT | 864 | - | 14 | 2 | 880 | 134.09 | *HYD / OCT* | 2,584 | -20.28 |
| *TACH* / NOV | 209 | - | 3 | - | 212 | *TACH* / NOV | - | - | - | - | - | #DIV/0! | *TACH / NOV* | 165 | 28.48 |
| *RHAG* / DEC | - | - | - | - | - | *RHAG* / DEC | - | - | - | - | - | #DIV/0! | *RHAG / DEC* | - | #DIV/0! |
| *ION* / JAN | - | - | - | - | - | *ION* / JAN | - | - | - | - | - | #DIV/0! | *ION / JAN* | - | #DIV/0! |
| *CHWE* / FEB | - | - | - | - | - | *CHWE* / FEB | - | - | - | - | - | #DIV/0! | *CHWE / FEB* | - | #DIV/0! |
| *MAW* / MAR | - | - | - | - | - | *MAW* / MAR | - | - | - | - | - | #DIV/0! | *MAW / MAR* | - | #DIV/0! |
| *CYFANSWM* / TOTAL | 29,483 | 2 | 297 | 40 | 29,822 | | 10,086 | 1 | 434 | 51 | 10,572 | 182.08 | | 37,274 | -19.99 |
| *EBR-HYD* / APR-OCT | 29,274 | 2 | 294 | 40 | 29,610 | | 10,086 | 1 | 434 | 51 | 10,572 | 180.08 | | 37,109 | -20.21 |

| ***CYN. TAW / INC. VAT*** *MIS/* MONTH | ***GWERTHIANNAU* / SALES** 2022/23 | 2021/22 | 2019/20 | ***CYMHARIAETH* *22/23 - 21/22*** % + / - | ***CYMHARIAETH* *22/23 - 19/20*** % + / - |
|---|---|---|---|---|---|
| *EBR* / APR | £ 1,971.01 | £ 1,147.52 | £ 2,474.30 | 71.76 | -20.34 |
| *MAI* / MAY | £ 2,462.62 | £ 1,893.45 | £ 2,870.54 | 30.06 | -14.21 |
| *MEH* / JUN | £ 3,128.17 | £ 3,413.51 | £ 2,720.19 | -8.36 | 15.00 |
| *GOR* / JUL | £ 4,596.19 | £ 3,138.09 | £ 4,183.88 | 46.46 | 9.85 |
| *AWS* / AUG | £ 4,774.52 | £ 4,219.59 | £ 4,656.28 | 13.15 | 2.54 |
| *MED* / SEP | £ 4,236.46 | £ 4,009.26 | £ 3,638.97 | 5.67 | 16.42 |
| *HYD* / OCT | £ 2,312.19 | £ 2,430.99 | £ 1,913.05 | -4.89 | 20.86 |
| *TACH* / NOV | £ 455.77 | £ - | £ 222.20 | #DIV/0! | 105.12 |
| *RHAG* / DEC | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *ION* / JAN | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *CHWE* / FEB | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *MAW* / MAR | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *CYFANSWM* / TOTAL | £ 23,936.93 | £ 20,252.41 | £ 22,679.41 | 18.19 | 5.54 |
| *EBR-HYD* / APR-OCT | £ 23,481.16 | £ 20,252.41 | £ 22,457.21 | 15.94 | 4.56 |

| **2019/20** | *Gwerthiant* TOTAL | *Llety* TOTAL | *Elw* TOTAL |
|---|---|---|---|
| *EBR / APR* | £ 2,474.30 | £ 9.50 | £ 985.88 |
| *MAI / MAY* | £ 2,870.54 | £ - | £ 1,152.64 |
| *MEH / JUN* | £ 2,720.19 | £ - | £ 1,051.70 |
| *GOR / JUL* | £ 4,183.88 | £ 26.50 | £ 1,691.74 |
| *AWS / AUG* | £ 4,656.28 | £ 7.50 | £ 1,856.32 |
| *MED / SEP* | £ 3,638.97 | £ 39.00 | £ 1,469.64 |
| *HYD / OCT* | £ 1,913.05 | £ - | £ 762.02 |
| *TACH / NOV* | £ 222.20 | £ - | £ 80.86 |
| *RHAG / DEC* | £ - | £ - | £ - |
| *ION / JAN* | £ - | £ - | £ - |
| *CHWE / FEB* | £ - | £ - | £ - |
| *MAW / MAR* | £ - | £ - | £ - |
| | £ 22,679.41 | £ 82.50 | £ 9,050.80 |
| | £ 22,457.21 | £ 82.50 | £ 8,969.94 |

| *MIS* / MONTH | ***INCWM LLETY / ACCOM INCOME*** 2022/23 | 2021/22 | 2019/20 | ***CYMHARIAETH* *22/23 - 21/22*** % + / - | ***CYMHARIAETH* *22/23 - 19/20*** % + / - |
|---|---|---|---|---|---|
| *EBR* / APR | £ 8.00 | £ - | £ 9.50 | #DIV/0! | -15.79 |
| *MAI* / MAY | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *MEH* / JUN | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *GOR* / JUL | £ 19.00 | £ 47.00 | £ 26.50 | -59.57 | -28.30 |
| *AWS* / AUG | £ 31.50 | £ - | £ 7.50 | #DIV/0! | 320.00 |
| *MED* / SEP | £ - | £ - | £ 39.00 | #DIV/0! | -100.00 |
| *HYD* / OCT | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *TACH* / NOV | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *RHAG* / DEC | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *ION* / JAN | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *CHWE* / FEB | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *MAW* / MAR | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *CYFANSWM* / TOTAL | £ 58.50 | £ 47.00 | £ 82.50 | 24.47 | -29.09 |
| *EBR-HYD* / APR-OCT | £ 58.50 | £ 47.00 | £ 82.50 | 24.47 | -29.09 |

***ELW / PROFIT (dim costau - gwerthiannau ac archebu llety yr***

| *MIS* / MONTH | 2022/23 | 2021/22 | 2019/20 | ***CYMHARIAETH* *22/23 - 21/22*** % + / - | ***CYMHARIAETH* *22/23 - 19/20*** % + / - |
|---|---|---|---|---|---|
| *EBR* / APR | £ 755.99 | £ 453.47 | £ 985.88 | 66.71 | -23.32 |
| *MAI* / MAY | £ 988.44 | £ 742.35 | £ 1,152.64 | 33.15 | -14.25 |
| *MEH* / JUN | £ 1,213.06 | £ 1,366.99 | £ 1,051.70 | -11.26 | 15.34 |
| *GOR* / JUL | £ 1,897.26 | £ 1,293.98 | £ 1,691.74 | 46.62 | 12.15 |
| *AWS* / AUG | £ 1,977.25 | £ 1,689.50 | £ 1,856.32 | 17.03 | 6.51 |
| *MED* / SEP | £ 1,735.21 | £ 1,601.26 | £ 1,469.64 | 8.37 | 18.07 |
| *HYD* / OCT | £ 926.60 | £ 958.72 | £ 762.02 | -3.35 | 21.60 |
| *TACH* / NOV | £ 174.13 | £ - | £ 80.86 | #DIV/0! | 115.35 |
| *RHAG* / DEC | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *ION* / JAN | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *CHWE* / FEB | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *MAW* / MAR | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *CYFANSWM* / TOTAL | £ 9,667.94 | £ 8,106.27 | £ 9,050.80 | 19.26 | 6.82 |
| *EBR-HYD* / APR-OCT | £ 9,493.81 | £ 8,106.27 | £ 8,969.94 | 17.12 | 5.84 |

***CANOLFAN* / CENTRE: BEDDGELERT**

***YMWELWYR AC YMHOLIADAU* / VISITORS AND ENQUIRIES**

| *MIS* MONTH | 2022/23 | | ( / ( | e. | *CYFANSWM* TOTAL | | 2021/22 | | ( / ( | e. | *CYFANSWM* TOTAL | *CYMHARIAETH* 22/23 - 21/22 % + / - | | 2019/20 *CYFANSWM* TOTAL | *CYMHARIAETH* 21/22 - 19/20 % + / - |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *EBR / APR* | 4,155 | - | 136 | 20 | 4,311 | *EBR* / APR | 1,708 | 2 | 62 | 16 | 1,788 | 141.11 | *EBR / APR* | 4,492 | -4.03 |
| *MAI / MAY* | 4,128 | 1 | 103 | 20 | 4,252 | *MAI* / MAY | 3,574 | - | 90 | 44 | 3,708 | 14.67 | *MAI / MAY* | 6,028 | -29.46 |
| *MEH / JUN* | 3,947 | - | 87 | 12 | 4,046 | *MEH* / JUN | 6,470 | - | 113 | 62 | 6,645 | -39.11 | *MEH / JUN* | 5,163 | -21.63 |
| *GOR / JUL* | 7,134 | - | 142 | 15 | 7,291 | *GOR* / JUL | 6,416 | - | 85 | 51 | 6,552 | 11.28 | *GOR / JUL* | 7,326 | -0.48 |
| *AWS / AUG* | 9,084 | 1 | 183 | 29 | 9,297 | *AWS* / AUG | 7,913 | 1 | 118 | 53 | 8,085 | 14.99 | *AWS / AUG* | 12,194 | -23.76 |
| *MED / SEP* | 5,545 | - | 82 | 7 | 5,634 | *MED* / SEP | 6,183 | - | 60 | 10 | 6,253 | -9.90 | *MED / SEP* | 6,177 | -8.79 |
| *HYD / OCT* | 4,061 | - | 65 | 10 | 4,136 | *HYD* / OCT | 4,525 | - | 54 | 6 | 4,585 | -9.79 | *HYD / OCT* | 4,086 | 1.22 |
| *TACH / NOV* | 453 | - | 6 | - | 459 | *TACH* / NOV | - | - | - | - | - | #DIV/0! | *TACH / NOV* | 285 | 61.05 |
| *RHAG / DEC* | - | - | - | - | - | *RHAG* / DEC | - | - | - | - | - | #DIV/0! | *RHAG / DEC* | - | #DIV/0! |
| *ION / JAN* | - | - | - | - | - | *ION* / JAN | - | - | - | - | - | #DIV/0! | *ION / JAN* | 1 | -100.00 |
| *CHWE / FEB* | - | - | - | - | - | *CHWE* / FEB | 390 | - | 3 | 3 | 396 | #DIV/0! | *CHWE / FEB* | 830 | -100.00 |
| *MAW / MAR* | - | - | - | - | - | *MAW* / MAR | 911 | - | 22 | 4 | 937 | #DIV/0! | *MAW / MAR* | 324 | -100.00 |
| *CYFANSWM* / TOTAL | 38,507 | 2 | 804 | 113 | 39,426 | | 38,090 | 3 | 607 | 249 | 38,949 | 1.22 | | 46,906 | -15.95 |
| *EBR-HYD* / APR-OCT | 38,054 | 2 | 798 | 113 | 38,967 | | 36,789 | 3 | 582 | 242 | 37,616 | 3.59 | | 45,466 | -14.29 |

| ***CYN. TAW / INC. VAT*** *MIS/MONTH* | ***GWERTHIANNAU / SALES*** 2022/23 | 2021/22 | 2019/20 | *CYMHARIAETH* 22/23 - 21/22 % + / - | *CYMHARIAETH* 22/23 - 19/20 % + / - |
|---|---|---|---|---|---|
| *EBR* / APR | £ 10,603.43 | £ 2,433.47 | £ 8,154.03 | 335.73 | 30.04 |
| *MAI* / MAY | £ 10,352.18 | £ 7,296.49 | £ 9,887.04 | 41.88 | 4.70 |
| *MEH* / JUN | £ 8,877.17 | £ 11,581.21 | £ 7,914.44 | -23.35 | 12.16 |
| *GOR* / JUL | £ 15,703.55 | £ 14,493.10 | £ 11,190.44 | 8.35 | 40.33 |
| *AWS* / AUG | £ 19,091.41 | £ 16,742.57 | £ 14,157.50 | 14.03 | 34.85 |
| *MED* / SEP | £ 14,881.52 | £ 15,286.43 | £ 9,445.28 | -2.65 | 57.56 |
| *HYD* / OCT | £ 11,411.99 | £ 12,680.90 | £ 8,477.61 | -10.01 | 34.61 |
| *TACH* / NOV | £ 1,514.82 | £ - | £ 615.94 | #DIV/0! | 145.94 |
| *RHAG* / DEC | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *ION* / JAN | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *CHWE* / FEB | £ - | £ 1,520.80 | £ 1,005.69 | -100.00 | -100.00 |
| *MAW* / MAR | £ - | £ 2,743.08 | £ 504.56 | -100.00 | -100.00 |
| *CYFANSWM* / TOTAL | £ 92,436.07 | £ 84,778.05 | £ 71,352.53 | 9.03 | 29.55 |
| *EBR-HYD* / APR-OCT | £ 90,921.25 | £ 80,514.17 | £ 69,226.34 | 12.93 | 31.34 |

**2019/20**

| | *Gwerthiant* TOTAL | *Llety* TOTAL | *Elw* TOTAL |
|---|---|---|---|
| *EBR / APR* | £ 2,474.30 | £ 9.50 | £ 985.88 |
| *MAI / MAY* | £ 2,870.54 | £ - | £ 1,152.64 |
| *MEH / JUN* | £ 2,720.19 | £ - | £ 1,051.70 |
| *GOR / JUL* | £ 4,183.88 | £ 26.50 | £ 1,691.74 |
| *AWS / AUG* | £ 4,656.28 | £ 7.50 | £ 1,856.32 |
| *MED / SEP* | £ 3,638.97 | £ 39.00 | £ 1,469.64 |
| *HYD / OCT* | £ 1,913.05 | £ - | £ 762.02 |
| *TACH / NOV* | £ 222.20 | £ - | £ 80.86 |
| *RHAG / DEC* | £ - | £ - | £ - |
| *ION / JAN* | £ - | £ - | £ - |
| *CHWE / FEB* | £ - | £ - | £ - |
| *MAW / MAR* | £ - | £ - | £ - |
| | £ 22,679.41 | £ 82.50 | £ 9,050.80 |
| | £ 22,457.21 | £ 82.50 | £ 8,969.94 |

| *MIS* / MONTH | ***INCWM LLETY / ACCOM INCOME*** 2022/23 | 2021/22 | 2019/20 | *CYMHARIAETH* 22/23 - 21/22 % + / - | *CYMHARIAETH* 22/23 - 19/20 % + / - |
|---|---|---|---|---|---|
| *EBR* / APR | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *MAI* / MAY | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *MEH* / JUN | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *GOR* / JUL | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *AWS* / AUG | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *MED* / SEP | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *HYD* / OCT | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *TACH* / NOV | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *RHAG* / DEC | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *ION* / JAN | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *CHWE* / FEB | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *MAW* / MAR | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *CYFANSWM* / TOTAL | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *EBR-HYD* / APR-OCT | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |

***ELW / PROFIT (dim costau - gwerthiannau ac archebu llety yn***

| *MIS* / MONTH | 2022/23 | 2021/22 | 2019/20 | *CYMHARIAETH* 22/23 - 21/22 % + / - | *CYMHARIAETH* 22/23 - 19/20 % + / - |
|---|---|---|---|---|---|
| *EBR* / APR | £ 4,182.82 | £ 905.38 | £ 3,134.25 | 362.00 | 33.46 |
| *MAI* / MAY | £ 4,010.73 | £ 2,846.44 | £ 3,787.25 | 40.90 | 5.90 |
| *MEH* / JUN | £ 3,406.85 | £ 4,517.55 | £ 3,039.26 | -24.59 | 12.09 |
| *GOR* / JUL | £ 6,224.43 | £ 5,634.43 | £ 4,427.67 | 10.47 | 40.58 |
| *AWS* / AUG | £ 7,612.09 | £ 6,561.49 | £ 5,631.23 | 16.01 | 35.18 |
| *MED* / SEP | £ 5,937.90 | £ 5,922.71 | £ 3,754.43 | 0.26 | 58.16 |
| *HYD* / OCT | £ 4,460.08 | £ 4,806.13 | £ 3,329.81 | -7.20 | 33.94 |
| *TACH* / NOV | £ 576.89 | £ - | £ 235.67 | #DIV/0! | 144.79 |
| *RHAG* / DEC | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *ION* / JAN | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *CHWE* / FEB | £ - | £ 574.68 | £ 401.41 | -100.00 | -100.00 |
| *MAW* / MAR | £ - | £ 1,061.47 | £ 202.35 | -100.00 | -100.00 |
| *CYFANSWM* / TOTAL | £ 36,411.79 | £ 32,830.28 | £ 27,943.33 | 10.91 | 30.31 |
| *EBR-HYD* / APR-OCT | £ 35,834.90 | £ 31,194.13 | £ 27,103.90 | 14.88 | 32.21 |

***CANOLFAN* / CENTRE: BETWS-Y-COED**
***YMWELWYR AC YMHOLIADAU* / VISITORS AND ENQUIRIES**

| *MIS* MONTH | 2022/23 | | / | e. | *CYFANSWM* TOTAL | | 2021/22 | | / | e. | *CYFANSWM* TOTAL | *CYMHARIAETH* *22/23 - 21/22* % + / - | | 2019/20 *CYFANSWM* TOTAL | *CYMHARIAETH* *21/22 - 19/20* % + / - |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *EBR* / APR | 6,251 | - | 109 | 31 | 6,391 | *EBR* / APR | 945 | 1 | 115 | 9 | 1,070 | 497.29 | *EBR / APR* | 8,925 | -28.39 |
| *MAI* / MAY | 6,449 | - | 101 | 29 | 6,579 | *MAI* / MAY | 3,905 | - | 286 | 33 | 4,224 | 55.75 | *MAI / MAY* | 9,317 | -29.39 |
| *MEH* / JUN | 9,304 | - | 90 | 18 | 9,412 | *MEH* / JUN | 7,083 | 1 | 518 | 40 | 7,642 | 23.16 | *MEH / JUN* | 7,907 | 19.03 |
| *GOR* / JUL | 10,130 | 1 | 96 | 17 | 10,244 | *GOR* / JUL | 8,029 | 2 | 456 | 17 | 8,504 | 20.46 | *GOR / JUL* | 10,058 | 1.85 |
| *AWS* / AUG | 12,587 | - | 127 | 20 | 12,734 | *AWS* / AUG | 9,817 | 1 | 553 | 28 | 10,399 | 22.45 | *AWS / AUG* | 15,114 | -15.75 |
| *MED* / SEP | 9,700 | - | 95 | 19 | 9,814 | *MED* / SEP | 7,290 | - | 287 | 11 | 7,588 | 29.34 | *MED / SEP* | 9,606 | 2.17 |
| *HYD* / OCT | 7,104 | 1 | 64 | 11 | 7,180 | *HYD* / OCT | 6,575 | - | 125 | 9 | 6,709 | 7.02 | *HYD / OCT* | 7,126 | 0.76 |
| *TACH* / NOV | 912 | - | 4 | 2 | 918 | *TACH* / NOV | 1,722 | - | 65 | 18 | 1,805 | -49.14 | *TACH / NOV* | 3,467 | -73.52 |
| *RHAG* / DEC | - | - | - | - | - | *RHAG* / DEC | 1,930 | - | 24 | 7 | 1,961 | -100.00 | *RHAG / DEC* | 2,671 | -100.00 |
| *ION* / JAN | - | - | - | - | - | *ION* / JAN | 1,312 | - | 54 | 13 | 1,379 | -100.00 | *ION / JAN* | 2,636 | -100.00 |
| *CHWE* / FEB | - | - | - | - | - | *CHWE* / FEB | 1,947 | 1 | 68 | 16 | 2,032 | -100.00 | *CHWE / FEB* | 2,761 | -100.00 |
| *MAW* / MAR | - | - | - | - | - | *MAW* / MAR | 2,885 | 1 | 70 | 12 | 2,968 | -100.00 | *MAW / MAR* | 1,955 | -100.00 |
| *CYFANSWM* / TOTAL | 62,437 | 2 | 686 | 147 | 63,272 | | 53,440 | 7 | 2,621 | 213 | 56,281 | 12.42 | | 81,543 | -22.41 |
| *EBR-HYD* / APR-OCT | 61,525 | 2 | 682 | 145 | 62,354 | | 43,644 | 5 | 2,340 | 147 | 46,136 | 35.15 | | 68,053 | -8.37 |

* *Ffigyrau ddim yn gyflawn*

| ***CYN. TAW / INC. VAT*** *MIS/MONTH* | ***GWERTHIANNAU / SALES*** 2022/23 | 2021/22 | 2019/20 | *CYMHARIAETH* *22/23 - 21/22* % + / - | *CYMHARIAETH* *22/23 - 19/20* % + / - |
|---|---|---|---|---|---|
| *EBR* / APR | £ 10,866.46 | £ 2,140.94 | £ 9,961.02 | 407.56 | 9.09 |
| *MAI* / MAY | £ 10,478.10 | £ 5,760.07 | £ 11,900.62 | 81.91 | -11.95 |
| *MEH* / JUN | £ 10,439.73 | £ 10,046.62 | £ 11,642.12 | 3.91 | -10.33 |
| *GOR* / JUL | £ 11,526.49 | £ 9,831.19 | £ 15,941.64 | 17.24 | -27.70 |
| *AWS* / AUG | £ 14,457.78 | £ 12,438.04 | £ 18,088.17 | 16.24 | -20.07 |
| *MED* / SEP | £ 11,457.46 | £ 10,558.50 | £ 13,525.68 | 8.51 | -15.29 |
| *HYD* / OCT | £ 9,125.33 | £ 9,345.80 | £ 10,108.25 | -2.36 | -9.72 |
| *TACH* / NOV | £ - | £ 4,223.38 | £ 5,488.55 | -100.00 | -100.00 |
| *RHAG* / DEC | £ - | £ 4,537.50 | £ 5,654.97 | -100.00 | -100.00 |
| *ION* / JAN | £ - | £ 2,175.74 | £ 2,935.18 | -100.00 | -100.00 |
| *CHWE* / FEB | £ - | £ 2,988.36 | £ 3,555.98 | -100.00 | -100.00 |
| *MAW* / MAR | £ - | £ 5,226.44 | £ 2,754.21 | -100.00 | -100.00 |
| *CYFANSWM* / TOTAL | £ 78,351.35 | £ 79,272.58 | £ 111,556.39 | -1.16 | -29.77 |
| *EBR-HYD* / APR-OCT | £ 78,351.35 | £ 60,121.16 | £ 91,167.50 | 30.32 | -14.06 |

* *Ffigyrau ddim yn gyflawn*

**2019/20**

| | *Gwerthiant* TOTAL | *Llety* TOTAL | *Elw* TOTAL |
|---|---|---|---|
| *EBR / APR* | £ 2,474.30 | £ 9.50 | £ 985.88 |
| *MAI / MAY* | £ 2,870.54 | £ - | £ 1,152.64 |
| *MEH / JUN* | £ 2,720.19 | £ - | £ 1,051.70 |
| *GOR / JUL* | £ 4,183.88 | £ 26.50 | £ 1,691.74 |
| *AWS / AUG* | £ 4,656.28 | £ 7.50 | £ 1,856.32 |
| *MED / SEP* | £ 3,638.97 | £ 39.00 | £ 1,469.64 |
| *HYD / OCT* | £ 1,913.05 | £ - | £ 762.02 |
| *TACH / NOV* | £ 222.20 | £ - | £ 80.86 |
| *RHAG / DEC* | £ - | £ - | £ - |
| *ION / JAN* | £ - | £ - | £ - |
| *CHWE / FEB* | £ - | £ - | £ - |
| *MAW / MAR* | £ - | £ - | £ - |
| | £ 22,679.41 | £ 82.50 | £ 9,050.80 |
| | £ 22,457.21 | £ 82.50 | £ 8,969.94 |

| *MIS* / MONTH | ***INCWM LLETY / ACCOM INCOME*** 2022/23 | 2021/22 | 2019/20 | *CYMHARIAETH* *22/23 - 21/22* % + / - | *CYMHARIAETH* *22/23 - 19/20* % + / - |
|---|---|---|---|---|---|
| *EBR* / APR | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *MAI* / MAY | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *MEH* / JUN | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *GOR* / JUL | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *AWS* / AUG | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *MED* / SEP | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *HYD* / OCT | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *TACH* / NOV | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *RHAG* / DEC | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *ION* / JAN | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *CHWE* / FEB | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *MAW* / MAR | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *CYFANSWM* / TOTAL | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |
| *EBR-HYD* / APR-OCT | £ - | £ - | £ - | #DIV/0! | #DIV/0! |

* *Ffigyrau ddim yn gyflawn*

***ELW / PROFIT (dim costau - gwerthiannau ac archebu llety yn***

| *MIS* / MONTH | 2022/23 | 2021/22 | 2019/20 | *CYMHARIAETH* *22/23 - 21/22* % + / - | *CYMHARIAETH* *22/23 - 19/20* % + / - |
|---|---|---|---|---|---|
| *EBR* / APR | £ 4,408.43 | £ 843.95 | £ 3,937.74 | 422.36 | 11.95 |
| *MAI* / MAY | £ 4,234.71 | £ 2,307.63 | £ 4,745.15 | 83.51 | -10.76 |
| *MEH* / JUN | £ 4,236.66 | £ 4,006.20 | £ 4,570.20 | 5.75 | -7.30 |
| *GOR* / JUL | £ 4,672.40 | £ 3,952.67 | £ 6,252.20 | 18.21 | -25.27 |
| *AWS* / AUG | £ 5,875.47 | £ 5,005.94 | £ 7,244.73 | 17.37 | -18.90 |
| *MED* / SEP | £ 4,663.11 | £ 4,225.53 | £ 5,387.02 | 10.36 | -13.44 |
| *HYD* / OCT | £ 3,664.58 | £ 3,236.63 | £ 4,063.94 | 13.22 | -9.83 |
| *TACH* / NOV | £ - | £ 1,654.95 | £ 2,173.89 | -100.00 | -100.00 |
| *RHAG* / DEC | £ - | £ 1,734.90 | £ 2,235.34 | -100.00 | -100.00 |
| *ION* / JAN | £ - | £ 859.28 | £ 1,132.86 | -100.00 | -100.00 |
| *CHWE* / FEB | £ - | £ 1,221.93 | £ 1,371.16 | -100.00 | -100.00 |
| *MAW* / MAR | £ - | £ 2,059.44 | £ 1,065.49 | -100.00 | -100.00 |
| *CYFANSWM* / TOTAL | £ 31,755.36 | £ 31,109.05 | £ 44,179.72 | 2.08 | -28.12 |
| *EBR-HYD* / APR-OCT | £ 31,755.36 | £ 23,578.55 | £ 36,200.98 | 34.68 | -12.28 |

* *Ffigyrau ddim yn gyflawn*

| Elw ar Werthiannau/Profit on Sales | | Aberdyfi | Beddgelert | Betws y Coed |
|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm/Total | Cyfanswm/Total | Cyfanswm/Total |
| 2015 | | £5,664.54 | £ 12,413.31 | £20,083.96 |
| 2016 | | £8,705.86 | £ 18,362.32 | £30,099.03 |
| 2017 | | £7,998.18 | £ 22,643.70 | £34,699.75 |
| 2018 | | £8,752.51 | £ 25,942.14 | £39,508.29 |
| 2019 | | £9,038.85 | £ 28,235.48 | £45,322.49 |
| 2020 | | £4,530.58 | £ 13,136.96 | £13,630.91 |
| 2021 | | £8,106.29 | £ 31,194.13 | £26,967.40 |
| 2022 | Ddim yn gyflawn/Not complete | £9,667.94 | £ 38,047.94 | £35,896.01 |

| Elw Y Pen/Profit per Head | | Aberdyfi | Beddgelert | Betws y Coed |
|---|---|---|---|---|
| | | Average | Average | Average |
| 2015 | | £0.18 | £0.23 | £0.16 |
| 2016 | | £0.23 | £0.33 | £0.22 |
| 2017 | | £0.26 | £0.36 | £0.27 |
| 2018 | | £0.27 | £0.47 | £0.35 |
| 2019 | | £0.27 | £0.65 | £0.54 |
| 2020 | | £0.53 | £0.70 | £0.63 |
| 2021 | | £0.74 | £0.76 | £0.56 |
| 2022 | Ddim yn gyflawn/Not Complete | £0.41 | £1.04 | £0.56 |

| Ymholiadau Ymwelwyr/Visitor Enquiries | | Aberdyfi | Beddgelert | Betws y Coed |
|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm/Total | Cyfanswm/Total | Cyfanswm/Total |
| 2015 | | 31768 | 52029 | 121307 |
| 2016 | | 40197 | 56307 | 134126 |
| 2017 | | 32824 | 56144 | 127258 |
| 2018 | | 34031 | 59634 | 123491 |
| 2019 | | 37493 | 47205 | 84678 |
| 2020 | | 8359 | 16606 | 29266 |
| 2021 | | 9692 | 33032 | 39517 |
| 2022 | Ddim yn gyflawn/Not Complete | 29822 | 40759 | 68733 |

| Gwariant Cyfartalog Fesul Trafodyn/Average Spend Per Transaction | | Aberdyfi | Beddgelert | Betws y Coed |
|---|---|---|---|---|
| | | Average | Average | Average |
| 2015 | | £8.10 | £5.72 | £5.75 |
| 2016 | | £7.59 | £7.34 | £7.12 |
| 2017 | | £7.39 | £8.53 | £8.12 |
| 2018 | | £7.74 | £8.83 | £9.07 |
| 2019 | | £9.18 | £10.11 | £9.60 |
| 2020 | | £10.29 | £12.72 | £12.67 |
| 2021 | | £10.24 | £11.24 | £10.31 |
| 2022 | Ddim yn gyflawn | £10.02 | £12.16 | £10.07 |

**EITEM RHIF 12**

| BWRDD RHEOLI PLAS TAN Y BWLCH<br>DYDD MERCHER 13 GORFFENNAF 2022 | |
|---|---|
| | <u>**Yn bresennol:**</u><br><br>**Aelodau'r Bwrdd:**<br>Cyng. Meryl Roberts,<br>Mr.Tim Jones,<br>Ms. Tracey Evans<br>Mr. Iwan Jones<br><br>**Yn bresennol:**<br>Cyng. Annwen Hughes, Cyng. Edgar W. Owen (ex-officio).<br><br>**Swyddogion:**<br>Mr. Dafydd Edwards, Swyddog Adran 151, Sian Owen, Sarah Roberts. |
| 1 . | **Cadeirydd** |
| | Etholwyd Mr Tim Jones yn Gadeirydd ar Fwrdd Plas Tan y Bwlch.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth a chroesawodd y Cyng. Meryl Roberts i'w chyfarfod cyntaf o Fwrdd Plas Tan y Bwlch. |
| 2 . | **Ymddiheuriadau** |
| | Mr. Emyr Williams, Ms. Zara Roberts. |
| 3. | **Datgan Budd** |
| | Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem. |
| 4. | **Cofnodion** |
| | Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 18 Mai 2022, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir. |
| 5. | **Diweddariad Ariannol Plas Tan y Bwlch** |
| | Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Rheolwr Tŷ, i roi diweddariad i'r Aelodau ar y sefyllfa ariannol bresennol.<br><br>Adroddwyd - Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r atodiadau yn absenoldeb y Rheolwr Tŷ ac amlinellodd y prif bwyntiau. Darparodd y Pennaeth Cyllid eglurhad pellach ar y ffigyrau a thanlinellodd y prif bwyntiau. Nododd yr Aelodau, er y byddai angen adolygu rhai o'r llinellau cyllideb, roedd yr adroddiad yn un manwl gywir ar y costau ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23. |

| | |
|---|---|
| | Trafododd yr Aelodau'r adroddiad yn fanwl a gwneud y sylwadau a ganlyn:-<br>- Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wrth y Bwrdd fod y Prif Weithredwr wedi codi'r pwyntiau a ganlyn gydag ef:-<br>• Nid yw'r papur yn ddigon cryf eto i'w alw'n gynllun busnes llawn.<br>• Nid yw'n glir beth fydd costau cadw'r Plas yn rhedeg i'r Awdurdod o'r papur hwn. Mae hyn yn bwysig gan y bydd pwysau ariannol sylweddol y flwyddyn nesaf.<br>• Rwy'n cymryd mai llenwi'r ystafelloedd yn lle prydau nos yw'r pwyslais, gan fod yr elw ar wely a brecwast yn llawer mwy na darparu pryd nos ond yn deall y dadleuon i'w darparu o safbwynt y cwsmer.<br>• Mae'r sefyllfa staffio yn anodd, os na allwn recriwtio, bydd y pwyslais ar leihau dyddiau agor o fewn capasiti'r staff.<br>• Cyn Covid nid oedd yr ystafell de yn gwneud elw, felly mae angen bod yn ofalus yn hynny o beth.<br>• Mae costau rhedeg y Plas tua £400K, dyweder £40K y mis (os yw'n cau am ddau fis), ydy'r proffil incwm yn dangos £40K y mis?<br>- Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, teimlai'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y Cynllun Busnes yn y tymor byr yn ddigon i'r Bwrdd roi cymorth i Reolwr y Tŷ ar y ffordd ymlaen. Dywedodd fod Rheolwr y Tŷ wedi nodi'n glir y gost i'r Awdurdod o redeg Plas Tan y Bwlch. Mewn ymateb i ddarparu pryd gyda'r nos, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol wybod am y problemau staffio yn y gegin a achoswyd drwy ddarparu brecwast yn unig, ac yn ei hadroddiad, roedd Rheolwr y Tŷ wedi gofyn am gymorth gan y Bwrdd i ganiatáu i ddau o aelodau ychwanegol o staff y gegin i gael eu penodi ac wrth i gyrsiau ddychwelyd i'r Plas, bu cynnydd yn y galw am bryd nos. Credai Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'n werth darparu pryd gyda'r nos pe byddai capasiti staff yn caniatáu a dywedodd wrth Aelodau'r Bwrdd y byddai angen penderfynu a ddylid penodi Rheolwr Arlwyo yn y cyfarfod heddiw.<br>- Trafododd yr Aelodau'r materion recriwtio a theimlwyd bod angen mynd i'r afael â'r mater cyn symud ymlaen ac roeddent yn bryderus y gallai dyfodol y Plas fod yn y fantol os na ellid datrys y materion staffio.<br>- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod swyddi gweigion yn cael eu hysbysebu trwy Indeed ond hyd yma ni fu'r recriwtio yn llwyddiannus.<br>- Bu'r aelodau'n ystyried opsiynau dichonadwy i ddenu darpar ymgeiswyr i'r swyddi gan gynnwys cynyddu'r cyflog ar gyfer y swyddi neu gynnig ychwanegiad marchnad. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod recriwtio'n hanfodol ond pe byddai'n aflwyddiannus byddai angen edrych ar opsiynau eraill i sicrhau dyfodol y Plas a dywedodd y byddai angen i'r Panel Arfarnu Swyddi ystyried unrhyw gynnydd yn y cyflog ar gyfer swyddi o'r fath. Nid oedd y Bwrdd yn gallu gwneud penderfyniadau o'r fath.<br>- Cytunodd yr Aelodau'n gryf y dylid hysbysebu swyddi'r Rheolwr Arlwyo a'r Cogydd Cynorthwyol a'u hanfon allan yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod.<br>- Trafododd yr Aelodau Sylwadau'r Prif Weithredwr ar ailagor yr ystafell de a dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol er bod y costau rhedeg yn uchel, roedd yr ystafell de wedi gwneud elw bach cyn y pandemig. Cadarnhaodd y dylid cytuno mewn egwyddor i ailagor yr Ystafell De gan y gellid gwneud |

| | |
|---|---|
| | hynny o fewn y lefelau staffio presennol a dywedodd y byddai'n amlwg o fewn mis os nad oedd yn ariannol hyfyw.<br>- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol mai'r costau ychwanegol fyddai cyflogi aelod o staff achlysurol i redeg yr ystafell de.<br>- Credai'r Prif Swyddog Cyllid ei bod yn bwysig cymryd golwg tymor byr a thymor hir ar y sefyllfa a bod angen sicrhau bod y Plas yn weithredol er mwyn symud ymlaen yn y tymor byr.<br>- Trafododd yr aelodau'r sefyllfa hirdymor a chytunwyd y byddai'n well aros hyd nes y gallai holl aelodau'r Bwrdd fod yn bresennol cyn gwneud unrhyw benderfyniadau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod Aelodau a Swyddogion yr Awdurdod yn teimlo mai ffurfio partneriaeth gyda sefydliad arall fyddai'r opsiwn gorau i symud ymlaen yn y tymor hir, ond cytunodd Aelodau'r Bwrdd ei bod yn bwysig bod y busnes ariannol hyfyw cyn symud ymlaen gydag unrhyw bartneriaeth bosibl, a bod cyflwr yr adeilad yn dderbyniol. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod gan yr Awdurdod gyfrifoldeb i gynnal Adeilad Rhestredig Gradd II*.<br>- Trafododd yr Aelodau'r Cynllun Busnes ymhellach a chytunwyd y dylid ei gymeradwyo yn y tymor byr ac y dylid rhoi cyfle i swyddogion ei drafod ymhellach gyda Rheolwr y Tŷ er mwyn symud ymlaen.<br><br>**GWEITHRED**<br>**1. nodi cynnwys yr adroddiad.**<br>**2. bod swyddi'r Rheolwr Arlwyo a'r Cogydd Cynorthwyol yn cael eu hysbysebu yn unol â Pholisïau a Gweithdrefnau'r Awdurdod.**<br>**3. cymeradwyo'r Cynllun Busnes fel y'i cyflwynwyd.**<br>**4. Rheolwr y Tŷ i ddiwygio'r Cynllun Busnes yn ôl yr angen a'i gyflwyno i gyfarfod nesaf Bwrdd Plas Tan y Bwlch i'w drafod ymhellach.** |

**Daeth y cyfarfod i ben am 14.50 yp**